Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

# Arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru

## Adroddiad Ymchwil 8

Catherine Walkley
Graham Gardner
Bill Edwards
Mike Woods
Mark Goodwin

Ionawr, 2006

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

Prifysgol Cymru Aberystwyth 1872 The University of Wales

**CYDNABYDDIAETH**

Hoffai Arsyllfa Wledig Cymru ddiolch i StatsCymru am ddarparu data ar gyflogaeth y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru, ac i holl weithwyr y sector cyhoeddus a gymrodd ran yn yr ymchwil empirig ar gyfer yr astudiaeth hon.

## CYNNWYS

Rhestr o ffigurau a thablau 4
Rhestr o focsys 7

Crynodeb o'r adroddiad 8

1. Cyflwyniad 11
   1.1 Cydnabod arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus 12
   1.2 Twf rhanbarthol 13
   1.3 Goblygiadau lefelau cyflogaeth uchel yn y sector cyhoeddus ar ranbarth 13
   1.4 Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus mewn dogfennau polisi 14
   1.5 Strwythur yr adroddiad 17

2. Casglu data 18
   2.1 Diffinio cyflogaeth yn y sector cyhoeddus 18
   2.2 Heriau mesur cyflogaeth yn y sector cyhoeddus 19
   2.3 Diffinio cefn gwlad Cymru 19
   2.4 Ffynonellau data 20
   2.5 Crynodeb 22

3. Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru 24
   3.1 Cyflwyniad 24
   3.2 Dosbarthiad cyflogaeth rhwng y sectorau ar draws cefn gwlad Cymru 24
   3.3 Cymharu cefn gwlad Cymru ag ardaloedd eraill yng Nghymru 25
   3.4 Archwilio amrywiad daearyddol 25

4. Nodweddion gweithwyr y sector cyhoeddus 27
   4.1 Rhyw 27
   4.2 Oedran 31
   4.3 Gweithio'n amser llawn ac yn rhan-amser 32
   4.4 Cymwysterau 33
   4.5 Y Gymraeg 34
   4.6 Galwedigaeth 35
   4.7 Dosbarth cymdeithasol 37
   4.8 Diwydiant cyflogaeth 38

5. Newid yng nghyfanswm cyflogaeth y sector cyhoeddus 2000-2004 41
   5.1 Trosolwg hanesyddol o batrymau cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ers 1979 41
   5.2 Newidiadau yn niferoedd gweithwyr y sector cyhoeddus a'r sector preifat, 2001-2004 42
   5.3 Newid yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, 2001-2004 43
   5.4 Cymharu'r newid yng nghefn gwlad Cymru ag ardaloedd eraill yng Nghymru 43
   5.5 Archwilio amrywiad daearyddol mewn newid 46
   5.6 Newid yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn ôl rhyw 51

6. Enillion yn y sector cyhoeddus 70
   6.1 Gwahaniaethau cyflog y sector cyhoeddus a phreifat yng nghefn gwlad Cymru 70
   6.2 Cyflog rhanbarthol 73

7. Ymchwil empirig 75
7.1 Cynllunio'r ymchwil empirig 75
7.2 Canlyniadau'r ymchwil empirig 78

Cyfeiriadau 88

Atodiad 1 – Arolwg o weithwyr y sector cyhoeddus 89

## RHESTR O'R FFIGURAU A'R TABLAU


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| Tabl 1.1 | Manteision ac anfanteision lefelau cyflogaeth uchel yn y sector cyhoeddus | 14 |
| Tabl 3.1 | Dosbarthiad y gweithlu llafur rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar draws cefn gwlad Cymru, 2004; ffynhonnell – Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yng Nghymru | 24 |
| Tabl 3.2 | Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth yn 2004; Cefn Gwlad Cymru, y Gymru drefol, y Cymoedd, 'Ardaloedd Eraill' | 25 |
| Tabl 3.3 | Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth yn 2004; ardaloedd awdurdodau unedol gwledig; yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf) | 26 |
| Tabl 4.1 | Dosbarthiad y gweithlu llafur gwrywaidd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar draws cefn gwlad Cymru, 2004 | 28 |
| Tabl 4.2 | Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth yn ôl rhyw, Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd, Ardaloedd Eraill a Chymru Gyfan, 2004 | 28 |
| Tabl 4.3 | Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf) | 29 |
| Tabl 4.4 | Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur benywaidd, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf) | 30 |
| Tabl 4.5 | Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd a benywaidd, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2004 | 30 |
| Tabl 4.6 | Dosbarthiad oedran y gweithlu o fewn y sector cyhoeddus, y sector preifat a phob sector yng nghefn gwlad Cymru a Chymru gyfan | 31 |
| Tabl 4.7 | Dosbarthiad oedran y gweithlu o fewn y sector cyhoeddus, y sector preifat a phob sector yng nghefn gwlad Cymru a Chymru gyfan, yn ôl rhyw | 32 |
| Tabl 4.8 | Personau 16 oed neu'n hyn mewn cyflogaeth amser llawn neu ran-amser yng Nghymru ym mhob sector, yn ôl math o ardal a rhyw, 2004 | 33 |
| Tabl 4.9 | Personau 16 oed neu'n hyn mewn cyflogaeth amser llawn neu ran-amser yng Nghymru yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ôl rhyw yng nghefn gwlad Cymru, 2004 | 33 |
| Tabl 4.10 | Cymwysterau uchaf yn ôl sector cyflogaeth bresennol | 34 |
| Tabl 4.11 | Cymwysterau CGC lefel 4 yn y sector cyhoeddus ar draws Cymru | 34 |
| Tabl 4.12 | Personau 16 oed neu'n hyn mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg - yn ôl rhyw a math o ardal, 2004 | 34 |
| Tabl 4.13 | Personau 16 oed neu'n hyn mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg yng nghefn gwlad Cymru - yn ôl sector, 2004 | 35 |
| Ffigur 4.14 | Galwedigaeth personau 16 neu'n hyn yng nghefn gwlad Cymru yn ôl sector, 2004 | 36 |
| Tabl 4.15 | Galwedigaeth personau 16 neu'n hyn yng Nghymru yn ôl math o ardal a sector, 2004 (canrannau) | 37 |
| Tabl 4.16 | Dosbarth cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru o fewn y sector cyhoeddus a'r sector preifat | 38 |
| Ffigur 4.17 | Cyfran gweithlu'r sector cyhoeddus a gyflogir yn y tri sector diwydiant | 39 |
| Tabl 4.18 | Sector gweithwyr yn nhri diwydiant y sector cyhoeddus | 40 |
| Tabl 5.1 | Newidiadau yng nghyflogaeth y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar draws cefn gwlad Cymru, 2001-2004 | 42 |
| Tabl 5.2 | Arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i gyfanswm cyflogaeth yng nghefn gwlad Cymru, 2001 a 2004 | 43 |
| Tabl 5.3 | Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ar draws Cefn | 44 |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill, 2001-2004 | |
| Tabl 5.4 | Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector preifat ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill, 2001-2004 | 44 |
| Tabl 5.5 | Arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth yn 2001 a 2004 | 45 |
| Tabl 5.6 | Newidiadau ym mhob cyflogaeth ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill rhwng 2001 a 2004 | 45 |
| Tabl 5.7 | % newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a phob cyflogaeth, 2001-2004 | 46 |
| Tabl 5.8 | Canran y gweithlu sydd wedi'u cyflogi yn y sector cyhoeddus yn ardal Amcan 1, sef gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a'r tu allan iddi (rhanbarthau NUTS 2). Ffigurau 2001 a 2004 | 46 |
| Tabl 5.9 | Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, newidiadau absoliwt a newidiadau canran, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf) | 47 |
| Tabl 5.10 | Cyflogaeth yn y sector preifat, newidiadau absoliwt a newidiadau canran, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf) | 48 |
| Tabl 5.11 | % newidiadau mewn cyflogaeth, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004 | 48 |
| Tabl 5.12 | Newidiadau ym mhob cyflogaeth a chyflogaeth yn y sector cyhoeddus a % newid y cyfrifir amdano gan y sector cyhoeddus, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf) | 49 |
| Tabl 5.13 | Arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth mewn ardaloedd awdurdodau unedol 'gwledig' yn 2001 a 2004 a % y newid 2001-4, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf) | 50 |
| Tabl 5.14 | Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat o fewn y gweithlu llafur benywaidd ar draws cefn gwlad Cymru, 2001-2004 | 52 |
| Tabl 5.15 | Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd ar draws cefn gwlad Cymru, 2001-2004 | 52 |
| Tabl 5.16 | Dosbarthiad y gweithlu llafur gwrywaidd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, 2001 a 2004 | 53 |
| Tabl 5.17 | Dosbarthiad y gweithlu llafur benywaidd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, cefn gwlad Cymru, 2001 a 2004 | 53 |
| Tabl 5.18 | Newidiadau absoliwt a newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill, 2001-2004 | 54 |
| Tabl 5.19 | Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector preifat o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill, 2001-2004 | 55 |
| Tabl 5.20 | Newid yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth y gweithlu gwrywaidd, 2001-2004 | 55 |
| Tabl 5.21 | Newidiadau absoliwt a newidiadau canran ym mhob cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill, 2001 – 2004 | 56 |
| Tabl 5.22 | Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu llafur benywaidd ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill, 2001-2004 | 57 |
| Tabl 5.23 | Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector preifat o fewn y gweithlu llafur benywaidd ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill, 2001-2004 | 58 |
| Tabl 5.24 | Newid yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth ymysg y gweithlu benywaidd, 2001-2004 | 58 |
| Tabl 5.25 | Newidiadau absoliwt a newidiadau canran ym mhob cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur benywaidd ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru | 59 |

| | | |
|---|---|---|
| | Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill, 2001 – 2004 | |
| Tabl 5.26 | Newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus 2001-2004 yn ôl rhyw | 60 |
| Tabl 5.27 | Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf) | 61 |
| Tabl 5.28 | Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector preifat o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf) | 61 |
| Tabl 5.29 | % y newidiadau yn niferoedd y gweithwyr gwrywaidd, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004 | 62 |
| Tabl 5.30 | Newidiadau ym mhob cyflogaeth ac mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu gwrywaidd a % newid y mae'r sector cyhoeddus yn cyfrif amdani, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf) | 63 |
| Tabl 5.31 | Arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd yn ardaloedd awdurdodau unedol 'gwledig' yn 2001 a 2004 a % newid 2001-4, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf) | 63 |
| Tabl 5.32 | Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu llafur benywaidd, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf) | 65 |
| Tabl 5.33 | Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector preifat o fewn y gweithlu llafur benywaidd, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf) | 66 |
| Tabl 5.34 | Newidiadau ym mhob cyflogaeth a chyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu benywaidd a % newid y mae'r sector cyhoeddus yn cyfrif amdani, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf) | 67 |
| Tabl 5.35 | Arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth o fewn y gweithlu benywaidd mewn ardaloedd awdurdodau unedol 'gwledig' yn 2001 a 2004 a % newid 2001-4, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf) | 68 |
| Tabl 5.36 | Newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus 2001-2004 yn ôl rhyw, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig | 69 |
| Tabl 6.1 | Cyflog gros wythnosol ar gyfer swyddi gweithwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn y DU | 70 |
| Tabl 6.2 | Enillion gros wythnosol cyfartalog yng Nghymru, yn ôl man gwaith | 71 |
| Tabl 6.3 | Enillion gros wythnosol cyfartalog yng Nghymru, yn ôl man preswyl | 72 |
| Tabl 7.1 | Cyfran yr holl weithwyr sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus mewn awdurdodau lleol gwledig | 75 |
| Ffigur 7.2 | Map o ardaloedd yr astudiaethau achos (ymatebwyr yn byw yn yr ardaloedd a liwiwyd) | 76 |
| Tabl 7.3 | Canran yr ymatebwyr sy'n gweithio i'r prif gyflogwyr yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru | 79 |
| Tabl 7.4 | Canran gweithlu'r sector cyhoeddus yn ôl categori oedran | 79 |
| Tabl 7.5 | Cydbwysedd rhyw gweithwyr y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru (canrannau) | 80 |
| Tabl 7.6 | Dosbarthiad incwm ymysg gweithwyr y sector cyhoeddus (canran yr ymatebwyr) | 80 |
| Tabl 7.7 | Galwedigaethau dynion a menywod sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus (canrannau) | 81 |
| Tabl 7.8 | Lefel cymhwyster uchaf: cyfanswm ac yn ôl grwp galwedigaeth (canrannau) | 82 |
| Tabl 7.9 | Pa un o'r categorïau canlynol, yn eich barn chi, sy'n disgrifio'ch galwedigaeth orau? (canrannau) | 82 |
| Tabl 7.10 | Pellter o'r man preswyl i'r man gwaith (canrannau) | 83 |
| Tabl 7.11 | Gallu yn y Gymraeg | 83 |

| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 7.12 | Cyfran gweithwyr y sector cyhoeddus yng Ngwynedd, Sir Gaerfyrddin, Conwy a Phowys sy’n siarad Cymraeg | 84 |
| Tabl 7.13 | Canran yr ymatebwyr sy’n defnyddio’r Gymraeg wrth eu gwaith | 84 |
| Ffigur 7.14 | Pwysigrwydd siarad Cymraeg yn y gwaith (canrannau) | 85 |
| Tabl 7.15 | Gallu yn y Gymraeg, yn ôl math o gyflogwr (canrannau) | 85 |
| Tabl 7.16 | Canran yr ymatebwyr sy’n gweithio i bum cyflogwr mawr sy’n ystyried bod y gallu i siarad Cymraeg yn ‘hanfodol’ a ‘ddim yn bwysig o gwbl’ | 86 |
| Tabl 7.17 | Yr amser y mae’r ymatebwyr wedi bod yn gweithio i’w cyflogwr presennol | 86 |
| Tabl 7.18 | Ymatebion i’r cwestiwn a ofynnodd: ‘O’i gymharu â’r rhai sy’n gwneud gwaith tebyg i chi yn y sector preifat, a ydych chi o’r farn bod y materion hyn yn well, tua’r un peth, neu’n waeth fel gweithiwr yn y sector cyhoeddus’ (canrannau) | 87 |


## RHESTR O’R BOCSYS


| | | |
|---|---|---|
| Bocs 2.1 | Diffiniad o’r sector cyhoeddus yn ôl ONS | 19 |
| Bocs 7.1 | Crynodeb o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus ym mhedair ardal yr astudiaethau achos | 77 |

## CRYNODEB O'R ADRODDIAD

Mae'r prosiect hwn yn archwilio arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n archwilio graddfa gyfredol gweithlu'r sector cyhoeddus, nodweddion gweithwyr yn y sector cyhoeddus a phatrymau sy'n newid gydag amser yng nghefn gwlad Cymru.

### Ffynonellau data

Mae'r adroddiad yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau sy'n cynnig data ar gyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Mae mwyafrif y data eilaidd a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn yn deillio o'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol. Ymysg y ffynonellau eraill mae'r Arolwg Chwarterol o Weithwyr y Sector Cyhoeddus, y Cyfrifiad, yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Arolwg Cyflogaeth Llywodraeth Leol ac ystadegau ar gyflogaeth yn y sector cyhoeddus gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn ogystal, mae data ar gyflogaeth yn y sector cyhoeddus ar gael o Arolwg Byw a Gweithio yng Nghefn Gwlad Cymru, a gynhaliwyd yn 2004 gan Arsyllfa Wledig Cymru. Mae'r dulliau casglu data a'r diffiniadau o gefn gwlad Cymru a'r sector cyhoeddus yn amrywio rhwng y ffynonellau data.

Er mwyn cael trosolwg manylach o nodweddion gweithwyr y sector cyhoeddus sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru, rhoddwyd holiadur i gant o weithwyr yn y sector cyhoeddus. Nodau'r ymchwil empirig hon oedd hwyluso cymariaethau rhwng gwahanol sectorau o fewn y sector cyhoeddus ac ennill dealltwriaeth well o farn gweithwyr y sector cyhoeddus am y manteision a'r anfanteision o fod yn gweithio yn y sector cyhoeddus.

### Nodweddion gweithlu'r sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru

Mae'r sector cyhoeddus yn gyflogwr mawr yng nghefn gwlad Cymru, fel y mae ledled y wlad. Mae dau ddeg wyth y cant o'r gweithlu yng nghefn gwlad Cymru wedi'u cyflogi gan sefydliad yn y sector cyhoeddus. Mae cryn amrywiad daearyddol ym maint gweithlu'r sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n cyfrif am ymron i un rhan o dair o'r gweithlu yng Ngwynedd a Sir Gaerfyrddin, er bod llai na chwarter o'r boblogaeth sy'n gweithio yn Sir Benfro, Powys, Conwy a Sir Fynwy wedi'u cyflogi yn y sector cyhoeddus.

<u>Rhyw</u>
Mae'r data'n awgrymu bod y sector cyhoeddus yn cyfrif am lai nag un rhan o bump o gyflogaeth dynion, ond dros un rhan o dair o gyflogaeth menywod yng nghefn gwlad Cymru. O ystyried y tueddfryd llai o fenywod mewn gwaith, mae'r sector cyhoeddus yn llawer mwy arwyddocaol i'r gweithlu llafur benywaidd nag ydyw i'r gweithlu llafur gwrywaidd. Mae menywod yn llawer iawn llai tebygol o fod mewn swyddi uwch: 6% o weithwyr benywaidd sy'n ystyried bod eu gwaith o natur 'uwch' a 31% o natur 'ganolradd'.

<u>Oedran</u>
Mae cyfran uwch o weithwyr rhwng 25 a 59 yn gweithio yn y sector cyhoeddus nag yn y sector preifat. Mae gweithwyr iau, dan 25 oed, yn cyfrif am ddim ond 8% o'r gweithlu yng nghefn gwlad Cymru, o'i gymharu â 17% yn y sector preifat.

Ymddengys ei bod yn fwy tebygol i weithwyr hŷn weithio i adrannau Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol; mae lefelau uwch na'r cyfartaledd o weithwyr ifanc gan yr heddlu.

<u>Cymwysterau</u>
Ar gyfartaledd, mae gan weithwyr y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru gymwysterau uwch na gweithwyr y sector preifat. Nid oes gan dri ar ddeg y cant o weithwyr yn y sector preifat gymwysterau o gwbl, o'i gymharu â dim ond 4% o weithwyr yn y sector cyhoeddus.

<u>Y Gymraeg</u>
Gall dros hanner gweithwyr y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru siarad Cymraeg, o'i gymharu â llai na 40% o'r rhai sy'n gweithio yn y sector preifat. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn fwy na dwywaith mor gyffredin ymysg gweithwyr y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru ag y mae ymysg gweithwyr o'r fath mewn mannau eraill yng Nghymru. O'r rhai sy'n siarad Cymraeg, mae llai na hanner 'gan mwyaf' neu 'weithiau' yn defnyddio'r iaith wrth eu gwaith. Mae amrywiad daearyddol sylweddol yng nghyfraddau gweithwyr y sector cyhoeddus sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith. Yng Ngwynedd, mae dros hanner gweithwyr y sector cyhoeddus yn defnyddio'r Gymraeg fel arfer, o'i gymharu â Phowys, lle mai dim ond 4% o weithwyr y sector cyhoeddus sydd fel arfer yn defnyddio'r Gymraeg yn eu swyddi. Roedd 43% o ymatebwyr yr arolwg o'r farn bod y Gymraeg 'ddim yn bwysig o gwbl' ar gyfer eu gwaith.

<u>Diwydiant a Galwedigaeth</u>
Mae dros bedair rhan o bump o weithwyr y sector cyhoeddus wedi'u cyflogi ym maes addysg, iechyd a gwaith cymdeithasol, a gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn.

Mae data arolwg yn dangos bod 49% o'r ymatebwyr yn gweithio i awdurdod lleol, a 7% arall wedi'u cyflogi gan awdurdod addysg lleol. Mae deunaw y cant o'r ymatebwyr yn weithwyr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Byrddau Iechyd Lleol. Mae ychydig dros un o bob deg o ymatebwyr yn gweithio i adrannau Llywodraeth y DU, megis y DVLA, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Comisiwn Coedwigaeth.

Mae'r sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru wedi'i ddominyddu gan bedwar categori galwedigaeth: 'galwedigaethau gwasanaeth personol', 'gweinyddol ac ysgrifenyddol', 'proffesiynol cysylltiol' a 'galwedigaethau technegol a phroffesiynol'. Mae galwedigaethau ar radd uwch yn fwy cyffredin yn y sector cyhoeddus nag mewn sectorau eraill. Mae pedwar ar hugain y cant o weithlu'r sector cyhoeddus wedi'u cyflogi mewn 'galwedigaethau proffesiynol' o'i gymharu ag 8% yn y sector preifat.

**Newid**

Ar draws y DU, bu cynnydd yn nifer y swyddi yn y sector cyhoeddus rhwng 1998 a 2005. Yn ystod y cyfnod hwn, crëwyd 658,000 yn fwy o swyddi yn y sector cyhoeddus – cynnydd o 11%. Fodd bynnag, mae cyflogaeth yn y sector preifat wedi bod yn cynyddu ar raddfa gyflymach, gan achosi gostyngiad cyffredinol yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i'r farchnad lafur gyffredinol.

Ar draws cefn gwlad Cymru, mae niferoedd y gweithwyr yn y sector cyhoeddus wedi codi 9% rhwng 2001 a 2004, sydd dair gwaith cymaint â'r gyfradd y mae cyflogaeth yn y sector preifat wedi bod yn codi dros yr un cyfnod. Mae twf diweddar mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus wedi bod yn wannach yng nghefn gwlad Cymru nag y bu yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill Cymru.

Mae'r cyfraddau twf yn amrywio ar draws cefn gwlad Cymru. Gwelodd Gwynedd gynnydd o fwy na 25% yng nghyfran y bobl a gyflogir yn y sector cyhoeddus rhwng 2001 a 2004: 4,000 yn fwy o weithwyr. Gwelodd Sir Ddinbych a Phowys hefyd gyfraddau twf uchel a thwf absoliwt. Ni welodd Sir Gaerfyrddin nac Ynys Môn unrhyw dwf yn ystod y cyfnod hwn. Yn Sir Fynwy, gostyngodd nifer y bobl a gyflogir yn y sector cyhoeddus 10% dros y tair blynedd.

Mae'r cynnydd mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fwyaf nodedig o fewn y gweithlu llafur benywaidd. Mae nifer y menywod sy'n weithwyr yn y sector cyhoeddus wedi codi wyth gwaith yn gyflymach na nifer y dynion sy'n gweithio yn y sector hwn. O'r herwydd, mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus wedi dod yn fwy arwyddocaol i'r gweithlu benywaidd.

Mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu bod cryn sefydlogrwydd o fewn gweithlu'r sector cyhoeddus. Mae dros un rhan o dair o'r ymatebwyr yn gweithio i'w sefydliad presennol yn y sector cyhoeddus ers dros ddeng mlynedd. Mae un rhan o dair o weithwyr y sector cyhoeddus dim ond wedi gweithio i'w cyflogwr presennol erioed. Mae gan wyth deg wyth y cant o'r rhai a holwyd gontract parhaol ac mae un rhan o dair o'r ymatebwyr wedi bod â mwy nag un contract gyda'u cyflogwyr presennol.

**Enillion ac amodau**

Mae data ar enillion yn awgrymu y caiff gweithwyr y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru, ar gyfartaledd, eu talu fwy na'r rhai sy'n gweithio yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol yng nghefn gwlad Cymru. Ar ben hynny, mae enillion crynswth cyfartalog yn uwch i weithwyr y sector cyhoeddus sy'n gweithio yng nghefn gwlad Cymru nag i'r rhai sy'n gweithio mewn mannau eraill yng Nghymru. Nid yw'r canfyddiadau hyn yn ystyried y gwahaniaethau mewn swyddi, gwaith a nodweddion gweithwyr mewn gwahanol sectorau a gwahanol leoliadau, ac felly, nid oes modd dod i'r casgliad y caiff gweithwyr yn y sector cyhoeddus eu talu'n uwch na'r rhai sy'n gwneud gwaith tebyg yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol. Mae dominyddiaeth swyddi ar lefelau uwch yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru yn rhannol esbonio'r lefelau cyflog uchel i weithwyr y sector cyhoeddus o'i gymharu â'u cymheiriaid yn y sector preifat.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ynghylch gweithio yn y sector cyhoeddus, o'i gymharu â'u safbwyntiau am gyflogaeth yn y sector preifat. Ystyrir bod gwyliau'n well yn y sector cyhoeddus gan o leiaf bum gwaith cymaint o ymatebwyr ag oedd yn meddwl eu bod yn waeth yn y sector cyhoeddus; roedd 63% o'r rhai a gyfwelwyd o'r farn bod pensiynau'n well, ac roedd dros ddwy ran o dair yn ystyried bod sicrwydd swyddi'n well yn y sector cyhoeddus. Roedd dros ddwywaith cymaint o weithwyr y sector cyhoeddus o'r farn bod gweithio'n hyblyg yn well yn y sector cyhoeddus na'r rhai sy'n meddwl ei fod yn waeth.

## ADRAN 1: CYFLWYNIAD

Mae’r prosiect hwn yn ymchwilio i arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru. Mae Cymru gyfan yn dibynnu’n fwy na’r cyfartaledd ar wariant a chyflogaeth y sector cyhoeddus na chyfartaledd y DU. Mae cyfran cefn gwlad Cymru o gyflogaeth y sector cyhoeddus yn debyg i gyfartaledd Cymru gyfan. Fodd bynnag, ystyrir bod y sector cyhoeddus yn arbennig o arwyddocaol yn yr economi wledig, sy’n cynnwys, gan mwyaf, busnesau bychain sydd â lefelau trosiant a chyflogaeth isel.

Mae gwariant cyhoeddus yng Nghymru’n cynrychioli cyfran sylweddol uwch o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) nag mewn mannau eraill yn y DU. Yng Nghymru, 59% o CMC yw’r gwariant cyhoeddus, o’i gymharu â 54% yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, 51% yn yr Alban a 32% yn y de-orllewin (Cyngor Partneriaeth, 15 Hydref 2001). I raddau helaeth, mae’r ffigurau hyn yn ganlyniad gwendid cymharol y sector preifat yn y rhanbarthau hyn. Mae gan Gymru gynrychiolaeth gymharol isel yn sectorau gweithgynhyrchu, cyllid a gwasanaeth busnes, ac mae’n dibynnu llawer mwy ar wasanaethau cyhoeddus.

> *“Yn hanesyddol ac yn ideolegol, mae Cymru wedi bod yn rhwym wrth fodel economaidd y farchnad gymdeithasol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, a atgyfnerthwyd ar yr un pryd gan absenoldeb sector preifat cryf a diwylliant entrepreneuraidd.”* (Cyngor Partneriaeth, 15 Hydref 2001).

Mae arwyddocâd y sector cyhoeddus yng Nghymru yr un mor nodedig. Dim ond 3% o fusnesau sy’n gweithio yng nghefn gwlad Cymru sydd â throsiant o fwy na £1 miliwn, ond mae gan Ynys Môn, yr awdurdod unedol lleiaf, gyllideb refeniw flynyddol o £113 miliwn. Gyda’i gilydd, gwariant refeniw y naw awdurdod lleol gwledig yn 2003 – 2004 oedd £1,523.4 miliwn.

Mae perthynas glòs rhwng gwariant cyhoeddus a chyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Amcangyfrifir, o bob £3 y mae’r Llywodraeth yn ei gwario, y caiff £1 ei gwario’n uniongyrchol ar gyflogi neu dalu staff.[1] Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd yw’r sector diwydiant (yn ôl Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol) sy’n cyfrif am y gyfran fwyaf o gyflogaeth yng nghefn gwlad Cymru: 37% (Arolwg o’r Gweithlu Llafur). Mae lefel uchel o gyflogaeth yn y sectorau hyn yn nodwedd gyffredin mewn ardaloedd yn y DU sydd â lefelau CMC isel.

Yr awdurdodau lleol yw’r cyflogwyr unigol mwyaf yng nghefn gwlad Cymru. Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin, cyflogwr mwyaf Cymru sy’n awdurdod lleol, yn cyflogi 9,220 aelod o staff. Yn 2004, roedd 12% o’r rhai a oedd yn gweithio yng nghefn gwlad Cymru wedi’u cyflogi gan awdurdod lleol. Mae hyn yn cyfrif am 51,920 o swyddi gweithwyr, ac mae ychydig dros hanner ohonynt (54%) yn swyddi amser llawn. Mae absenoldeb llawer o fusnesau mawr yn y sector preifat yn pwysleisio arwyddocâd llywodraeth leol fel cyflogwr mawr: dim ond 3% o fusnesau yng nghefn gwlad Cymru sydd â mwy na 50 o weithwyr.

---

[1] CIPD Perspectives: public services John Philpott Mawrth 2004

Mewn adolygiad o ddatblygiad rhanbarthol yng Nghymru, mae Lovering (1999) yn nodi bod gweithgareddau a ddominyddir gan wariant cyhoeddus yn cyfrif am gyfran uwch o CMC a chyflogaeth yng Nghymru yng nghanol yr 1990au nag mewn mannau eraill yn y DU, ac eithrio Gogledd Iwerddon. Aiff ymlaen i nodi bod cyflogaeth y sector cyhoeddus wedi gwneud cyfraniad mwy i'r farchnad lafur ac i'r economi na sectorau eraill yr honnir eu bod yn gyrru adfywiad yn economi Cymru:

> *"Rhwng 1981 ac 1995, creodd Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, net, rhyw 50,000 o swyddi newydd yng Nghymru. Mae hyn gryn dipyn yn fwy na dwywaith chyfraniad cyflogaeth crynswth FDI* [Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor] *yn ystod yr un cyfnod ac, mae'n siwr, dros ddwywaith y cyfraniad net. Mae'n ddim llai na 22 gwaith yn fwy na chyfraniad net y diwydiant gweithgynhyrchu, er gwaethaf 'adfywiad' y diwydiant hwnnw. Byddai'n rhaid i unrhyw ymgais ddiduedd i nodi symbylwyr penodol economi Cymru yn yr 1990au ac i dynnu sylw at ddylanwadau allweddol ar y dyfodol agos i gyflogaeth a safonau byw yng Nghymru roi lle canolog i'r etifeddiaeth barhaus hon o'r cyfaddawd ar ôl y rhyfel a'r wladwriaeth les Keynesaidd." (tud 382)*

### 1.1 Cydnabod arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus

Yn y Deyrnas Unedig, mae newid polisi penodol tuag at ail-leoli a dosbarthu swyddi yn y gwasanaeth sifil a swyddogaethau'r llywodraeth. Ar y cyfan, ysgogir achosion o'r fath o ail-leoli gan alwadau i leihau costau gweinyddu a chyfrannu at ddatblygiad economaidd rhanbarthol mwy cytbwys. Mae Brooks (2004) yn nodi y cyfrifir am ryw 50% o gostau refeniw yn y sector cyhoeddus gan dâl a chyflogau. Ar y cyfan, mae gweithwyr y sector cyhoeddus yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr yn hawlio cyflogau uwch o ganlyniad i bwysoli rhanbarthol. Rhagfynegir y bydd ail-leoliadau oddi wrth yr ardaloedd 'craidd' hyn yn arwain at arbed llawer o arian o gostau cyflogi, a fydd yn arwain at fwy o effeithlonrwydd yn y sector cyhoeddus.

Mae adroddiad a luniwyd ar ran Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol Lloegr yn hyrwyddo ail-leoli o fewn y sector cyhoeddus, ar sail effeithlonrwydd a chyfartaledd.

> "*Mae gwariant y Llywodraeth ar weinyddu a chyflwyno gwasanaethau yn weithgaredd economaidd sylweddol y gellid ei ddefnyddio'n fwy strategol nag y caiff ar hyn o bryd …Mae ailfeddwl daearyddiaeth y sector cyhoeddus, gan gynnwys ail-leoli a mathau eraill o ailstrwythuro, yn creu'r cyfle i gyflawni twf mwy cytbwys a chynaliadwy ar draws y wlad yn gyffredinol, gan leihau costau rhai gwasanaethau a hefyd gwella effeithiolrwydd gwasanaethau cyhoeddus*." (Marshall *et al*., 2004)

O fewn Cymru, bwriedir ail-leoli swyddogaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru o Gaerdydd i Aberystwyth a Chyffordd Llandudno yn 2008. Bwriedir y bydd cryfhau'r ddwy ganolfan ranbarthol hyn yn arwain at leoli dros 1,000 o swyddi yn y sector cyhoeddus yn y ddwy ardal wledig hyn. Rhagdybir y bydd ail-leoli swyddi o Gaerdydd yn cynnwys bron i draean o'r swyddi, a bydd goblygiadau cryf i ddynameg gymdeithasol ac economaidd y trefi hyn a'u bröydd gwledig.

## 1.2 Twf rhanbarthol

Yn ogystal ag effeithlonrwydd economaidd, mae dyletswydd ar y sector cyhoeddus i ystyried materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, costau adnoddau cenedlaethol a manteision ehangach i'r cyhoedd yn ei benderfyniadau (Jefferson a Trainor, 1996). Mae Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ystyried y bydd ail-leoli'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn arbennig o fuddiol wrth greu dosbarthiad mwy cyfartal o gyflogaeth y sector cyhoeddus ar draws Cymru a gwella cysylltiadau canolog-lleol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth i ddatganoli ranbartholi fwyfwy.

> "*Bydd ail-leoli cymysgedd o swyddogaethau gweithredu a pholisi ar y raddfa hon yn rhoi hwb mawr i economïau lleol canolbarth a gogledd Cymru. Mae'n gam pwysig yn ein cynllun i ledaenu manteision cyflogaeth yn y Cynulliad yn fwy cytbwys ar draws Cymru ac i ddod â llunio a chyflwyno polisïau Llywodraeth y Cynulliad yn agosach at y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu …Gyda'i gilydd, bydd rhyw 750 o swyddi'n symud o Gaerdydd i ardaloedd Amcan Un o fewn y 3 blynedd nesaf. Bydd y swyddfeydd newydd yn sicrhau bod gan Lywodraeth y Cynulliad bresenoldeb sylweddol yng nghanolbarth a gogledd Cymru. Maent yn hanfodol i'n hymgais i ddod â'r Cynulliad yn agosach at y bobl rydym yn eu gwasanaethu a bydd yn lledaenu manteision economaidd cyflogaeth yn y Cynulliad ar draws Cymru.*" (Sue Essex, 24/02/05)

## 1.3 Goblygiadau lefelau cyflogaeth uchel yn y sector cyhoeddus ar ranbarth

Mae dogfennau polisi a dadansoddiadau academaidd yn awgrymu bod gan lefelau uchel a chynyddol o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn rhanbarth oblygiadau cadarnhaol a negyddol ar ddatblygiad ardal. Yn aml, ystyrir bod lleoliad strategol sefydliadau yn y sector cyhoeddus mewn ardaloedd difreintiedig yn fath o bolisi rhanbarthol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall mewnlifiad o weithwyr yn y sector cyhoeddus gael effeithiau negyddol ar y farchnad lafur leol. Mae ardaloedd llai, mwy gwledig yn debygol o weld effeithiau mwy o ganlyniad i ail-leoliadau o'r fath.

Mae Henley a Thomas (2001) yn gwahaniaethu rhwng effeithiau 'tyrru i mewn' a 'thyrru allan' a ddaw i'r amlwg yn sgil presenoldeb cryf gan y sector cyhoeddus. Mae <u>tyrru i mewn</u> yn ymwneud â manteision cryf i sector cyhoeddus cryf, yn bennaf o ganlyniad i'r effaith lluosol; mae <u>tyrru allan</u> yn ystyried disodli swyddi sy'n bodoli mewn ardal o ganlyniad i fwy o gyflogaeth gan y sector cyhoeddus a lefelau cyflogau uwch o fewn yr economi.

Dylanwedir ar raddau'r effaith lluosol gan y mathau o swyddi sy'n gysylltiedig â gweithgareddau ail-leoli, nifer y swyddi a recriwtir yn lleol a strwythur y farchnad lafur. Mae potensial arwyddocaol gan y sector cyhoeddus i greu gweithgareddau cefnogol ac ategol yn y sector preifat mewn rhanbarth, fel mentrau 'deillio' neu wasanaethau busnes. Yn aml, caiff gweithgareddau o'r fath, sy'n cyflogi llawer o weithwyr medrus, eu gwerthfawrogi'n benodol mewn lleoliadau difreintiedig neu ymylol sy'n dueddol o fod â lefelau isel o wasanaethau gwerth uchel. (Marshall *et al.*, 2004)

Mae Marshall et al. (2004) yn nodi goblygiadau pellach – rhai cadarnhaol a negyddol – i ardaloedd sydd â chyfradd uchel o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Mynegir y rhain yn y tabl isod.

Tabl 1.1: Manteision ac anfanteision lefelau cyflogaeth uchel yn y sector cyhoeddus

| **Effeithiau negyddol posibl** | **Effeithiau cadarnhaol posibl** |
|---|---|
| Prisiau eiddo uwch (er mae'n bosibl y byddai perchnogion tai presennol yn ystyried bod hyn yn gadarnhaol) | Gwella sylfaen sgiliau a gwybodaeth rhanbarthau. Potential am gwmnïau deillio |
| Prisiau llafur uwch | Gwella'r potential am arbenigedd atebol o fewn y rhanbarth |
| Gall amsugno'r sector preifat a bod â goblygiadau i fuddsoddiad a mentergarwch | Effeithiau caffael |
| Yr economi ranbarthol yn orddibynnol ar y sector cyhoeddus | Cynnig cyfleoedd i raddedigion |
| Goblygiadau posibl i gydlyniad cymdeithasol a diwylliannol cymunedau | Symbylu'r 'economi greadigol' |

## 1.4 Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus mewn dogfennau polisi

Yn ei adolygiad o ranbartholi yng Nghymru, mae Lovering (1999) yn awgrymu bod arwyddocâd y sector cyhoeddus fel cyflogwr a gwariwr mawr ar draws Cymru wedi cael sylw cymharol fach mewn dogfennau polisi a llenyddiaeth academaidd. Mae'r adran ganlynol yn archwilio saith dogfen bolisi a rhaglen allweddol sy'n effeithio ar gefn gwlad Cymru ac yn ystyried y graddau y maent yn trafod rôl y sector cyhoeddus ym marchnad lafur cefn gwlad.

Mae **Cymru: Gwlad Well**, sef agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd yn 2003, yn cyfeirio at amodau cyflogaeth cyffredinol heb gyfeirio o gwbl at arwyddocâd y sector cyhoeddus fel cyflogwr yng Nghymru ar hyn o bryd nac yn y dyfodol. Mae'r strategaeth yn ymwneud yn benodol â thwf gweithgareddau sydd â gwerth ychwanegol uchel. Yn unol â hynny, mae *Cymru: Gwlad Well* yn amlinellu ei weledigaeth i wella datblygiad *"ym meysydd diwydiannau awyrofod a cherbydau modur, telathrebu a TG creadigol, ynni adnewyddadwy a thwristiaeth."*

Mae **Cymru'n Ennill** yn amlinellu'r strategaeth genedlaethol ar gyfer datblygu'r economi yng Nghymru. Mae'n ceisio cynnig fframwaith i wella economi Cymru er mwyn cyrraedd ei nodau, sef gwell ffyniant, cydraddoldeb a chynaliadwyedd. Mae'r strategaeth yn nodi effaith y sector cyhoeddus ar economi Cymru, fel sector sy'n prynu ac yn defnyddio nwyddau a gwasanaethau a thrwy ddarparu cyfradd sylweddol o gyflogaeth mewn rhai cymunedau. Fodd bynnag, sail y strategaeth yw annog creu busnesau llwyddiannus ac arloesol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys adran sy'n trafod yr heriau ac yn cynnig strategaeth i gefnogi cefn gwlad Cymru. Mae'r adran hon yn debyg i weddill yr adroddiad, yn galw am fwy o fusnesau cynhyrchiol sy'n ychwanegu gwerth ac yn canolbwyntio ar dwf mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, nid yw'n cyfeirio at y lefelau cyflogaeth

uchel yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru nac at berygl gorddibyniaeth ar y sector cyhoeddus:

> *"Bydd y buddsoddiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud mewn gwasanaethau cyhoeddus yn creu ac yn cynnal swyddi ar draws Cymru, ond mae angen dirfawr i ddatblygu cyfleoedd newydd am gyflogaeth a busnes yng nghefn gwlad Cymru."*

Mae'r Dadansoddiad Economaidd ar gyfer *Cymru'n Ennill* yn ystyried y gellir priodoli perfformiad gwael economi Cymru, o'i chymharu â rhanbarthau eraill yn y DU, i raddau helaeth, i dangynrychiolaeth gweithgareddau twf mawr neu sy'n ychwanegu gwerth gorau'n fawr. Yng Nghymru mae cyfradd cynhyrchiant yn debyg i fannau eraill yn y DU, ond yn ei strwythur diwydiannol mae mwy o ddibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus a llai o gynrychiolaeth gan wasanaethau ariannol a gwasanaethau busnes. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad y bydd cynhyrchiant uwch, mwy na thebyg, yn dod yn sgil newid yn strwythur diwydiannol economi Cymru.

**Cymru: Economi yn Ffynnu** yw olynydd *Cymru'n Ennill*. Mae dogfen ymgynghori *Cymru: Economi yn Ffynnu* yn 2005 yn cyfeirio'n fwy at bwysigrwydd y sector cyhoeddus o fewn y farchnad lafur:

> *"Yn ogystal â chefnogi sector preifat dynamig a chynhyrchiol sy'n creu gwerth, mae'n hanfodol i'r sector cyhoeddus, fel cyflogwr arwyddocaol, chwarae ei ran."*
>
> *"Mae'r sector cyhoeddus yn gyflogwr pwysig ei hun, ac felly, mae gwaith gan Lywodraeth y Cynulliad i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sector cyhoeddus yn hanfodol."*

Yn hytrach na mabwysiadu gwahaniaeth deuol rhwng cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, mae'r adroddiad yn nodi bod galwedigaeth yn dylanwadu'n fwy ar lefelau enillion nag y mae sector cyflogaeth: *"gallai strwythur galwedigaethol fod cyn bwysiced, os nad yn bwysicach o ran enillion na strwythur y sector."*

Mae ffigur 3.8 yn yr adroddiad yn dangos nifer y swyddi cyflogai ym mhob sector rhwng 1948 a 2004, gan ddefnyddio dosbarthiadau sector safonol. Yn anffodus, caiff 'gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd' eu rhoi yn yr un grwp â 'gwasanaethau eraill'. Mae hyn yn creu argraff gamarweiniol o arwyddocâd y sectorau hyn sy'n cyfrif am fwyafrif y swyddi yn y sector cyhoeddus. Roedd gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd yn cyfrif am 33% o gyflogaeth yng Nghymru yn 2003, tra bo 'gwasanaethau eraill' yn cyfrif am ddim ond 5%.

Mae **Cynllun Gofodol Cymru** yn amlinellu amcanion a chamau gweithredu i 'hyrwyddo economi gynaliadwy' ar draws Cymru. Mae'r amcanion sy'n berthnasol i'r sector cyhoeddus yn ymwneud yn bennaf â dosbarthu rhaglenni ac asiantau cyflwyno gwasanaethau ledled Cymru.

Nid yw'r Cynllun Gofodol yn cyfeirio rhyw lawer at rôl cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n amlinellu deg amcan a deuddeg cam gweithredu sy'n ceisio mynd i'r afael â hyrwyddo economi gynaliadwy, ac nid oes yr un ohonynt

yn cyfeirio at y sector cyhoeddus fel sector allweddol a datblygol yn y farchnad lafur yng Nghymru nac yng nghefn gwlad Cymru. Ar ben hynny, mae'n mynegi'r angen i ddatblygu buddsoddiad gan y sector preifat. Mae un map yn nodi bod gan awdurdodau lleol Gwynedd, Conwy, Ceredigion, Abertawe a Bro Morgannwg gyfraddau uchel o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus, ond ni chrybwyllir hyn yn y testun.

Mae **Dogfen Raglennu Sengl** Amcan 1 yn llawer mwy penodol ynghylch arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae'r ddogfen hon yn nodi bod gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd yn bwysicach yn y rhanbarth Amcan 1 nag ydyw yn y DU gyfan, a'i bod yn arbennig o arwyddocaol mewn ardaloedd gwledig: gyda'r sector yn cyfrif am 37% o gyflogaeth yng Ngwynedd a 40% yng Ngheredigion. Mae'n mynd ymlaen i nodi'r gyfradd uchel o fenywod sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus.

Nodir yn y Ddogfen Raglennu Sengl bod y lefelau uchel o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn y rhanbarth yn dylanwadu'n negyddol ar lefelau mentergarwch a lefelau buddsoddiad y sector preifat. Mae dwysedd busnes arbennig o isel yn rhanbarth Amcan 1, ac yng Nghymru mae cyfradd geni SMEau isaf y DU. Mae'r ddogfen raglennu'n priodoli ffactorau o'r fath yn benodol i gryfder y sector cyhoeddus:

> *"Mae'r prif resymau dros ddiwylliant mentro isel yn y rhanbarth yn rhannol seiliedig ar y cyfleoedd blaenorol am gyflogaeth ar raddfa eang a gynigiwyd gan ddiwydiant trwm a'r sector cyhoeddus. I greu rhanbarth mwy mentergar, mae'n rhaid datblygu diwylliant mentro cryfach, gyda system gefnogi sy'n annog gweithgarwch mentergar ac yn chwalu rhwystrau i greu busnesau newydd."*

Mater arall a ystyrir yn y DRS yw effaith cau yn y gwasanaeth cyhoeddus ar y rhanbarth. Teimlir y cafodd hyn effaith negyddol ar sawl cymuned yng Nghymru, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd gwledig.

Dogfen anstatudol yw **Cymru Wledig – Datganiad gan y Bartneriaeth Wledig**, a luniwyd gan Bartneriaeth Wledig Cymru yn 1999. Mae'n cydnabod yn benodol arwyddocâd y sector cyhoeddus fel cyflogwr mawr yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r adroddiad yn nodi 'materion allweddol' o dan amryw benawdau. Y mater cyntaf a nodwyd o dan gyflogaeth yw:

> *"Dibyniaeth drom ar gyflogaeth mewn nifer fechan o sectorau economaidd fel amaethyddiaeth, twristiaeth a'r sector cyhoeddus. Cyflogaeth yn cronni yn y sectorau hyn, gan wthio lefelau cyflog o dan y cyfartaledd cenedlaethol ac, yn ei dro, yn llethu'r galw am wasanaethau, ac felly lefelau cyflogaeth mewn sectorau eraill."*

Mae'n ddiddorol y crybwyllir y tri sector hyn fel rhai sydd o arwyddocâd penodol yng nghefn gwlad Cymru. A dweud y gwir, fe'u rhestrir am yn ôl o ran eu cyfran o'r farchnad lafur. Yn 1999, y flwyddyn yr ysgrifennwyd y datganiad, roedd amaeth yn cyfrif am 4.2% o gyflogaeth, twristiaeth am 10.1% a gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd am 21.3% o'r swyddi yng nghefn gwlad Cymru.

Awgrymir bod i'r tri sector hwn nodweddion tebyg o ran eu lefelau cyflog. Fodd bynnag, mae data o Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2005 (ABOE) yn datgelu mai £17,002 yw'r cyflog cymedr yn y DU yn y sector amaethyddiaeth, hela a choedwigaeth yn 2005, lle bo cyflogau cyfartalog mewn gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn yn £24,910, mewn addysg yn £19,795 ac i weithwyr iechyd a chymdeithasol yn £19,224[2]. Nid yw'r ystadegau hyn ar gael ar lefel cefn gwlad Cymru, ond er hynny, maent yn awgrymu bod gwahaniaeth arwyddocaol rhwng lefelau cyflog yn y sectorau hyn. O gymhwyso'r rhesymeg hon, byddai amlygrwydd gweithwyr yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru, felly, yn cael effaith gadarnhaol ar wariant a chyflogaeth mewn sectorau eraill, sef gwrthwyneb y patrwm a awgrymwyd yn y dyfyniad uchod.

Mae **Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000-2006** yn ceisio cynnig fframwaith ar gyfer datblygu cefn gwlad Cymru. Mae'n ymateb i Reoliad Datblygu Gwledig yr UE, sy'n ceisio cynnig dull mwy integredig a chynaliadwy o reoli ardaloedd gwledig Ewrop. Mae'r Cynllun yn rhoi trosolwg o safle economaidd cefn gwlad Cymru. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu lefel isel y CMC y pen yng nghefn gwlad Cymru, o'i gymharu â'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan. Gellir priodoli'r anghysondeb yn bennaf i gyfraddau gweithgarwch a chynhyrchiant is mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, pwysleisir nad yw cynhyrchiant yn is yng nghefn gwlad Cymru na mewn mannau eraill yng Nghymru ar gyfer yr un math o swydd, ond y caiff strwythur cyflogaeth cefn gwlad Cymru ei ddominyddu gan ddiwydiannau sydd â lefelau cynhyrchiant is, sef gweinyddiaeth gyhoeddus, iechyd ac addysg, a dosbarthu, gwestai ac arlwyo. Crybwyllir yn benodol gyfraniad mawr y gwasanaethau cyhoeddus (gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd) i farchnad lafur cefn gwlad ac, yn benodol, y ddibyniaeth fawr ar y sector hwn yn Sir Gaerfyrddin (47% o'r holl swyddi), Sir Ddinbych (43%) a Cheredigion (41%).

Mae'r crynodebau uchod yn awgrymu y cydnabyddir i ryw raddau rôl cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn economi wledig Cymru. Fodd bynnag, hyd yma, ni fu unrhyw ddadansoddiad manwl o raddfa a chwmpas cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r prosiect hwn yn archwilio dosbarthiad cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, nodweddion gweithlu'r sector cyhoeddus a natur swyddi yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru. Cynigir cymariaethau â'r sefyllfa ledled Cymru, yn ogystal â'r sefyllfa mewn ardaloedd trefol ac yn y cymoedd.

## 1.5 Strwythur yr adroddiad

Rhennir gweddill yr adroddiad hwn yn saith adran. Mae'r adran nesaf yn amlinellu ffynonellau'r data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn a'r heriau methodolegol a wynebwyd. Mae adran 3 yn ymchwilio i arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r bedwaredd adran yn trafod nodweddion gweithlu'r sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru. Trafodir newidiadau yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus gydag amser yn adran pump. Mae adran 6 yn ystyried enillion yn y sector cyhoeddus. Mae adran 7 yn amlinellu methodoleg a chanlyniadau'r ymchwil empirig a gynhaliwyd i gael trosolwg manylach o nodweddion gweithwyr y sector cyhoeddus sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru.

[2] Nid oes data ar gael ar gyfer twristiaeth

## ADRAN 2: CASGLU DATA

> *"Mae'r rhan fwyaf o wledydd yn cynhyrchu amcangyfrifon ansawdd cymharol wael o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus a gesglir o amrywiaeth o ffynonellau."* (Hicks et al., 2005)

### 2.1 Diffinio cyflogaeth yn y sector cyhoeddus

At ddibenion yr adroddiad hwn, ac yn unol â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Chyfrifon Cenedlaethol y DU, mae 'cyflogaeth yn y sector cyhoeddus' yn cyfeirio at bob cyflogaeth a ddarperir yn uniongyrchol gan gyrff cyhoeddus. Gall gweithwyr fod yn barhaol, ar gontract tymor penodol neu gellir eu cyflogi'n achlysurol. Nid yw gweithwyr y sector cyhoeddus yn cynnwys pobl hunangyflogedig, gweithwyr contract na gweithwyr asiantaeth sy'n cyflwyno nwyddau neu wasanaethau i'r cyhoedd ar ran cyrff cyhoeddus ond na delir yn uniongyrchol gan gyrff cyhoeddus.

Mae cyrff cyhoeddus yn cynnwys adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth ganolog, cyrff cyhoeddus anadrannol, llywodraeth leol a chorfforaethau cyhoeddus.

Mae'r <u>llywodraeth ganolog</u> yn cynnwys pob adran weinyddol yn y llywodraeth, asiantaethau eraill y llywodraeth ganolog (gan gynnwys Lluoedd EM a'r GIG) a chyrff cyhoeddus anadrannol. Mae Cynulliadau Cenedlaethol datganoledig yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn rhan o'r llywodraeth ganolog, fel y mae Awdurdodau Iechyd Rhanbarthol.

Mae <u>llywodraeth leol yn cynnwys</u> unrhyw uned o'r llywodraeth sydd â chylch gorchwyl lleol. Nid yw'n cynnwys swyddfeydd lleol nac asiantaethau'r llywodraeth ganolog na chorfforaethau cyhoeddus, p'un a gânt eu cyllido'n rhannol gan awdurdod lleol ai peidio. Yng Nghymru, ystyrir fel arfer bod hyn yn cynnwys Awdurdodau Unedol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau'r Heddlu a Thân. Caiff sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach eu categoreiddio fel sefydliadau dielw sy'n gwasanaethu cartrefi, ac felly cânt eu **heithrio** o'r sector cyhoeddus.

Mae <u>corfforaethau cyhoeddus</u> yn gwmnïau neu'n "lledgorfforaethau" a reolir gan y llywodraeth ond y daw ychydig o'u hincwm o werthu nwyddau neu wasanaethau i mewn i'r farchnad.

Ni ddylid drysu cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru gyda chyflogaeth gan 'Sector Cyhoeddus Cymru' yng nghefn gwlad Cymru. Yn ôl adolygiad diweddar o gaffael ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru[3], mae Sector Cyhoeddus Cymru'n cynnwys *"y cyrff hynny sy'n cael eu holl gyllid, neu gyfran sylweddol ohono, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru"*, gan gynnwys Llywodraeth Leol yng Nghymru, y GIG yng Nghymru, Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, Colegau Addysg Bellach yng Nghymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNCau). Nid

---

[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001) *Gwell Gwerth Cymru: Adolygiad o Gaffaeliad yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru*

yw cyflogaeth gan sector cyhoeddus Cymru'n cynnwys sawl sefydliad yn y sector cyhoeddus sy'n cyfrannu'n sylweddol at sylfaen cyflogaeth yng nghefn gwlad.

**Bocs 2.1: Diffiniad o'r sector cyhoeddus, yn ôl ONS (Hicks *et al*., 2005)**

**Llywodraeth ganolog** – yn cynnwys pob adran weinyddol yn y llywodraeth ac asiantaethau canolog eraill a chyrff cyhoeddus anadrannol.

**Llywodraeth leol** – pob un o unedau'r llywodraeth sydd â chylch gorchwyl lleol. Yn cynnwys llysoedd ynadon a heddluoedd. Mae AALlau yn rhan o lywodraeth leol, yn ogystal ag ysgolion siroedd ac ysgolion a gynhelir drwy grant.

**Corfforaethau cyhoeddus** – sefydliadau sy'n gweithredu fel cwmnïau ond a reolir gan y llywodraeth (lledgorfforaethau). Er enghraifft, y Post Brenhinol, y BBC, S4C, Awdurdod Hedfan Sifil, Asiantaeth Safonau Gyrru, y Comisiwn Archwilio, Dyfrffyrdd Prydain a British Nuclear Fuels ccc.

## 2.2 Heriau mesur cyflogaeth yn y sector cyhoeddus

Mae yna heriau sylweddol wrth fesur cyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Yn bennaf, mae'r rhain yn ymwneud â diffiniadau, graddfa a dulliau casglu data:

- Nid oes unrhyw ddiffiniad cyson o'r sector cyhoeddus a ddefnyddir gan wahanol arolygon cyflogaeth.

- Mae rhai cyfrifiadau o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn cyfeirio at nifer y bobl; mae eraill yn cyfeirio at nifer y swyddi.

- Mae'r dulliau casglu data yn amrywio. Cesglir rhai ffynonellau'n uniongyrchol o sefydliadau yn y sector cyhoeddus (gan ddefnyddio data neu arolygon gweinyddol); cesglir eraill o gartrefi. Mae'r data'n amrywio yn ôl y dull o'i gasglu.

- Mae gwahanol arolygon yn ymwneud â gwahanol gyfnodau amser, a allai arwain at anghysonderau wrth ddarlunio patrymau presennol a hanesyddol.

- Mae'r graddfeydd daearyddol y'u defnyddir i gasglu data ac sydd ar gael yn anghyson. Fel arfer, mae data cartrefi'n ymwneud â'r man preswyl; fel arfer mae data sefydliadol yn cyfeirio at fan cyflogaeth.

## 2.3 Diffinio cefn gwlad Cymru

Mae mwyafrif y data a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon ar gael ar raddfa awdurdodau lleol ac fe'i crynhowyd er mwyn cyflwyno ystadegau ar gyfer cefn gwlad Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n diffinio cefn gwlad Cymru fel y naw awdurdod 'cwbl' wledig, sef Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Sir Fynwy, Powys, Ceredigion, Gwynedd, Sir Ddinbych, Conwy a Sir Fôn, yn ogystal â'r tri awdurdod sydd ag ardaloedd gwledig o'u mewn: Bro Morgannwg, Wrecsam a Sir y Fflint. Nid yw'r rhan fwyaf o ffynonellau data'n galluogi darnio'r data o fewn awdurdodau ac felly, o

fewn yr adroddiad hwn, oni nodir yn wahanol, diffinnir cefn gwlad Cymru fel y naw awdurdod cwbl wledig. Gwneir cymariaethau'n aml rhwng cefn gwlad Cymru ac ardaloedd eraill, fel Cymru, Cymru anwledig ac awdurdodau'r 'Cymoedd', awdurdodau 'trefol' ac awdurdodau 'eraill'. Ymhlith awdurdodau'r Cymoedd mae Castell-nedd Port Talbot, Caerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, Torfaen, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Mae'r awdurdodau trefol yn cynnwys Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd, a'r awdurdodau eraill yw'r awdurdodau 'cymysg' a nodir uchod, sef Bro Morgannwg, Wrecsam a Sir y Fflint.

### 2.4 Ffynonellau data

Ers mis Mawrth 2005, mae ONS wedi llunio bwletin bob chwarter ynghylch patrymau a thueddiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Mae'r **Arolwg Chwarterol o Weithwyr y Sector Cyhoeddus** yn gwahaniaethu rhwng pum categori cyflogaeth yn y llywodraeth – llywodraeth ganolog, llywodraeth leol, corfforaethau cyhoeddus, cyfanswm cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a chyfanswm y gweision sifil. Mae hefyd yn cyflwyno cyflogaeth yn ôl diwydiant, gan ddefnyddio Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol yr ONS. Mae'r bwletin chwarterol yn cynnig data ar newid yn niferoedd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar raddfa genedlaethol y DU, ac felly ni ellir ei ddefnyddio i ddadansoddi cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru.

Nod **Cyfrifiad y DU** yw casglu data am bob cartref a phob person yn y DU. Mae data o gyfrifiad 2001 ar gael ar amrywiaeth o raddfeydd gweinyddol a swyddogaethol, gan gynnwys wardiau, trefi, awdurdodau lleol ac etholaethau. Roedd gan Gyfrifiad 2001 adran helaeth ar gyflogaeth, a oedd yn ymdrin â: chymwysterau, hunangyflogaeth, diweithdra, maint cyflogwr, diwydiant cyflogaeth, man gweithio, galwedigaeth, ffordd o deithio i'r gwaith, a'r oriau a weithir. Gofynnir y rhain ar gyfer pob person yn y cartref. Nid oes unrhyw gwestiwn sy'n ymdrin yn benodol ag a yw'r rhai sydd mewn gwaith yn gweithio yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat, er bod cwestiwn yn gofyn i ymatebwyr enwi'r sefydliad roeddent yn gweithio iddo.

Mae mwyafrif y canlyniadau a broseswyd o'r Cyfrifiad yn cyfeirio at **ddiwydiant y gyflogaeth**, yn hytrach nag at y sector. Defnyddir y Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (DDS) yn aml i gategoreiddio gweithgareddau cyflogaeth yn y DU. Mae'n rhannu gweithgareddau'n 17 diwydiant, ac fe'i defnyddir yn aml gyda chanlyniadau'r Cyfrifiad ac arolygon o farchnadoedd llafur lleol. Yn y dosbarthiad hwn, defnyddir tair adran yn aml i gyfrif am y sector cyhoeddus:

- Adran L: gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol
- Adran M: addysg
- Adran N: iechyd a gwaith cymdeithasol

Nid yw'r system hon yn gwahaniaethu rhwng gweithgareddau ar sail perchnogaeth neu statws cyfreithiol sefydliad, ond mae'n seiliedig ar nodweddion gweithgareddau. Mae meini prawf gweithgareddau yn adrannau 'addysg' ac 'iechyd a gwaith cymdeithasol' yn ei gwneud yn glir bod y rhain yn cynnwys cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Felly, nid yw'n fodd o bennu gweithgareddau'r sector cyhoeddus fel y cyfryw, ond ystyrir yn aml bod y categorïau uchod yn awgrymu presenoldeb y sector cyhoeddus.

Y brif ffynhonnell ddata ar lefelau cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn y DU yw'r **Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol** (AGLL) a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Fe'i cynhelir ar draws y DU, gan samplu 60,000 o gartrefi. Mae'n cyfeirio at fan preswyl gweithwyr, nid man gweithio. Fe'i cynhelir bob blwyddyn a phob chwarter. Mae'r canlyniadau blynyddol yn fwy cywir na'r data o'r pedair set ddata chwarterol oherwydd gwahaniaethau yn y strwythurau samplu a ddefnyddir ar gyfer y ddau arolwg. Cesglir data blynyddol gydol y flwyddyn, ac fe'u cyhoeddir ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Chwefror.

Mae'r arolwg hwn yn defnyddio diffiniad cymharol eang o'r sector cyhoeddus, gan gyfeirio at sefydliadau sydd ym mherchnogaeth llywodraeth ganolog neu leol, neu a gyllidir neu a reolir ganddynt. Mae Prifysgolion a sefydliadau addysgol eraill a gyllidir trwy grant wedi'u cynnwys yn niffiniad yr Arolwg o'r Gweithlu Llafur o'r sector cyhoeddus (yn wahanol i arolygon eraill). Caiff meddygon a deintyddion eu codio yn ôl a yw'r rhan fwyaf o'u gwaith yn waith i'r GIG neu'n waith preifat. Mae llawer o'r cwestiynau am ddiwydiannau, galwedigaethau a chymwysterau yr un peth yn yr AGLL ag ydynt yng Nghyfrifiad 2001. Mae'r arolwg yn cyfrifo nifer y gweithwyr, yn hytrach na nifer y swyddi.

Mae gofyn i ymatebwyr yr Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol eu categoreiddio eu hunain naill ai'n gyflogedig yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat (sy'n cynnwys y sector gwirfoddol). Mae nodyn methodolegol a gyhoeddwyd gan ONS yn 2005 (Hicks et al.) yn awgrymu bod yr AGLL yn goramcangyfrif cyflogaeth yn y sector cyhoeddus oherwydd bod pobl yn eu categoreiddio eu hunain yn y sector cyhoeddus, pan nad ydynt yn perthyn i'r grŵp hwnnw. Ar y cyfan, mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gweithio i gyrff a ariennir yn gyhoeddus ond nad ydynt yn cael eu rheoli gan y llywodraeth, fel prifysgolion, a gweithwyr sy'n gweithio i asiantaethau a chontractwyr sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus ond y mae eu cyflogwr yn sefydliad yn y sector preifat.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cyllido sampl atodol o'r AGLL er mwyn gwneud y data ar Gymru'n fwy cadarn. Mae'r holl ganlyniadau'n amcangyfrifon ar sail sampl, a dalgrynnir i'r 1,000 agosaf, felly mae'n bosibl y gwelir rhai gwahaniaethau bychain rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfansymiau a ddangosir.

Mae StatsCymru wedi defnyddio'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol i ddarparu data am gyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng Nghymru rhwng 2001 a 2004. Rydym yn ddiolchgar i StatsCymru am roi i Arsyllfa Wledig Cymru ddisgrifiad manylach o nodweddion gweithwyr y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru, o'u cymharu â'r rhai yn y Gymru drefol, yn y Cymoedd ac yn ardaloedd awdurdodau lleol eraill.

Mae'r **Arolwg o Fyw a Gweithio yng Nghefn Gwlad Cymru** (2004) gan Arsyllfa Wledig Cymru yn darparu ystod o ddata gwaelodlin ar gartrefi yng nghefn gwlad Cymru. Defnyddiwyd arolwg ffôn i archwilio 4,023 o gartrefi, a oedd yn cynnwys dros 9,900 o unigolion. Gellir dadelfennu'r canlyniadau yn ôl awdurdod lleol a math o anheddiad, fel y diffinnir gan yr ymatebydd. Roedd yr arolwg yn ymgorffori cartrefi wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig ym Mro Morgannwg a Sir y Fflint, yn ogystal â'r naw awdurdod gwledig safonol. Roedd adran sylweddol yn trafod yr economi a chyflogaeth. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddatgan a oeddent hwy (ac aelodau eraill y cartref) wedi'u cyflogi yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r sector

gwirfoddol. Gellir cynnal dadansoddiad manylach gyda'r data hwn i ddadansoddi nodweddion a phrofiadau gweithwyr y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru. Rhagwelir y bydd lefel cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn yr arolwg hwn wedi'i oramcangyfrif, gan ei fod wedi dibynnu ar hunanddiffiniad yr ymatebwyr.

Rhoddodd yr Arolwg o Fyw a Gweithio yng Nghefn Gwlad Cymru gronfa ddata i AWC o 551 unigolyn sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus ac a fyddai'n barod i gymryd rhan mewn arolwg yn y dyfodol. Cwblhaodd cant o'r gweithwyr hyn yn y sector cyhoeddus holiadur ffôn arall, a gynhaliwyd yn 2005. Lleolwyd yr unigolion hyn mewn pedair ardal awdurdod lleol, roeddent yn gweithio i ystod o sefydliadau yn y sector cyhoeddus ac yn cynnwys cymysgedd amrywiol o alwedigaethau. Dadansoddwyd canlyniadau'r holiadur hwn i ganiatáu dadansoddiad manylach o brofiadau a barn y rhai sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru, a thrafodir hyn ymhellach yn adran 7. Roedd pawb a gyfwelwyd ar gyfer yr arolwg hwn yn gweithio mewn sefydliad yn y sector cyhoeddus, yn ôl diffiniad yr ONS. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, er bod yr unigolion hyn yn byw yng nghefn gwlad Cymru, gallai eu man gweithio fod y tu allan i gefn gwlad Cymru.

**Mae Arolwg Llywodraeth Leol o Gyflogaeth**, a alwyd gynt yn yr Arolwg o Bae Statws Sengl, yn arolwg blynyddol, a gynhelir rhwng Mehefin a Medi. Mae'n casglu gwybodaeth am ffigurau cyflogaeth mewn llywodraeth leol. Mae'r arolwg yn dosbarthu cyflogaeth yn ôl rhyw, swyddi amser llawn a rhan-amser a meysydd swyddogaeth bras. Mae'r data'n gwahaniaethu rhwng athrawon, gweithwyr eraill ym myd addysg[4] a'r gwasanaethau cymdeithasol, yn ogystal â 'swyddogaethau corfforaethol'[5] a 'gwasanaethau eraill yn uniongyrchol i'r cyhoedd[6]'. Mae'r arolwg hwn yn cyfrif nifer y swyddi mewn llywodraeth leol, yn hytrach na chyfanswm y gweithwyr. Cesglir data gan gyflogwyr, ac felly mae'n cyfeirio at fan gweithio'r gweithwyr yn hytrach na'u man preswylio.

Mae **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** wedi llunio ystadegau ar gyflogaeth mewn llywodraeth leol ar draws Cymru. Mae hyn yn seiliedig ar arolwg cyflogwyr o sefydliadau llywodraeth leol. Mae'r canlyniadau ar gael ar gyfer pob awdurdod lleol a chânt eu dadelfennu yn ôl gweithwyr gwrywaidd a benywaidd amser llawn a rhan-amser.

## 2.5 Crynodeb

Mae'r adran hon yn amlinellu'r amrywiaeth eang o ffynonellau data sy'n bodoli i ddadansoddi cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru. Mae

[4] Mae hyn yn cynnwys gweithwyr cludiant ysgolion, gweithwyr ieuenctid a chymunedol, cynorthwywyr meithrin, gweithwyr gweinyddol, ysgrifenyddol a chlerigol yn y gwasanaeth addysg a glanhawyr a gweithwyr ffreutur sy'n gwasanaethu sefydliadau addysgol.

[5] Mae swyddogaethau corfforaethol yn cynnwys swyddi mewn gweinyddiaeth ganolog, gwasanaethau personél canolog, gwasanaethau rheoli canolog, cynnal, cadw a glanhau swyddfeydd canolog a chofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau.

[6] Mae 'gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd' yn cynnwys swyddi mewn adeiladu, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, hamdden, iechyd amgylcheddol, gwastraff, ailgylchu, tai, cynllunio a datblygu economaidd a pheirianneg a gwasanaethau technegol.

amwysedd diffinio cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a’r dulliau amrywiol o gasglu data’n her fethodolegol. Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi ceisio defnyddio’r ystadegau ‘mwyaf priodol’, yn ôl y materion a drafodir. Mewn rhai achosion, byddwn yn tynnu sylw at wahaniaethau rhwng gwahanol ffynonellau; mewn achosion eraill, byddwn yn defnyddio’n barn i ddewis y ffynhonnell ddata fwyaf cadarn.

## ADRAN 3: CYFLOGAETH YN Y SECTOR CYHOEDDUS YNG NGHEFN GWLAD CYMRU

### 3.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn trafod arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm y gweithwyr yng nghefn gwlad Cymru. Mae adran 3.1 yn dangos dosbarthiad cyflogaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar draws cefn gwlad Cymru. Mae adran 3.2 yn cymharu dosbarthiad cyflogaeth ar draws cefn gwlad Cymru â dosbarthiad cyflogaeth ar draws ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae adran 3.3 yn cymharu dosbarthiad cyflogaeth rhwng pob un o'r naw awdurdod unedol gwledig yng Nghymru.

Oni nodir yn wahanol, tynnir y data yn y tablau o'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol ar gyfer y blynyddoedd 2001 – 2004. Mae'r data ar gyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, neu gefn gwlad Cymru cyn 2001, yn gyfyngedig, ac nid yw'r data sydd ar gael yn gadarn. Fel y trafodwyd yn y bennod ar ffynonellau data a chasglu data, mae'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yn talgrynnu pob rhif i'r mil agosaf. O ganlyniad, ar brydiau bydd niferoedd y gweithwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat gyda'i gilydd yn fwy na 'chyfanswm y gweithwyr' (fel y trafodwyd yn adran 2.4 uchod).

### 3.2 Dosbarthiad cyflogaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar draws cefn gwlad Cymru

Mae'r sector cyhoeddus yn gyflogwr pwysig yng nghefn gwlad Cymru. Mae canlyniadau'r Arolwg diweddaraf o'r Gweithlu Llafur Lleol, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2004, yn awgrymu bod y sector cyhoeddus yn cyfrif am dros chwarter (28.1%) yr holl waith cyflogedig ar draws y naw awdurdod unedol pennaf wledig – 121,000 allan o gyfanswm o 309,000 o bobl mewn cyflogaeth. Mae'r arolwg o gartrefi cefn gwlad a gynhaliwyd ar ddechrau 2004 ar ran Arsyllfa Wledig Cymru wedi cynhyrchu canlyniadau bron iawn yn union yr un peth, sy'n awgrymu y caiff 28.0% o'r boblogaeth sy'n gweithio ar draws cefn gwlad Cymru eu cyflogi yn y sector cyhoeddus.

Mae tabl 3.1 yn dangos dosbarthiad y gweithlu llafur rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar draws cefn gwlad Cymru, yn ôl yr Arolwg o'r Gweithlu Llafur Leol yng Nghymru ar gyfer 2004.

Tabl 3.1: Dosbarthiad y gweithlu llafur rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar draws cefn gwlad Cymru, 2004; ffynhonnell – Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yng Nghymru

| | Nifer a Gyflogir | % Pawb a Gyflogir |
|---|---|---|
| Sector Cyhoeddus | 121,000 | 28.1 |
| Sector Preifat | 309,000 | 71.9 |
| Pob Cyflogaeth | 431,000 | 100 |

### 3.3 Cymharu cefn gwlad Cymru ag ardaloedd eraill yng Nghymru

Mae tabl 3.2 yn dangos niferoedd gweithwyr y sector cyhoeddus a chyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth yng Nghefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd, 'Ardaloedd Eraill' ac ar draws Cymru gyfan yn ystod 2004.

Tabl 3.2: Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth yn 2004; Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd, 'Ardaloedd Eraill'

| **Ardal Ddaearyddol** | **Cyfanswm Cyflogaeth #[7]** | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus #** | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus %** |
|---|---|---|---|
| Cefn Gwlad | 431,000 | 121,000 | 28.1 |
| Trefol | 299,000 | 92,000 | 30.8 |
| Cymoedd | 363,000 | 102,000 | 28.1 |
| Ardaloedd Eraill | 190,000 | 48,000 | 25.3 |
| *Cymru Gyfan* | *1,281,000* | *364,000* | *28.4* |

Mae cyfran y gweithlu llafur a gyflogir yn y sector cyhoeddus yn debyg ar draws Cymru. Mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru (28.1%) bron yn union yr un peth â chyfartaledd Cymru, sef 28.4%. Mae gweithwyr (gan gynnwys yr hunangyflogedig) sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru ychydig yn llai tebygol o weithio yn y sector cyhoeddus nag y mae gweithwyr mewn ardaloedd trefol (30.8%), yr un mor debygol o weithio yn y sector cyhoeddus o'u cymharu â gweithwyr yn y Cymoedd, ac ychydig yn fwy tebygol o weithio yn y sector cyhoeddus nag y mae gweithwyr mewn awdurdodau unedol 'eraill' (25.3%).

Fodd bynnag, mae mwy o weithwyr y sector cyhoeddus yn byw yng nghefn gwlad Cymru nag yn unrhyw ardal arall yng Nghymru. O ganlyniad, mae gan y naw awdurdod unedol gwledig gyfran uwch (33.2%) o gyfanswm gweithlu'r sector cyhoeddus nag unrhyw ardal arall yng Nghymru. Mae gan y Cymoedd, sy'n gartref i 102,000 o weithwyr y sector cyhoeddus, 28.0% o weithlu'r sector cyhoeddus, ac wedyn daw'r Gymru drefol (92,000 o weithwyr; 25.3% o weithlu'r sector cyhoeddus) ac Ardaloedd Eraill (48,000 o weithwyr; 13.2% o weithlu'r sector cyhoeddus). Ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat, mae mwy o'r gweithwyr yn byw yng nghefn gwlad Cymru nag mewn unrhyw un ardal arall yng Nghymru.

Mae saith o'r naw awdurdod unedol pennaf wledig – Sir Fôn, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd a Sir Benfro yn cael cymorth o dan raglen addasu strwythurol Amcan 1 i Gymru. O'u hystyried gyda'i gilydd, mae gan ardal Amcan 1 – gorllewin Cymru a'r Cymoedd – gyfran uwch o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus (29.7%) nag ardaloedd eraill (24.5%).

### 3.4 Archwilio amrywiad daearyddol

Mae tabl 3.3 yn dangos cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth ym mhob un o'r naw awdurdod unedol 'pennaf wledig' yn ystod 2004 yn ôl eu trefn. Gan fod y ffigurau a ddarparwyd gan yr Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

[7] Mae'r ffigurau a ddarparwyd yn yr Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol wedi'u talgrynnu i'r mil agosaf. O ganlyniad, nid yw cyfanswm cyflogaeth Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill yn hafal i gyfanswm cyflogaeth Cymru Gyfan.

wedi'u talgrynnu i'r '000 agosaf, gall cyfanswm cyflogaeth ar gyfer y naw awdurdod unedol fod yn fwy neu'n llai na chyfanswm cyflogaeth Cefn Gwlad Cymru.

Tabl 3.3: Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth yn 2004; ardaloedd awdurdodau unedol gwledig; yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf)

| **Awdurdod gweinyddol** | **Cyfanswm Cyflogaeth #** | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus #** | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus %** |
|---|---|---|---|
| Gwynedd | 53,000 | 18,000 | 33.3 |
| Sir Gaerfyrddin | 72,000 | 23,000 | 32.3 |
| Ceredigion | 35,000 | 11,000 | 30.5 |
| Sir Ddinbych | 43,000 | 13,000 | 29.9 |
| Sir Fôn | 29,000 | 8,000 | 28.4 |
| Sir Benfro | 49,000 | 12,000 | 25.1 |
| Conwy | 48,000 | 12,000 | 24.2 |
| Powys | 61,000 | 15,000 | 24.2 |
| Sir Fynwy | 41,000 | 9,000 | 22.8 |
| *Cefn Gwlad Cymru* | *431,000* | *121,000* | *28.1* |

Mae'n amlwg bod cryn amrywiad daearyddol, o fewn cefn gwlad Cymru, yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel cyfran o gyfanswm cyflogaeth. Mae hynny fwyaf arwyddocaol yng Ngwynedd a Sir Gaerfyrddin, lle mae'n cyfrif am bron i un rhan o dair (33.3% a 32.3% yn ôl eu trefn) o'r holl gyflogaeth. Mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn gymharol isel yn Sir Benfro, Conwy, Powys a Sir Fynwy, lle mae'n cyfrif am chwarter neu lai o'r holl gyflogaeth. Ar raddfa ddaearyddol fwy, mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ar ei uchaf yng ngorllewin Cymru – ac eithrio eithafion y gogledd-orllewin (Sir Fôn) ac eithafion y de-orllewin (Sir Benfro) – ac mae'n is yn nwyrain Cymru.

## ADRAN 4: NODWEDDION GWEITHWYR Y SECTOR CYHOEDDUS

Mae'r adran hon yn trafod nodweddion gweithlu'r sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru. Ystyrir y dimensiynau canlynol yn fanwl: rhyw, oedran, oriau a weithir, cymwysterau, y Gymraeg, galwedigaeth, dosbarth cymdeithasol, diwydiant cyflogaeth.

### 4.1 Rhyw

Mae'r isadran hon yn trafod arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o ran rhyw. Mae adran 4.1.1 yn cymharu dosbarthiad gweithwyr gwrywaidd a benywaidd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar draws cefn gwlad Cymru. Mae adran 4.1.2 yn cymharu dosbarthiad gweithwyr gwrywaidd a benywaidd yng nghefn gwlad Cymru gyda'u dosbarthiad rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar draws ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae adran 4.1.3 yn cymharu dosbarthiad gweithwyr gwrywaidd a benywaidd ym mhob un o'r naw awdurdod unedol gwledig yng Nghymru. Mae pob adran yn dechrau gyda chrynodeb o batrymau allweddol sy'n amlwg o'r data a gyflwynir yn y tablau, ac wedyn yn symud i drafodaeth fanylach o'r data.

Oni nodir yn wahanol, mae'r data yn y tablau wedi'u tynnu o'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol ar gyfer y blynyddoedd 2001 – 2004, yr unig flynyddoedd y mae ffigurau ar gael ar eu cyfer. Fel y trafodwyd yn y bennod ar ffynonellau data a chasglu data, mae'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yn talgrynnu pob ffigur i'r fil agosaf. O ganlyniad, mewn rhai achosion mae cyfanswm gweithwyr y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn fwy na 'chyfanswm y gweithwyr'. Lle bo hyn yn digwydd, a lle bo gwahaniaethau neu broblemau eraill gyda'r data, amlygir hyn yn y testun.

4.1.1 Dosbarthiad gweithwyr gwrywaidd a benywaidd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar draws cefn gwlad Cymru

Ar draws cefn gwlad Cymru, mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn llawer mwy arwyddocaol i'r gweithlu llafur benywaidd nag ydyw i'r gweithlu llafur gwrywaidd. Mae canlyniadau'r Arolwg diweddaraf o'r Gweithlu Llafur Lleol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2004, yn awgrymu bod y sector cyhoeddus yn cyfrif am lai na un rhan o bump (18.3%) o gyflogaeth gwrywod, ond gryn dipyn dros un rhan o dair (39.6%) o gyflogaeth benywod. Tra bod y gweithlu llafur benywaidd ar draws cefn gwlad Cymru ar y cyfan 12% yn llai na'r gweithlu llafur gwrywaidd, mae'r sector cyhoeddus yn cyflogi bron i ddwywaith yn fwy o fenywod o gefn gwlad Cymru na dynion.

Mae'r arolwg o gartrefi cefn gwlad a gynhaliwyd ar ran Arsyllfa Wledig Cymru yng ngwanwyn 2004, yn awgrymu'r un dosbarthiad bras o gyflogaeth yn ôl rhyw, ond mae'n rhoi ffigur rhywfaint yn is (36.0%) ar gyfer cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg menywod sydd 'mewn gwaith ar hyn o bryd' a ffigur uwch (24%) ar gyfer cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg dynion sydd 'mewn gwaith ar hyn o bryd'. Mae'n debygol bod y ffigurau hyn yn llai cywir na ffigurau'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol oherwydd y dulliau samplu gwahanol a ddefnyddiwyd.

Mae tabl 4.1 yn dangos dosbarthiad y gweithlu llafur gwrywaidd a benywaidd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar draws cefn gwlad Cymru yn ôl yr Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yng Nghymru yn 2004.

Tabl 4.1: Dosbarthiad y gweithlu llafur gwrywaidd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar draws cefn gwlad Cymru, 2004

| | **# dynion a Gyflogir** | **# menywod a Gyflogir** | **% cyfanswm Cyflogaeth Dynion** | **% cyfanswm Cyflogaeth Menywod** |
|---|---|---|---|---|
| Sector Cyhoeddus | 42,000 | 80,000 | 18.3 | 39.6 |
| Sector Preifat | 188,000 | 122,000 | 81.7 | 60.4 |
| Pob Cyflogaeth | 229,000 | 202,000 | 100 | 100 |

4.1.2 Cymharu cefn gwlad Cymru ag ardaloedd eraill yng Nghymru

Mae tabl 4.2 yn dangos niferoedd gweithwyr y sector cyhoeddus a chyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth, yn ôl rhyw, ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd, Ardaloedd Eraill a Chymru Gyfan yn 2004.

Tabl 4.2: Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth yn ôl rhyw, Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd, Ardaloedd Eraill a Chymru Gyfan, 2004

| **Ardal ddaearyddol** | **Cyfanswm cyflogaeth#** | | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus #** | | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus %** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Dynion** | **Menywod** | **Dynion** | **Menywod** | **Dynion** | **Menywod** |
| Cefn Gwlad Cymru | 229,00 | 202,000 | 42,000 | 80,000 | 18.3 | 39.6 |
| Y Gymru Drefol | 155,000 | 143,000 | 33,000 | 58,000 | 21.3 | 40.6 |
| Y Cymoedd | 193,000 | 168,000 | 36,000 | 68,000 | 18.7 | 40.5 |
| Ardaloedd Eraill | 101,000 | 89,000 | 17,000 | 31,000 | 16.8 | 34.8 |
| *Cymru Gyfan* | *680,000* | *602,000* | *126,000* | *237,000* | *18.6* | *39.5* |

Yn 2004, roedd cyfran y gyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn y gweithlu llafur gwrywaidd ar ei uchaf yn y Gymru drefol (21.3%), ar ei isaf mewn ardaloedd 'eraill' (16.8%) a bron yr un peth ar draws cefn gwlad Cymru (18.3%) ac yn y Cymoedd (18.7%). Roedd cyfran cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn y gweithlu llafur benywaidd ar ei uchaf yn y Gymru drefol (40.6%) ac yn y Cymoedd (40.5%) ac ar ei isaf mewn 'ardaloedd eraill'. Fodd bynnag, mae pa bynnag wahaniaethau a oedd yn amlwg rhwng cefn gwlad Cymru ac ardaloedd eraill yn fychan ac mae'n ddigon posibl y gellid eu priodoli i wallau samplu yn yr Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol ac i'r arfer o dalgrynnu cyfrifau i'r '000 agosaf. O ystyried y ffactorau hyn, ymddengys bod arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ar draws cefn gwlad Cymru o fewn gweithluoedd gwrywaidd a benywaidd yn gymharol debyg i arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ar draws ardaloedd eraill yng Nghymru.

4.1.3 Archwilio amrywiad daearyddol

Yng nghefn gwlad Cymru, mae amrywiad daearyddol arwyddocaol yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn erbyn cyflogaeth gyffredinol ymysg y gweithlu gwrywaidd a'r gweithlu benywaidd. Ar yr un pryd, ymddengys bod yr amrywiad hwn yn 'niwtral o ran rhyw'; lle bo cyflogaeth dynion yn y sector cyhoeddus yn fwy arwyddocaol, mae cyflogaeth menywod yn y sector cyhoeddus yn fwy arwyddocaol, ac i'r gwrthwyneb. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth rhwng arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i'r gweithlu gwrywaidd ac arwyddocâd y sector cyhoeddus i'r gweithlu benywaidd yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd awdurdodau unedol.

Mae tabl 4.3 yn dangos niferoedd gweithwyr y sector cyhoeddus a chyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd ym mhob un o'r naw ardal awdurdod unedol 'pennaf wledig' yn ystod 2004 yn ôl eu trefn.

Tabl 4.3: Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf)

| **Ardal weinyddol** | **Cyfanswm Cyflogaeth#** | **Cyflogaeth yn y Sector Cyhoeddus #** | **Cyflogaeth yn y Sector Cyhoeddus %** |
|---|---|---|---|
| Gwynedd | 28,000 | 7,000 | 24.4 |
| Ceredigion | 18,000 | 4,000 | 20.7 |
| Sir Ddinbych | 23,000 | 5,000 | 20.2 |
| Sir Gaerfyrddin | 39,000 | 7,000 | 19.0 |
| Sir Fôn | 16,000 | 3,000 | 17.4 |
| Sir Benfro | 26,000 | 4,000 | 16.2 |
| Conwy | 25,000 | 4,000 | 16.2 |
| Powys | 33,000 | 5,000 | 14.0 |
| Sir Fynwy | 21,000 | 3,000 | 13.7 |
| *Cefn Gwlad Cymru* | **229,000** | **42,000** | **18.3** |

Gellir gweld bod cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu gwrywaidd fwyaf arwyddocaol yng Ngwynedd, lle mae bron i chwarter (24.4%) y gweithwyr gwrywaidd yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu gwrywaidd hefyd yn uwch na'r cyfartaledd yng Ngheredigion (20.7%), Sir Ddinbych (20.2%) a Sir Gaerfyrddin (19.0%). Yn yr holl siroedd hyn lle bo cyflogaeth dynion yn y sector cyhoeddus yn gymharol uchel, mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ar y cyfan yn gymharol uchel. Mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu gwrywaidd yn llawer is na'r cyfartaledd ym Mhowys (14.0%) a Sir Fynwy (13.7%), lle bo cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ar y cyfan yn gymharol isel.

Mae tabl 4.4 yn dangos niferoedd gweithwyr y sector cyhoeddus a chyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur benywaidd ym mhob un o'r naw ardal awdurdod unedol 'pennaf wledig' yn ystod 2004 yn ôl eu trefn.

Fel yn achos y gweithlu gwrywaidd, mae i arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyflogaeth gyffredinol menywod amrywiad daearyddol amlwg. Mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu benywaidd ar ei uchaf yn Sir Gaerfyrddin, lle mae'n cyfrif am bron i hanner (48.1%) holl gyflogaeth menywod. Mae hefyd yn uwch na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (43.1%), Ceredigion (41.2%), Sir Ddinbych (40.9%) a Sir Fôn (40.8%). Ym mhob un o'r siroedd hyn mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ar y cyfan yn uwch na'r cyfartaledd.

Tabl 4.4: Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur benywaidd, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf)

| Ardal weinyddol | Cyfanswm Cyflogaeth # | Cyflogaeth yn y Sector Cyhoeddus # | Cyflogaeth yn y Sector Cyhoeddus % |
|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 33000 | 16000 | 48.1 |
| Gwynedd | 25000 | 11000 | 43.1 |
| Ceredigion | 17000 | 7000 | 41.2 |
| Sir Ddinbych | 20000 | 8000 | 40.9 |
| Sir Fôn | 14000 | 6000 | 40.8 |
| Powys | 27000 | 10000 | 36.7 |
| Sir Benfro | 23000 | 8000 | 35.3 |
| Sir Fynwy | 20000 | 6000 | 32.8 |
| Conwy | 23000 | 8000 | 32.7 |
| **Cefn Gwlad Cymru** | **202,000** | **80,000** | **39.6** |

Mae tabl 4.5 yn dangos cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd a benywaidd a chymhareb cyflogaeth dynion:menywod ar draws y naw ardal awdurdod unedol 'gwledig' yn 2004.

Tabl 4.5: Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel % o gyfanswm cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd a benywaidd, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2004

| Ardal weinyddol | Cyflogaeth Menywod yn y Sector Cyhoeddus % | Cyflogaeth Dynion yn y Sector Cyhoeddus % | Cymhareb Cyflogaeth Dynion:Menywod |
|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 48.1 | 19.0 | 2:5 |
| Gwynedd | 43.1 | 24.4 | 4:7 |
| Ceredigion | 41.2 | 20.7 | 1:2 |
| Sir Ddinbych | 40.9 | 20.2 | 1:2 |
| Sir Fôn | 40.8 | 17.4 | 8:19 |
| Powys | 36.7 | 14.0 | 8:21 |
| Sir Benfro | 35.3 | 16.2 | 4: 9 |
| Sir Fynwy | 32.8 | 13.7 | 8:19 |
| Conwy | 32.7 | 16.2 | 1:2 |
| **Cefn Gwlad Cymru** | **39.6** | **18.3** | **1:2** |

Ar draws cefn gwlad Cymru, mae'r sector cyhoeddus tua dwywaith yn fwy arwyddocaol i fenywod nag ydyw i ddynion; hynny yw, mae'n cyfrif am ddwywaith cyfran cyflogaeth ymysg y gweithlu llafur benywaidd nag y mae ymysg y gweithlu

llafur gwrywaidd – 39.6% o'i gymharu â 18.3%. I bob gweithiwr yn y sector cyhoeddus yn y gweithlu llafur gwrywaidd, mae dau weithiwr yn y sector cyhoeddus yn y gweithlu llafur benywaidd. Fodd bynnag, mae i'r gymhareb gyfartalog hon o 1 dyn i bob 2 fenyw gryn amrywiad gofodol. Mae'r gymhareb fwyaf i'w gweld yn Sir Gaerfyrddin, lle bo dau weithiwr yn y sector cyhoeddus yn y gweithlu llafur gwrywaidd i bob pum gweithiwr yn y sector cyhoeddus yn y gweithlu llafur benywaidd (cymhareb 2:5). Gwelir cyfraddau uchel hefyd ym Mhowys (8:21), Sir Fôn (8:19) a Sir Fynwy (8:19). Mae'r gymhareb leiaf rhwng menywod a dynion yng Ngwynedd, lle bo pedwar gweithiwr yn y sector cyhoeddus yn y gweithlu llafur gwrywaidd i bob saith gweithiwr yn y sector cyhoeddus yn y gweithlu llafur benywaidd (cymhareb 4:7). Mae Gwynedd yn amlwg fel yr unig sir wledig i fod â chymhareb cyflogaeth dynion:menywod yn y sector cyhoeddus sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd yng nghefn gwlad Cymru. Nid oes yr un sir wledig lle mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn fwy arwyddocaol ymysg y gweithlu gwrywaidd nag ydyw ymysg y gweithlu benywaidd.

## 4.2 Oedran

Tabl 4.6: Dosbarthiad oedran y gweithlu o fewn y sector cyhoeddus, y sector preifat a phob sector yng nghefn gwlad Cymru a Chymru gyfan

| | 16-24 | 25-39 | 40-49 | 50-59 | 60-64 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Gweithwyr y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru (%) | 8 | 35 | 30 | 25 | 2 |
| Gweithwyr y sector cyhoeddus ledled Cymru (%) | 8 | 37 | 29 | 25 | 2 |
| | | | | | |
| Gweithwyr y sector preifat yng nghefn gwlad Cymru (%) | 17 | 30 | 25 | 24 | 4 |
| Gweithwyr y sector preifat ledled Cymru (%) | 19 | 33 | 25 | 20 | 3 |
| | | | | | |
| Pob gweithiwr yng nghefn gwlad Cymru (%) | 14 | 31 | 27 | 24 | 4 |
| Pob gweithiwr ledled Cymru (%) | 16 | 34 | 26 | 21 | 3 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yng Nghymru, 2004

Mae tabl 4.6 yn dangos bod i'r sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru gyfran uwch o weithwyr rhwng 25 a 59 oed na'r sector preifat. Mae'r patrwm hwn i'r gwrthwyneb ymysg gweithwyr iau (rhwng 16 a 24 oed), sy'n cyfrif am 17% o weithlu'r sector preifat a dim ond 8% o weithlu'r sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru. Ar ben arall y sbectrwm oedran, mae cynrychiolaeth is o bobl hyn yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Efallai y gellid cyfrif am wahaniaethau o'r fath oherwydd bod pensiynau gwell yn y sector cyhoeddus a'i bod yn fwy tebygol i weithwyr y sector cyhoeddus ymddeol yn gynnar.

Mae'r canlyniadau'n dangos mai amrywiad daearyddol bychan sydd ymysg y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar draws Cymru, gyda dosbarthiad oedran tebyg ar draws awdurdodau gwledig, awdurdodau'r Cymoedd ac awdurdodau trefol, yn y ddau sector.

Tabl 4.7: Dosbarthiad oedran y gweithlu o fewn y sector cyhoeddus, y sector preifat a phob sector yng nghefn gwlad Cymru a Chymru gyfan, yn ôl rhyw

| | **16-24** | | **25-39** | | **40-49** | | **50-59** | | **60-64** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | G | B | G | B | G | B | G | B | G | B |
| | | | | | | | | | | |
| Gweithwyr y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru (%) | 8 | 7 | 34 | 36 | 27 | 32 | 25 | 25 | 6 | |
| Gweithwyr y sector cyhoeddus ledled Cymru (%) | 8 | 8 | 36 | 37 | 26 | 31 | 25 | 24 | 5 | |
| | | | | | | | | | | |
| Gweithwyr y sector preifat yng nghefn gwlad Cymru (%) | 15 | 19 | 30 | 29 | 25 | 26 | 23 | 25 | 7 | |
| Gweithwyr y sector preifat ledled Cymru (%) | 16 | 23 | 33 | 33 | 25 | 24 | 20 | 20 | 5 | |
| | | | | | | | | | | |
| Pob gweithiwr yng nghefn gwlad Cymru (%) | 14 | 14 | 31 | 32 | 25 | 29 | 23 | 25 | 7 | |
| Pob gweithiwr ledled Cymru (%) | 15 | 17 | 34 | 35 | 25 | 27 | 21 | 22 | 5 | |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yng Nghymru, 2004

Pan gaiff y data hwn ei ddadansoddi yn ôl rhyw, yn ogystal ag oedran, y nodwedd amlycaf yw absenoldeb menywod o'r grwp oedran hynaf (gweler tabl 4.7). Y rheswm am hyn yw y gall menywod dderbyn pensiwn y wladwriaeth yn 60 oed ar hyn o bryd. Ar y cyfan, mae'r dosbarthiad ymysg categorïau oedran yn debyg ar gyfer gweithwyr gwrywaidd a benywaidd yng nghefn gwlad Cymru, er bod gweithwyr benywaidd y sector cyhoeddus yn cyfrif am gyfran uwch o'r gweithlu rhwng 40 a 49 oed. Nid oes gwahaniaeth o'r fath yn y sector preifat.

## 4.3 Gweithio'n amser llawn ac yn rhan-amser

Yn y sector cyhoeddus, mae 29% o'r gweithlu sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru yn gweithio'n rhan-amser, sy'n gyfran ychydig yn uwch na'r rhai sy'n gweithio'n rhan-amser yn y sector cyhoeddus mewn ardaloedd anwledig (27%). Ledled Cymru, ac ar draws pob sector, mae menywod yn fwy tueddol o weithio'n rhan-amser na dynion. Yng nghefn gwlad Cymru, mae 89% o ddynion yn gweithio'n amser llawn ac mae 11% yn gweithio'n rhan-amser; tra bo 55% o fenywod yn gweithio'n amser llawn a 45% yn weithwyr rhan-amser. Mae'r ffigurau'n debyg yn yr awdurdodau anwledig, er bod menywod sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru yn fwy tueddol o weithio'n rhan-amser (mewn awdurdodau anwledig, mae 42% o fenywod yn gweithio'n rhan-amser).

Tabl 4.8: Personau 16 oed neu'n hyn mewn cyflogaeth amser llawn neu ran-amser yng Nghymru ym mhob sector, yn ôl math o ardal a rhyw, 2004

| | Amser llawn (%) | | | Rhan-amser (%) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwrywod | Benywod | Cyfanswm | Gwrywod | Benywod | Cyfanswm |
| Gwledig | 89 | 55 | 73 | 11 | 45 | 27 |
| Cymoedd | 92 | 60 | 77 | 8 | 40 | 23 |
| Trefol | 88 | 55 | 72 | 12 | 45 | 28 |
| Arall | 92 | 58 | 76 | 8 | 42 | 24 |
| Anwledig | 90 | 58 | 75 | 10 | 42 | 25 |
| Cymru Gyfan | 90 | 57 | 74 | 10 | 43 | 26 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yng Nghymru, 2004

O fewn y sector cyhoeddus, mae menywod yn llai tebygol o weithio'n rhan-amser na'r rhai yn y sector preifat. Yng nghefn gwlad Cymru, mae 39% o weithwyr benywaidd y sector cyhoeddus yn weithwyr rhan-amser, o'i gymharu â 50% o fenywod sy'n gweithio'n rhan-amser yn y sector preifat. Mae dynion hefyd yn llai tebygol o fod yn weithwyr rhan-amser yn y sector cyhoeddus. Mae'r gwahaniaeth rhwng amlygrwydd swyddi rhan-amser yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn codi cwestiynau ynghylch addasrwydd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i'r rhai nad ydynt yn dymuno, neu na allant, weithio'n amser llawn, a gaiff effaith benodol ar y gweithlu benywaidd.

Tabl 4.9: Personau 16 oed neu'n hyn mewn cyflogaeth amser llawn neu ran-amser yng Nghymru yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ôl rhyw yng nghefn gwlad Cymru, 2004

| | Amser llawn (%) | | | Rhan-amser (%) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwrywod | Benywod | Cyfanswm | Gwrywod | Benywod | Cyfanswm |
| Cyhoeddus | 91 | 61 | 71 | 9 | 39 | 29 |
| Preifat | 88 | 50 | 73 | 12 | 50 | 26 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yng Nghymru, 2004

## 4.4 Cymwysterau

Yng Nghymru, mae gan weithlu'r sector cyhoeddus, ar gyfartaledd, lefelau uwch o gymwysterau ffurfiol na gweithlu'r sector preifat, yn ôl ystadegau o'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yng Nghymru. O fewn y sector preifat, nid oes gan 13% unrhyw gymwysterau, o'i gymharu â 4% o weithwyr y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae prentisiaethau masnach bedair gwaith yn fwy cyffredin ymysg gweithlu'r sector preifat yng nghefn gwlad Cymru, na gweithlu'r sector cyhoeddus.

Mae'r arolwg o gartrefi gan Arsyllfa Wledig Cymru yn cyfleu canfyddiadau tebyg. Mae'r data'n dangos bod gweithwyr y sector cyhoeddus yn fwy tebygol o fod wedi ennill cymwysterau o sefydliadau addysg uwch na'r rhai sy'n gweithio yn y sector preifat. Fodd bynnag, mae gweithwyr sydd â graddau prifysgol a chymwysterau ôl-raddedig fwyaf cyffredin yn y sector gwirfoddol. Mae cyfran y gweithwyr heb unrhyw gymwysterau yn y sector preifat ddwywaith mor uchel ag y mae yn y sector cyhoeddus.

Tabl 4.10: Cymwysterau uchaf yn ôl sector cyflogaeth bresennol:

| | | Preifat (%) | Cyhoeddus (%) | Gwirfoddol (%) |
|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster addysgol uchaf: | **Dim cymwysterau** | 10 | 5 | 4 |
| | **Lefel O, TAG neu TGAU** | 23 | 20 | 11 |
| | **Gradd brifysgol** | 12 | 22 | 23 |
| | **Cymhwyster ôl-raddedig** | 2 | 9 | 12 |

Ffynhonnell: Arsyllfa Wledig Cymru, 2004

Mae amrywiadau yn y lefelau cymhwyster ar draws Cymru. Gweithwyr y sector cyhoeddus sy'n byw mewn awdurdodau trefol sydd â'r lefelau uchaf o gymwysterau, ac mae gan dros eu hanner CGC Lefel 4 o leiaf; dim ond 44% o weithwyr y sector cyhoeddus sy'n byw yn awdurdodau'r Cymoedd sydd â chymwysterau o'r fath, tra bo 49% o'r rhai yng nghefn gwlad Cymru yn eu dal.

Tabl 4.11: Cymwysterau CGC lefel 4 yn y sector cyhoeddus ar draws Cymru

| | % o weithlu'r sector cyhoeddus sydd â CGC lefel 4 neu uwch |
|---|---|
| Awdurdodau gwledig | 49 |
| Awdurdodau'r cymoedd | 44 |
| Awdurdodau trefol | 56 |
| Awdurdodau eraill | 48 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yng Nghymru, 2004

## 4.5 Y Gymraeg

Tabl 4.12: Personau 16 oed neu'n hyn mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg – yn ôl rhyw a math o ardal, 2004

| | Yn **gallu** siarad Cymraeg | | |
|---|---|---|---|
| | Gwrywod | Benywod | **Cyfanswm** |
| Gwledig | 47 | 54 | 52 |
| Cymoedd | 19 | 22 | 21 |
| Trefol | 13 | 18 | 16 |
| Eraill | 20 | 23 | 22 |
| Anwledig | 17 | 21 | 19 |
| Cymru | 27 | 32 | 30 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yng Nghymru, 2004

Mae dros hanner gweithwyr y sector cyhoeddus sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru yn gallu siarad Cymraeg, ac mae gweithwyr benywaidd ychydig yn fwy tebygol o fod yn siaradwyr Cymraeg nag y mae dynion. Mae'r gallu i siarad Cymraeg gryn dipyn dros hanner mor gyffredin ymysg gweithwyr y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru nag y mae ymysg gweithwyr y sector cyhoeddus mewn ardaloedd eraill yng

Nghymru (gall 52% siarad Cymraeg yng nghefn gwlad Cymru, o'i gymharu â 21% yng ngweddill Cymru).

Ledled Cymru, mae siaradwyr Cymraeg yn fwy cyffredin yn y sector cyhoeddus nag y maent mewn sectorau eraill. Mae'r duedd hon yn arbennig o amlwg yng nghefn gwlad Cymru, lle gall 52% o weithwyr y sector cyhoeddus siarad Cymraeg, o'i gymharu â 43% o gyfanswm y gweithlu, a dim ond 39% yn y sector preifat. Yn rhannol, gall y tebygolrwydd uwch i siaradwyr Cymraeg weithio mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus ddeillio o bolisïau Cymraeg mewnol a statud Deddf yr Iaith Gymraeg sy'n gwneud siaradwyr Cymraeg yn ofynnol mewn sawl swydd gyflogedig.

Tabl 4.13: Personau 16 oed neu'n hyn mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yng nghefn gwlad Cymru – yn ôl sector, 2004

| | Gallu siarad Cymraeg |
|---|---|
| Sector cyhoeddus | 52% |
| Sector preifat | 39% |
| Cyfanswm y gweithlu | 43% |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yng Nghymru, 2004


Cadarnheir y canfyddiadau hyn gan ddata Arsyllfa Wledig Cymru o'r arolwg o gartrefi yn 2004. Yn ôl y ffynhonnell hon, mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol o weithio yn y sector cyhoeddus nag yn y sector preifat neu'r sector gwirfoddol. Mae 37% o weithwyr y sector cyhoeddus yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n eithaf da, o'i gymharu â 29% o'r rhai yn y sector preifat a 21% o weithwyr sy'n gweithio i sefydliadau yn y sector gwirfoddol.

Ymddengys nad oes gan synnwyr o 'hunaniaeth' Gymreig unrhyw effaith ar sector cyflogaeth. Mae cyfraddau tebyg o bobl yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn diffinio'u hunain fel Cymru, Prydeinwyr a Saeson. Yn yr un modd, cafodd y lle y gwnaeth yr ymatebwyr dreulio rhan fwyaf eu bywydau a'r cyfnod preswylio yn eu heiddo presennol ychydig iawn o effaith ar sector cyflogaeth.

## 4.6 Galwedigaeth

Mae ffigur 4.14 isod yn dangos y cyferbyniad rhwng galwedigaethau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yng nghefn gwlad Cymru. Dim ond un o'r naw categori – 'galwedigaethau elfennol' – sy'n cyfrif am gyfradd debyg (o fewn 5%) o'r gweithlu yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Caiff pedwar categori galwedigaeth eu dominyddu gan y sector cyhoeddus: 'galwedigaethau gwasanaeth personol', 'gweinyddol ac ysgrifenyddol', 'proffesiynol cysylltiol' a 'galwedigaethau technegol a phroffesiynol'. Mae'r gwahaniaeth mwyaf rhwng sectorau ymysg y galwedigaethau 'uwch', sef 'proffesiynol cysylltiol a thechnegol' (24% o weithlu'r sector cyhoeddus ac 8% yn y sector preifat) a 'galwedigaethau proffesiynol' (23% yn y sector cyhoeddus a 6% o weithlu'r sector preifat).

Ffigur 4.14: Galwedigaeth personau 16 oed neu'n hyn yng Nghefn Gwlad Cymru yn ôl sector, 2004




Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yng Nghymru, 2004

O fewn y sector preifat, mae galwedigaethau sgiliau is yn cyfrif am gyfran fwy o'r swyddi, sef: 'galwedigaethau elfennol', 'gweithredwyr prosesau, ffatrïoedd a pheiriannau', 'gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid' a 'chrefftau medrus'. Fodd bynnag, mae 'rheolwyr ac uwch swyddogion' yn llawer mwy amlwg yn y sector preifat, gan gyfrif am 15% o weithlu'r sector preifat, o'i gymharu â dim ond 6% yn y sector cyhoeddus.

Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth hon yn dangos y cyferbyniad yn strwythur y sector cyhoeddus a'r sector preifat ac yn amlygu'r peryglon sydd o wneud cymariaethau eang rhwng cyflogaeth y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Tabl 4.15: Galwedigaeth personau 16 oed neu'n hyn yng Nghymru yn ôl math o ardal a sector, 2004 (canrannau)

| | Sector cyhoeddus | | Sector preifat | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwledig | Anwledig | Gwledig | Anwledig |
| Rheolwyr ac Uwch Swyddogion | 6 | 7 | 15 | 15 |
| Galwedigaethau Proffesiynol | 23 | 22 | 6 | 6 |
| Proffesiynol Cysylltiol a Thechnegol | 24 | 24 | 8 | 9 |
| Gweinyddol ac Ysgrifenyddol | 18 | 20 | 9 | 10 |
| Galwedigaethau Crefftau Medrus | 3 | 3 | 22 | 14 |
| Galwedigaethau Gwasanaeth Personol | 15 | 13 | 6 | 5 |
| Galwedigaethau Gwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid | 1 | 1 | 9 | 12 |
| Gweithredwyr Prosesau, Ffatrïoedd a Pheiriannau | 1 | 1 | 10 | 14 |
| Galwedigaethau Elfennol | 9 | 9 | 14 | 13 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yng Nghymru, 2004

Mae'r tabl uchod yn dangos pa mor debyg yw galwedigaethau yn y sector cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig ac anwledig yng Nghymru. Mae hyn yn awgrymu bod yna hierarchaeth alwedigaethol sy'n go safonol yn y sector cyhoeddus, nad yw'n ystyried daearyddiaeth. Mae llawer mwy o amrywiad rhwng galwedigaethau mewn ardaloedd gwledig ac anwledig yn y sector preifat. Mae gweithlu'r sector preifat yng nghefn gwlad Cymru yn cynnwys cyfran fwy o 'alwedigaethau crefftau medrus' a chyfran lai wedi'u cyflogi mewn 'galwedigaethau gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid' a 'gweithredwyr prosesau, ffatrïoedd a pheiriannau' nag yn y cymoedd ac ardaloedd trefol. Mae hyn yn awgrymu, er bod strwythur marchnad lafur y sector preifat yng nghefn gwlad Cymru yn wahanol i farchnad lafur gyffredinol Cymru, bod y sector cyhoeddus yn gymharol unffurf ar draws Cymru.

### 4.7 Dosbarth cymdeithasol

Mae gweithwyr y sector cyhoeddus yn fwy tebygol o berthyn i ddosbarth cymdeithasol uwch na'r rhai yn y sector preifat. Mae'r arolwg o gartrefi gan AWC (2004) yn dangos bod 30% o weithwyr y sector cyhoeddus yn byw mewn cartrefi y'u dosberthir yn nosbarth cymdeithasol AB o'i gymharu â 18% o'r rhai yn y sector preifat. Pennir y graddau cymdeithasol hyn – a ddiffinnir fel dosbarth canol uwch a dosbarth canol – ar sail galwedigaeth (gweler y tabl isod). Mae'r sector cyhoeddus yn cynnwys cyfran uwch o unigolion mewn galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol na'r sector preifat yng nghefn gwlad Cymru.

Tabl 4.16: Dosbarth cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru o fewn y sector cyhoeddus a'r sector preifat

<table>
<tr><th>Gradd Gymdeithasol</th><th>Statws Cymdeithasol</th><th>Galwedigaeth</th><th>Sector cyhoeddus (%)</th><th>Sector Preifat (%)</th></tr>
<tr><td>A</td><td>Dosbarth canol uwch</td><td>Rheoli, gweinyddol neu broffesiynol uwch</td><td rowspan="2">29.8</td><td rowspan="2">17.8</td></tr>
<tr><td>B</td><td>Dosbarth canol</td><td>Rheoli, gweinyddol neu broffesiynol canolig</td></tr>
<tr><td>C1</td><td>Dosbarth canol is</td><td>Goruchwylio neu glerigol, rheoli, gweinyddol neu broffesiynol is</td><td>34.3</td><td>44.3</td></tr>
<tr><td>C2</td><td>Dosbarth gweithiol medrus</td><td>Gweithwyr llaw medrus</td><td>35.1</td><td>21.1</td></tr>
<tr><td>D</td><td>Dosbarth gweithiol</td><td>Gweithwyr llaw lled-fedrus a heb fedrau</td><td rowspan="2">12.7</td><td rowspan="2">4.8</td></tr>
<tr><td>E</td><td>Lefel cynhaliaeth isaf</td><td>Pensiynwyr y wladwriaeth neu weddwon, gweithwyr achlysurol neu'r radd isaf</td></tr>
</table>

Ffynhonnell: Arsyllfa Wledig Cymru, 2004

## 4.8 Diwydiant cyflogaeth

Mae i gyflogaeth yn y sector cyhoeddus amrediad anghyfartal o fathau o ddiwydiant[8]. Yn fwyaf cyffredin, disgrifir bod i'r sector cyhoeddus dri phrif gategori gweithgarwch (yn ôl y Dosbarthiad Diwydiannol Safonol): gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn a nawdd cymdeithasol gorfodol, addysg, ac iechyd a gwaith cymdeithasol.


Yng nghefn gwlad Cymru, mae 89% o weithwyr y sector cyhoeddus wedi'u cyflogi mewn addysg (30%), iechyd a gwaith cymdeithasol (29%) a gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn (26%). Mae'r sectorau hyn yn cyfrif am 11% yn unig o weithlu'r sector preifat, ac mae mwyafrif y rheiny wedi'u cyflogi mewn iechyd a gwaith cymdeithasol. Mae un deg pedwar y cant o weithlu'r sector cyhoeddus wedi'u cyflogi mewn 'diwydiannau eraill'. Tybir y caiff cyfran arwyddocaol o weithwyr o'r fath eu cyflogi mewn cyrff cyhoeddus fel y Post Brenhinol a'r BBC.

Mae amlygrwydd y tri grwp diwydiant hyn o fewn y sector cyhoeddus yn amrywio ar draws Cymru. Mae addysg yn cyfrif am 30% o'r gweithlu yng nghefn gwlad Cymru,

[8] Fel y nodwyd yn adran 2.4, mae 'diwydiant' yn berthnasol i grwpiau'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol.

ond dim ond am 23% yn ardal y Cymoedd, tra bo gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn yn llawer mwy amlwg yn ardaloedd anwledig Cymru (29% mewn ardaloedd anwledig a 26% mewn ardaloedd gwledig). Mae cyfran debyg o'r gweithlu wedi'u cyflogi ym maes 'iechyd a gwaith cymdeithasol' mewn ardaloedd gwledig ac anwledig.

Ffigur 4.17: Cyfran gweithlu'r sector cyhoeddus a gyflogir yn y tri sector diwydiant




Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yng Nghymru, 2004

Mae arolwg AWC o gartrefi yn dangos bod bron i dri-chwarter gweithwyr y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru yn gweithio yn 'nhri diwydiant y sector cyhoeddus'. Mae wyth ar hugain y cant o weithwyr y sector cyhoeddus yn nodi mai 'gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn' yw diwydiant eu cyflogaeth, mae 23% yn gweithio mewn 'addysg' ac mae 21% wedi'u cyflogi ym maes 'iechyd a gwaith cymdeithasol'.

Mae'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol yn ei gwneud yn glir bod y dosbarthiadau 'addysg' ac 'iechyd a gwaith cymdeithasol' yn cynnwys gweithwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Ar y cyfan, tybir bod 'gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn' yn cynnwys gweithwyr sy'n seiliedig yn y sector cyhoeddus gan mwyaf. Mae arolwg AWC yn dangos bod ychydig dros hanner (53%) y rhai sy'n gweithio mewn 'gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn' yn nodi eu bod yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Mae addysg wedi'i rannu'n gyfartal rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat hefyd (52% a 47% yn ôl eu trefn), tra bo ychydig dros draean o'r rhai sy'n gweithio ym maes 'iechyd a gwaith cymdeithasol' yn ystyried eu bod yn gweithio i gorff yn y sector cyhoeddus.

Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar weithwyr yn nodi eu sector cyflogaeth eu hunain, ac felly mae'n annhebygol eu bod yn union gywir. Fodd bynnag, maent yn

awgrymu bod gweithwyr y sector preifat yn cyfrif am gyfran helaeth o'r meysydd yr ystyriwyd yn draddodiadol eu bod yn y sector cyhoeddus.

Tabl 4.18: Sector gweithwyr yn nhri diwydiant y sector cyhoeddus

| | **Cyhoeddus** | **Preifat** | **Gwirfoddol** |
|---|---|---|---|
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn | 54% | 45% | 2% |
| Addysg | 52% | 47% | 2% |
| Iechyd a gwaith cymdeithasol | 37% | 61% | 2% |

Ffynhonnell: Arsyllfa Wledig Cymru, 2004

## ADRAN 5: NEWID YNG NGHYFANSWM CYFLOGAETH Y SECTOR CYHOEDDUS 2000-2004

Mae'r bennod hon yn trafod newidiadau yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth yng nghefn gwlad Cymru dros y pedair blynedd diwethaf. Mae diffyg data cywir ar draws cyfnodau hirach yn rhwystro gallu cymharu cyn 2000 (fel yr esboniwyd yn adran 2.4). Mae adran 5.1 rhoi trosolwg hanesyddol bras o batrymau yn nosbarthiad cyflogaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat ers 1979, 'uchafbwynt' cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ym Mhrydain. Mae adran 5.2 yn ystyried newidiadau yn niferoedd gweithwyr yn y sector cyhoeddus ar draws cefn gwlad Cymru rhwng 2001 a 2004. Mae adran 5.3 yn ystyried effaith newidiadau yn niferoedd y gweithwyr ar faint cymharol gweithlu'r sector cyhoeddus ar draws cefn gwlad Cymru. Mae adran 5.4 yn cymharu'r newidiadau yng nghefn gwlad Cymru â newidiadau mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae adran 5.5 yn ymchwilio i amrywiadau daearyddol yn arwyddocâd newidiol cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru. Mae pob adran yn dechrau gyda chrynodeb o batrymau allweddol ac yna'n symud ymlaen at drafodaeth fanylach o'r data a gyflwynir yn y tablau.

Oni nodir yn wahanol, mae'r data yn y tablau wedi'u tynnu o'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol ar gyfer y blynyddoedd 2001 – 2004, yr unig flynyddoedd y mae ffigurau ar gael ar eu cyfer. Fel y trafodwyd yn y bennod ar ffynonellau data a chasglu data, mae'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yn talgrynnu pob ffigur i'r fil agosaf. O ganlyniad, mewn rhai achosion bydd niferoedd gweithwyr y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn fwy na 'chyfanswm y gweithwyr'. Lle bo hyn yn digwydd, a lle bo gwahaniaethau neu broblemau eraill gyda'r data, amlygir hyn yn y testun. Nid oes ffigurau ar wahân ar gyfer cyflogaeth yn y sector gwirfoddol; ar y cyfan rhoddir gweithwyr sydd wedi'u seilio yn y sector gwirfoddol yn yr un grwp â gweithwyr y sector preifat. Mae'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yn defnyddio man preswyl gweithwyr, yn hytrach na man cyflogaeth.

### 5.1 Trosolwg hanesyddol o batrymau cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ers 1979

Am gyfran helaeth o'r pum mlynedd ar hugain diwethaf, mae cyfran cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o gyfanswm cyflogaeth yn y DU wedi gostwng yn sylweddol[9]. Yn 1979, roedd y sector cyhoeddus yn cyfrif am 7.5 miliwn o swyddi allan o gyfanswm o 26.1 miliwn o swyddi'r gweithlu; erbyn 1998, roedd yn cyfrif am 4.9 miliwn o swyddi allan o gyfanswm o 27.6 miliwn o swyddi'r gweithlu. Rhwng 1991 ac 1998, gostyngodd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus bob blwyddyn. Yn fwy diweddar, bu rhywfaint o newid mewn cyflogaeth. Dros y saith mlynedd diwethaf – o ail chwarter 1998 hyd fis Mawrth 2005 – mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus wedi cynyddu'n gyson, ac ychwanegwyd 658,000 o swyddi yn ystod y cyfnod hwn – cynnydd o 11% – er bod lefelau cyflogaeth yn dal i fod yn llawer is nag yn 1979, sef 5.45 miliwn. Rhwng 1999 a 2000, roedd y twf yn swyddi'r sector preifat yn dal i fod yn uwch na'r twf yn swyddi'r sector cyhoeddus, a olygai bod arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn parhau i ostwng o ran ei gyfraniad cyffredinol i gyflogaeth. Fodd bynnag, gan dynnu ar ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae'r Sefydliad

[9] Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ffigurau yn adran 5.1 wedi'u tynnu o'r bwletin cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 15 Gorffennaf, 2005 a Hicks et al., (2005).

Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) wedi awgrymu mai'r sector cyhoeddus yw prif faes twf cyflogaeth yn y DU ers 2001.

Mae twf diweddar mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus wedi bod yn fwy amlwg mewn rhai diwydiannau nag mewn eraill. Ers 1997, pan ddaeth y Llywodraeth bresennol i rym, mae twf yn niferoedd staff y GIG (22%) a staff a gyflogir mewn addysg (18%) wedi bod yn llawer mwy na'r twf yn y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd. Bu cynnydd sylweddol hefyd yn staff y gwasanaeth sifil (13%) a staff a gyflogir mewn gweinyddiaeth gyhoeddus (9%). Rhwng 2004 a 2005, iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, addysg, gweinyddiaeth gyhoeddus a'r heddlu welodd y cynnydd mwyaf. Yn yr un cyfnod, gostyngodd cyflogaeth yn y gwasanaeth sifil ac ym mis Medi 2004, cyhoeddodd y Llywodraeth ei fod yn bwriadu torri 104,000 arall o swyddi'r gwasanaeth sifil, yn bennaf mewn swyddfeydd nawdd cymdeithasol a chanolfannau gwaith.

Dylid ystyried ffigurau a'r dadansoddiad a gyflwynir yng ngweddill y bennod hon yn erbyn y cefndir hanesyddol hwn.

## 5.2 Newidiadau yn niferoedd gweithwyr y sector cyhoeddus a'r sector preifat, 2001-2004

Dros y tair blynedd diwethaf, ar draws cefn gwlad Cymru, mae niferoedd y gweithwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat wedi cynyddu. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r sector preifat wedi parhau'n brif gyflogwr. Fodd bynnag, mae niferoedd y gweithwyr yn y sector cyhoeddus wedi cynyddu dair gwaith gymaint â niferoedd y gweithwyr yn y sector preifat. Felly, mae'r sector cyhoeddus wedi bod yn ffynhonnell bwysig i dwf cyflogaeth cyffredinol ar draws cefn gwlad Cymru, yn darparu hanner cyfanswm y cynyddiadau mewn swyddi.

Mae tabl 5.1 yn dangos newidiadau absoliwt a newidiadau canran yng nghyflogaeth y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar draws cefn gwlad Cymru rhwng 2001 a 2004. Dylid cofio bod y ffigurau a ddefnyddiwyd i greu'r data yn y tabl hwn eisoes wedi'u talgrynnu i'r '000 agosaf.

Tabl 5.1: Newidiadau yng nghyflogaeth y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar draws cefn gwlad Cymru, 2001-2004

| | #2001 | #2004 | # newid 2001-2004 | % newid 2001-2004 | % newid blynyddol 2001-2004 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogaeth yn y Sector Cyhoeddus | 111,000 | 121,000 | +10,000 | 9.0 | 3.0 |
| Cyflogaeth yn y Sector Preifat | 299,000 | 309,000 | +10,000 | 3.3 | 1.1 |
| Pob Cyflogaeth[10] | 409,000 | 431,000 | +22,000 | 5.4 | 1.8 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Rhwng 2001 a 2004, cynyddodd nifer gweithwyr y sector cyhoeddus ar draws cefn gwlad Cymru gan 10,000, sef o 111,000 i 121,000. Golygai hyn gynnydd cyffredinol

[10] Mae'r ffigurau a ddarperir yn yr Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol wedi'u talgrynnu i'r fil agosaf. O ganlyniad, nid yw cyfanswm pob cyflogaeth yn hafal i nifer cyflogaeth y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

o 9.0% dros y cyfnod tair blynedd. Yn ystod yr un tair blynedd, cynyddodd nifer gweithwyr y sector preifat ar draws cefn gwlad Cymru hefyd gan 10,000, sef o 229,000 i 309,000. Oherwydd bod y sector preifat yn agos at dair gwaith yn fwy na'r sector cyhoeddus, mae'r cynnydd unfath hwn yn y niferoedd yn trosi i gyfradd twf llawer is, sef 3.0%. Cyfradd twf blynyddol cyfartalog cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ar draws cefn gwlad Cymru rhwng 2001 a 2004 oedd 3.0% o'i gymharu ag 1.1 % yn y sector preifat.

### 5.3 Newid yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, 2001-2004

Fel y dengys tabl 5.2, mae twf cymharol gryf y sector cyhoeddus a thwf cymharol wan y sector preifat rhwng 2001 a 2004 wedi cael ychydig iawn o effaith cyffredinol ar arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ar draws cefn gwlad Cymru. Mae hyn yn sgil y gwahaniaeth mawr ym maint y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Yn 2001, roedd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn cyfrif am 27.1% o'r holl gyflogaeth mewn ardaloedd gwledig; yn 2004, roedd yn cyfrif am 28.1%, sef cynnydd o 1.0% yn unig dros y cyfnod. O ganlyniad, mae mwyafrif y gweithwyr yng nghefn gwlad Cymru yn gweithio yn y sector preifat. Mae tabl 5.5 yn cyflwyno data ar y newid ym maint cyflogaeth y sector cyhoeddus a'r sector preifat fel cyfran o gyfanswm cyflogaeth mewn ardaloedd anwledig yng Nghymru.

Tabl 5.2: Arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i gyfanswm cyflogaeth yng nghefn gwlad Cymru, 2001 a 2004

| Sector cyflogaeth | 2001 | 2004 | 2001-2004 |
|---|---|---|---|
| Cyflogaeth yn y Sector Cyhoeddus % | 27.1 | 28.1 | 1.0 |
| Cyflogaeth yn y Sector Preifat % | 82.9 | 81.9 | -1.0 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

### 5.4 Cymharu'r newid yng nghefn gwlad Cymru ag ardaloedd eraill yng Nghymru

Mae twf diweddar mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus wedi bod yn wannach yng nghefn gwlad Cymru nag yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill yng Nghymru. Yn ystod yr un cyfnod, bu twf cyflogaeth yn y sector preifat yn gryfach yng nghefn gwlad Cymru nag mewn mannau eraill. O ganlyniad, mae twf cyflogaeth yn y sector cyhoeddus rhwng 2001 a 2004 wedi cael llai o effaith ar arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru nag y mae mewn mannau eraill yng Nghymru.

Mae tabl 5.3 yn dangos newidiadau absoliwt a newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ar draws cefn gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill rhwng 2001 a 2004.

Tabl 5.3: Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill, 2001-2004

| **Ardal ddaearyddol** | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus # 2001** | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus # 2004** | **# newid 2001-2004** | **% newid 2001-2004** | **% newid blynyddol cyfartalog** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefn Gwlad Cymru | 111,000 | 121,000 | +10,000 | 9.0 | 3.0 |
| Y Gymru Drefol | 83,000 | 92000 | +9,000 | 10.8 | 3.6 |
| Y Cymoedd | 92,000 | 102,000 | +10,000 | 10.9 | 3.6 |
| Ardaloedd Eraill | 44,000 | 48,000 | +4,000 | 9.1 | 3.0 |
| *Cymru Gyfan* | *329,00* | *364,000* | *35,000* | *10.6* | *3.5* |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae nifer gweithwyr y sector cyhoeddus wedi cynyddu ar draws Cymru Gyfan. Roedd twf cyflogaeth yn is yng nghefn gwlad Cymru nag oedd yn y Gymru Drefol ac yn y Cymoedd a'r un peth ag yr oedd mewn Ardaloedd Eraill. Rhwng 2001 a 2004, roedd cyfradd twf blynyddol cyfartalog cyflogaeth yn y sector cyhoeddus 20% yn is mewn ardaloedd gwledig nag oedd yn y Gymru Drefol ac yn y Cymoedd – 3.0% o'i gymharu â 3.6%. Fodd bynnag, mae cyfradd cyfanswm gweithlu llafur y sector cyhoeddus sy'n byw mewn ardaloedd gwledig wedi aros yn debyg iawn dros y cyfnod, ac wedi gostwng 0.2% yn unig (o 33.4% i 33.2%).

Mae tabl 5.4 yn dangos newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector preifat ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill rhwng 2001 a 2004.

Tabl 5.4: Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector preifat ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill, 2001-2004

| **Ardal ddaearyddol** | **Cyflogaeth yn y sector preifat # 2001** | **Cyflogaeth yn y sector preifat # 2004** | **# newid 2001-2004** | **% newid 2001-2004** | **% newid blynyddol cyfartalog** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefn Gwlad Cymru | 299,000 | 309,000 | +10,000 | 3.3 | 1.1 |
| Y Gymru Drefol | 208,000 | 206,000 | -2,000 | -1.0 | -0.3 |
| Y Cymoedd | 254,000 | 258,000 | +4,000 | 1.6 | 0.5 |
| Ardaloedd Eraill | 139,000 | 143,000 | +4,000 | 2.9 | 1.0 |
| *Cymru Gyfan* | *900,000* | *918,000* | *+18,000* | *2.0* | *0.7* |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Tra bo twf cyflogaeth yn y sector preifat yng nghefn gwlad Cymru yn wan o'i gymharu â'r sector cyhoeddus, mae'n dal i fod gryn dipyn yn uwch nag yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill Cymru. Rhwng 2001 a 2004, roedd twf blynyddol cyfartalog

yn y Cymoedd yn llai na hanner y twf blynyddol cyfartalog mewn ardaloedd gwledig. Ar draws y Gymru Drefol, cwympodd nifer y bobl a gyflogir yn y sector preifat gan 2,000, sef gostyngiad cyffredinol o 1.0% a gostyngiad blynyddol cyfartalog o 0.3%.

O ganlyniad, fel y dengys tabl 5.5 (isod), mae twf cyflogaeth yn y sector cyhoeddus rhwng 2001 a 2004 wedi cael llai o effaith ar arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru nag y mae mewn mannau eraill yng Nghymru. Mae'r newid ym maint cymharol gweithlu llafur y sector cyhoeddus wedi bod fwyaf amlwg yn y Gymru drefol, lle cododd o 28.4% i 30.8%, sef cyfradd cynnydd (2.4%) sydd ryw 2.5 gwaith yn fwy na'r gyfradd cynnydd yng nghefn gwlad Cymru.

Tabl 5.5: Arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth yn 2001 a 2004

| Ardal ddaearyddol | % 2001 | % 2004 | % newid 2001-2004 |
|---|---|---|---|
| Cefn Gwlad Cymru | 27.1 | 28.1 | 1.0 |
| Y Gymru Drefol | 28.4 | 30.8 | 2.4 |
| Y Cymoedd | 26.4 | 28.1 | 1.7 |
| Ardaloedd Eraill | 24.0 | 25.3 | 1.3 |
| *Cymru Gyfan* | 26.8 | 28.4 | 1.6 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Mae tabl 5.6 yn dangos newidiadau ym mhob cyflogaeth ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill rhwng 2001 a 2004. Gan fod y data o'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol a ddefnyddiwyd yn y tabl hwn yn cynnwys gweithwyr 'di-ddosbarth' – sy'n cynrychioli ymatebwyr nad oeddent yn gallu cadarnhau a oeddent yn gweithio yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat – mewn rhai achosion gall y ffigurau ar gyfer cyfanswm cyflogaeth yn y tabl hwn fod yn fwy na swm y ffigurau ar gyfer cyflogaeth yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus a roddwyd mewn tablau blaenorol.

Tabl 5.6: Newidiadau ym mhob cyflogaeth ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill rhwng 2001 a 2004

| Ardal ddaearyddol | Pob cyflogaeth # 2001 | Pob cyflogaeth # 2004 | # newid 2001-2004 | % newid 2001-2004 | % newid blynyddol cyfartalog |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefn Gwlad Cymru | 409,000 | 431,000 | +22,000 | 5.4 | 1.8 |
| Y Gymru Drefol | 292,000 | 299,000 | +7,000 | 2.4 | 0.8 |
| Y Cymoedd | 349,000 | 363,000 | +14,000 | 4.0 | 1.3 |
| Ardaloedd Eraill | 183,000 | 190,000 | 7,000 | 3.8 | 1.3 |
| *Cymru Gyfan* | *1,234,000* | *1,281,000* | *+47,000* | *3.8* | *1.3* |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Mae tabl 5.7 yn defnyddio data o'r tri thabl blaenorol i gymharu % y newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a phob cyflogaeth, 2001-2004.

Tabl: 5.7: % newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a phob cyflogaeth, 2001-2004

| **Sector cyflogaeth** | | Cefn Gwlad Cymru | Y Gymru Drefol | Y Cymoedd | Ardaloedd Eraill | *Cymru Gyfan* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyhoeddus | % newid 2001-4 | 9.0 | 10.8 | 10.9 | 9.1 | 10.6 |
| | % newid blynyddol | 3.0 | 3.6 | 3.6 | 3.0 | 3.5 |
| Preifat | % newid 2001-4 | 3.3 | -1.0 | 1.6 | 2.9 | 2.0 |
| | % newid blynyddol | 1.1 | -0.3 | 0.5 | 1.0 | 0.7 |
| Pob cyflogaeth | % newid 2001-4 | 5.4 | 2.4 | 4.0 | 3.8 | 3.8 |
| | % newid blynyddol | 1.8 | *0.8* | *1.3* | *1.3* | *1.3* |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae saith o'r naw awdurdod unedol gwledig – Sir Fôn, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd a Sir Benfro mewn ardaloedd Amcan 1 yng Nghymru. Rhwng 2001 a 2004 (tair blynedd gyntaf rhaglen Amcan 1) gwelodd ardal Amcan 1 yn gyffredinol – gorllewin Cymru a'r Cymoedd – gynnydd mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o'i gymharu â chyflogaeth yn y sector preifat. Yn ystod yr un cyfnod, gwelodd awdurdodau lleol y tu allan i ardal Amcan 1 – o'u hystyried gyda'i gilydd – ostyngiad mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o'i gymharu â chyflogaeth yn y sector preifat. Mae tabl 5.8 (isod) yn dangos y newid yn nosbarthiad gweithwyr rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ardal Amcan 1 a'r tu allan iddi.

Tabl 5.8: Canran y gweithlu sydd wedi'u cyflogi yn y sector cyhoeddus yn ardal Amcan 1, sef gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a'r tu allan iddi (rhanbarthau NUTS 2). Ffigurau 2001 a 2004

| | **2001** | **2004** |
|---|---|---|
| **Amcan 1** | 27.9% | 29.7% |
| **Y tu allan i Amcan 1** | 24.9% | 24.5% |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

### 5.5 Archwilio amrywiad daearyddol mewn newid

Tra bo'r sector cyhoeddus yn un o brif ffynonellau twf cyflogaeth ar draws cefn gwlad Cymru o'i ystyried gyda'i gilydd, mae ei arwyddocâd yn amrywio'n ddaearyddol. Mae rhai ardaloedd awdurdodau unedol gwledig wedi gweld cryn gynnydd mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus; mae eraill wedi gweld llawer llai o dwf, tra bod dau wedi gweld y niferoedd a gyflogir yn aros yr un peth, ac un ardal awdurdod unedol wedi gweld gostyngiad mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Mae amrediad yr amrywiant yng nghanran y twf rhwng 2001 a 2004 yn agos at 40%.

Mae tabl 5.9 yn dangos newidiadau absoliwt a newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ym mhob un o'r naw ardal awdurdod unedol 'gwledig' rhwng 2001 a 2004 yn ôl eu trefn.

Tabl 5.9: Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, newidiadau absoliwt a newidiadau canran, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf)

| Ardal weinyddol | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus # 2001** | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus # 2004** | **# newid 2001-2004** | **% newid 2001-2004** | **% newid blynyddol cyfartalog** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 14,000 | 18,000 | 4,000 | 28.6 | 9.5 |
| Sir Ddinbych | 11,000 | 13,000 | 2,000 | 18.2 | 6.1 |
| Powys | 13,000 | 15,000 | 2,000 | 15.4 | 5.1 |
| Ceredigion | 10,000 | 11,000 | 1,000 | 10.0 | 3.3 |
| Conwy | 11,000 | 12,000 | 1,000 | 9.1 | 3.0 |
| Sir Benfro | 11,000 | 12,000 | 1,000 | 9.1 | 3.0 |
| Sir Fôn | 8,000 | 8,000 | 0 | 0.0 | 0.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 23,000 | 23,000 | 0 | 0.0 | 0.0 |
| Sir Fynwy | 10,000 | 9,000 | -1,000 | -10.0 | -3.3 |
| **Cefn Gwlad Cymru** | **111,000** | **121,000** | **10,000** | **9.0** | **3.0** |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Gwynedd brofodd y twf absoliwt mwyaf a'r gyfradd twf mwyaf (% newid); rhwng 2001 a 2004, cododd nifer y bobl a gyflogir yn y sector cyhoeddus gan 4,000, sef o 14,000 i 18,000. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli twf o dros chwarter (28.6%) dros y cyfnod tair blynedd, a chyfradd twf blynyddol cyfartalog sy'n agos at 10%. Mae'r cyfraddau twf hyn dros un rhan o dair yn uwch nag unrhyw sir wledig arall. Gwelodd Sir Ddinbych a Phowys hefyd dwf absoliwt mawr a chyfraddau twf uchel. Mae cynyddiadau yn niferoedd gweithwyr y sector cyhoeddus o 2,000 ym mhob achos gyfystyr â thwf o 18.2% dros y cyfnod tair blynedd yn Sir Ddinbych a 15.4% ym Mhowys. 6.1% a 5.1 % oedd y cyfraddau twf blynyddol cyfartalog yn ôl eu trefn.

Yn llwyr i'r gwrthwyneb, ni welodd Sir Gaerfyrddin na Sir Fôn unrhyw dwf o gwbl yn ystod y cyfnod hwn. Yn Sir Fynwy, yn amlycach fyth, gostyngodd nifer y bobl a gyflogir yn y sector cyhoeddus. 1,000 oedd y gostyngiad absoliwt, sef o 10,000 i 9,000, sy'n cynrychioli gostyngiad 10% dros y tair blynedd a gostyngiad blynyddol cyfartalog o 3.3%.

I raddau cyfyngedig, newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yw gwrthwyneb newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector preifat. Mae tabl 5.10 yn dangos newidiadau absoliwt a newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector preifat ar draws pob un o'r naw ardal awdurdod unedol 'gwledig' rhwng 2001 a 2004 yn ôl eu trefn. Mae tabl 5.11 yn dangos y newidiadau % mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn y naw ardal awdurdod unedol 'gwledig' rhwng 2001 a 2004.

Tabl 5.10: Cyflogaeth yn y sector preifat, newidiadau absoliwt a newidiadau canran, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf)

| **Ardal weinyddol** | **Cyflogaeth yn y sector preifat # 2001** | **Cyflogaeth yn y sector preifat # 2004** | **# newid 2001-2004** | **% newid 2001-2004** | **% newid blynyddol cyfartalog** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ceredigion | 22,000 | 24,000 | 2,000 | 9.1 | 3.0 |
| Sir Benfro | 34,000 | 37,000 | 3,000 | 8.8 | 2.9 |
| Sir Fynwy | 30,000 | 32,000 | 2,000 | 6.7 | 2.2 |
| Sir Fôn | 20,000 | 21,000 | 1,000 | 5.0 | 1.7 |
| Sir Gaerfyrddin | 46,000 | 48,000 | 2,000 | 4.3 | 1.4 |
| Conwy | 35,000 | 36,000 | 1,000 | 2.9 | 1.0 |
| Gwynedd | 35,000 | 35,000 | 0 | 0.0 | 0.0 |
| Sir Ddinbych | 30,000 | 30,000 | 0 | 0.0 | 0.0 |
| Powys | 47,000 | 46,000 | -1,000 | -2.1 | -0.7 |
| **Cefn Gwlad Cymru** | **299,000** | **309,000** | **10,000** | **3.3** | **1.1** |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Tabl 5.11: % newidiadau mewn cyflogaeth, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004

| Ardal weinyddol | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus % newid 2001-2004** | **Cyflogaeth yn y sector preifat % newid 2001-2004** |
|---|---|---|
| Gwynedd | 28.6 | 0.0 |
| Sir Ddinbych | 18.2 | 0.0 |
| Powys | 15.4 | -2.1 |
| Ceredigion | 10.0 | 9.1 |
| Conwy | 9.1 | 2.9 |
| Sir Benfro | 9.1 | 8.8 |
| Sir Fôn | 0.0 | 5.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0.0 | 4.3 |
| Sir Fynwy | -10.0 | 6.7 |
| **Cefn Gwlad Cymru** | **9.0** | **3.3** |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Y tair sir a welodd y cyfraddau uchaf ar gyfer twf mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus (Gwynedd, Sir Ddinbych a Phowys) yw'r tair sir na welodd unrhyw dwf mewn cyflogaeth yn y sector preifat, ac mewn un achos gwelwyd gostyngiad absoliwt a gostyngiad canran. Gwelodd y tair sir (Sir Fôn, Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy) na welodd unrhyw gynnydd na gostyngiad mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus rhwng 2001 a 2004, beth cynnydd mewn cyflogaeth yn y sector preifat dros yr un cyfnod. Fodd bynnag, roedd y cyfraddau twf uchaf ar gyfer cyflogaeth yn y sector preifat yn y ddwy sir (Ceredigion a Sir Benfro) a welodd hefyd dwf mwy na'r cyfartaledd mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Ar ben hynny, fel y dengys tabl

5.11 (uchod), mae newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector preifat yn dangos llawer llai o amrywiad daearyddol na newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus.

Mae'r canfyddiad hwn yn arwyddocaol am ei fod yn gwrth-ddweud – neu o leiaf yn wrthgyferbyniad i – ddadleuon bod perthynas wrthdro rhwng cyflogaeth yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Fel y trafodwyd yng nghyflwyniad yr adroddiad hwn, mae rhai astudiaethau academaidd o'r berthynas rhwng cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat wedi awgrymu bod lefelau uchel o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn debygol o 'dyrru allan' cyflogaeth yn y sector preifat. Mae'r un astudiaethau hefyd wedi awgrymu bod lefelau isel o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn debygol o ysgogi twf cyflogaeth yn y sector preifat. Fodd bynnag, mae'r data a gyflwynwyd yn nhabl 5.11 yn awgrymu nad yw unrhyw berthynas rhwng cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yng nghefn gwlad Cymru mor syml o bell ffordd. Ymddengys nad oes llawer o gydberthynas – positif neu wrthdro – rhwng y niferoedd a gyflogir yn y sector cyhoeddus a'r niferoedd a gyflogir yn y sector preifat.

Mae tabl 5.12 yn dangos newidiadau ym mhob cyflogaeth ac mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a chanran y newidiadau ym mhob cyflogaeth y cyfrifir amdanynt gan gyflogaeth yn y sector cyhoeddus ym mhob un o'r naw ardal awdurdod unedol gwledig rhwng 2001 a 2004 yn ôl eu trefn.

Tabl 5.12: Newidiadau ym mhob cyflogaeth a chyflogaeth yn y sector cyhoeddus a % newid y cyfrifir amdano gan y sector cyhoeddus, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf)

| Ardal weinyddol | **# newid pob cyflogaeth 2001-2004** | **# newid cyflogaeth yn y sector cyhoeddus 2001-2004** | **% cyfraniad y sector cyhoeddus i newid** |
|---|---|---|---|
| Ceredigion | 3,000 | 1,000 | 33.3 |
| Gwynedd | 4,000 | 4,000 | 100.0 |
| Sir Benfro | 3,000 | 1,000 | 33.3 |
| Sir Fynwy | 2,000 | -1,000 | (50.0) |
| Sir Ddinbych | 2,000 | 2,000 | 100.0 |
| Conwy | 2,000 | 1,000 | 50.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 3,000 | 0 | 0.0 |
| Sir Fôn | 1,000 | 0 | 0.0 |
| Powys | 2,000 | 2,000 | 100.0 |
| **Cefn Gwlad Cymru** | **22,000** | **10,000** | **45.5%** |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Yn y siroedd hynny lle mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat[11] wedi cynyddu, mae arwyddocâd y sector cyhoeddus i dwf cyffredinol cyflogaeth wedi bod yn amrywiol iawn. Yng Ngheredigion a Sir Benfro, mae twf cyflogaeth yn y sector cyhoeddus wedi cyfrannu at dwf cyffredinol cyflogaeth mewn perthynas â maint cymharol y sector cyhoeddus a'r sector preifat; mae'r sector cyhoeddus yn cyfrif am draean o'r holl dwf mewn cyflogaeth rhwng 2001 a 2004. Ar y llaw arall, yng

[11] Rhoddir cyflogaeth yn y sector gwirfoddol yn yr un grwp â chyflogaeth yn y sector preifat yn y cyd-destun hwn.

Nghonwy, Gwynedd a Sir Ddinbych, mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus wedi cyfrannu at dwf cyffredinol mewn cyflogaeth nad yw'n gymesur â maint cymharol y sector cyhoeddus a'r sector preifat; yng Ngwynedd a Sir Ddinbych, roedd y sector cyhoeddus yn cyfrif am 100% o'r holl dwf mewn cyflogaeth rhwng 2001 a 2004.

Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nodwyd bod newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus rhwng 2001 a 2004 ar draws cefn gwlad Cymru, o'i ystyried gyda'i gilydd, wedi cael ychydig iawn o effaith ar arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus; roedd dosbarthiad gweithwyr rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat wedi aros yn debyg iawn. Fodd bynnag, canlyniad amrywiad daearyddol mewn patrymau cyflogaeth yw bod dosbarthiad cyflogaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat wedi newid yn fwy nodedig mewn rhai ardaloedd.

Mae tabl 5.13 yn dangos arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth mewn ardaloedd awdurdodau unedol 'gwledig' yn 2001 a 2004 a chanran y newid dros y cyfnod tair blynedd hwn yn ôl eu trefn

Tabl 5.13: Arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth mewn ardaloedd awdurdodau unedol 'gwledig' yn 2001 a 2004 a % y newid 2001-4, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf)

| **Ardal ddaearyddol** | **% 2001** | **% 2004** | **% newid 2001-2004** |
|---|---|---|---|
| Gwynedd | 28.1 | 33.3 | 5.2 |
| Sir Ddinbych | 26.4 | 29.9 | 3.5 |
| Powys | 21.1 | 24.2 | 3.1 |
| Sir Fôn | 27.1 | 28.4 | 1.3 |
| Conwy | 23.3 | 24.2 | 0.9 |
| Sir Benfro | 24.9 | 25.1 | 0.2 |
| Ceredigion | 31.6 | 30.5 | -1.1 |
| Sir Gaerfyrddin | 33.6 | 32.3 | -1.3 |
| Sir Fynwy | 24.6 | 22.8 | -1.8 |
| **Cefn Gwlad Cymru** | **27.1** | **28.1** | **1.0** |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Mae'r newid amlycaf yng Ngwynedd, lle mae gweithlu llafur y sector cyhoeddus wedi cynyddu mewn maint, o'i gymharu â gweithlu llafur y sector preifat, gan 5.2% yn ystod y tair blynedd diwethaf. Rhwng 2001 a 2004, cynyddodd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng Ngwynedd o 28.1% o'r holl gyflogaeth i 33.3% o'r holl gyflogaeth, tra bo arwyddocâd cyflogaeth yn y sector preifat yn y sir, yn unol â hynny, wedi gostwng o 71.9% o'r holl gyflogaeth i 66.7% o'r holl gyflogaeth. Dros yr un cyfnod, gwelodd Sir Ddinbych a Phowys hefyd weithlu llafur y sector cyhoeddus yn ehangu'n sylweddol o'i gymharu â gweithlu llafur y sector preifat. Y tair sir yma welodd y twf mwyaf mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus allan o'r naw ardal awdurdod unedol gwledig.

Mewn cyferbyniad llwyr, gwelodd Sir Fynwy, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin weithlu llafur y sector cyhoeddus yn lleihau yn ystod yr un cyfnod. Roedd y newid ar ei amlycaf yn Sir Fynwy – y sir wledig lle mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus leiaf arwyddocaol – lle, rhwng 2001 a 2004 gostyngodd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o 24.6% o'r holl gyflogaeth i 22.8% o'r holl gyflogaeth. Fodd bynnag, nid yw'r newid

mor amlwg yn yr un o'r ardaloedd hyn ag y mae yn y tair sir lle mae dosbarthiad cyflogaeth wedi newid yn syfrdanol o blaid y sector cyhoeddus.

Un o ganlyniadau'r patrymau hyn yw bod amrywiad gofodol yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth yn ystod y pedair blynedd diwethaf wedi dod yn llai amlwg. Rhwng 2001 a 2004, gostyngodd amrediad yr amrywiad – rhwng y siroedd lle mae'r sector cyhoeddus yn cyfrif am y cyfraddau cyflogaeth mwyaf a lleiaf – o 12.5% i 10.5%.

**5.6 Newid yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn ôl rhyw**

Mae gweddill y bennod hon yn trafod newid yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus mewn perthynas â rhyw rhwng 2001 a 2004. Mae adran 5.7 yn edrych ar newidiadau yn niferoedd gweithwyr y sector cyhoeddus a'r sector preifat o fewn y gweithlu gwrywaidd a'r gweithlu benywaidd ar draws cefn gwlad Cymru rhwng 2001 a 2004. Mae adran 5.8 yn ystyried effaith y newidiadau hyn ar arwyddocâd cyffredinol cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn ôl rhyw. Mae adran 5.9 yn cymharu newidiadau yng nghefn gwlad Cymru â newidiadau mewn mannau eraill yng Nghymru. Mae adran 5.10 yn edrych ar amrywiadau mewn newid rhwng y naw awdurdod unedol gwledig yng Nghymru. Fel yn achos y rhan yn gynharach yn y bennod, mae pob adran yn dechrau gyda chrynodeb o'r materion allweddol ac wedyn yn symud ymlaen i drafodaeth fanylach am y data a gyflwynir yn y tablau ac, oni nodir yn wahanol, mae'r data yn y tablau wedi'u tynnu o'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol ar gyfer y blynyddoedd 2001 – 2004.

<u>5.6.1 Newidiadau yn niferoedd gweithwyr y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar draws y gweithlu gwrywaidd a'r gweithlu benywaidd, 2001-2004</u>

Ar draws cefn gwlad Cymru dros y tair blynedd diwethaf, mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus wedi codi ymysg y gweithlu llafur gwrywaidd a'r gweithlu llafur benywaidd. Tra bo cyflogaeth yn y sector preifat hefyd wedi cynyddu ymysg y gweithlu llafur gwrywaidd a'r gweithlu llafur benywaidd, mae wedi cynyddu ar gyfradd llawer arafach. Mae nifer y gweithwyr benywaidd yn y sector cyhoeddus wedi codi wyth gwaith yn gyflymach na nifer y gweithwyr gwrywaidd yn y sector cyhoeddus, tra bo niferoedd y gweithwyr yn y sector preifat wedi codi'n arafach ymysg y gweithlu benywaidd nag y maent ymysg y gweithlu gwrywaidd. Canlyniad y patrymau hyn yw bod cyflogaeth yn y sector cyhoeddus wedi dod yn fwy arwyddocaol i'r gweithlu benywaidd, tra bo dosbarthiad cyflogaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat heb ddangos llawer o newid ymysg y gweithlu gwrywaidd.

Mae tabl 5.14 yn dangos newidiadau yn nosbarthiad cyflogaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat o fewn y gweithlu llafur benywaidd ar draws cefn gwlad Cymru rhwng 2001 a 2004. Dylid nodi nad yw'r ffigurau ar gyfer cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn yr un o'r ddwy flynedd yn hafal i'r ffigurau ar gyfer pob cyflogaeth oherwydd y talgrynnu i'r '000 agosaf yn yr Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol.

Tabl 5.14: Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat o fewn y gweithlu llafur benywaidd ar draws cefn gwlad Cymru, 2001-2004

| | **# 2001** | **# 2004** | **# newid 2001-2004** | **% newid 2001-2004** | **% newid blynyddol 2001-2004** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogaeth yn y Sector Cyhoeddus | 67,000 | 80,000 | 13,000 | 19.4 | 6.5 |
| Cyflogaeth yn y Sector Preifat | 119,000 | 122,000 | 3,000 | 2.8 | 0.8 |
| Pob Cyflogaeth | 189,000 | 202,000 | 13,000 | 6.9 | 2.3 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Rhwng 2001 a 2004, cynyddodd nifer y gweithwyr benywaidd ar draws cefn gwlad Cymru gan 6.9%, sef o 189,000 i 202,000. Oherwydd gwahaniaethau yn y data a achosir gan dalgrynnu, mae'n amhosibl rhoi ffigur union gywir ar gyfer cyfraddau'r cynnydd hwn y mae'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cyfrif amdanynt. Fodd bynnag, os ystyrir bod y ffigurau yn nhabl 5.14 yn ddangosol, ymddengys bod y sector cyhoeddus wedi cyfrif am fwyafrif llethol y cynnydd hwn gan 13,000 – o leiaf 68% ohono (13,000 allan o 19,000 o weithwyr). Yn ôl data'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol, cynyddodd nifer y gweithwyr benywaidd yn y sector cyhoeddus gan 19.4% dros y cyfnod tair blynedd. Mae hyn yn gyfartal i gyfradd twf sydd bron i saith gwaith cymaint â chyfradd twf y sector preifat, lle cynyddodd nifer y gweithwyr benywaidd gan 2.8%. Roedd y twf blynyddol cyfartalog yn 6.5% yn y sector cyhoeddus, o'i gymharu â 0.8% yn y sector preifat.

Mae tabl 5.15 yn dangos newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd ar draws cefn gwlad Cymru, 2001-2004. Fel yn achos tabl 1, dylid nodi nad yw swm y ffigurau ar gyfer cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar gyfer yr un o'r ddwy flynedd yn hafal i'r ffigyrau ar gyfer pob cyflogaeth oherwydd y talgrynnu i'r '000 agosaf yn yr Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol.

Tabl 5.15: Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd ar draws cefn gwlad Cymru, 2001-2004

| | # 2001 | # 2004 | # newid 2001-2004 | % newid 2001-2004 | % newid blynyddol 2001-2004 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogaeth yn y Sector Cyhoeddus | 41,000 | 42,000 | 1,000 | 2.4 | 0.8 |
| Cyflogaeth yn y Sector Preifat | 178,000 | 188,000 | 10,000 | 5.6 | 1.9 |
| Pob Cyflogaeth | 220,000 | 229,000 | 9,000 | 4.1 | 1.4 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Ar y cyfan mae'r patrymau yn nosbarthiad twf cyflogaeth ymysg dynion rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat i'r gwrthwyneb i'r patrymau a nodwyd ar gyfer dosbarthiad twf cyflogaeth ymysg menywod. Rhwng 2001 a 2004, cododd nifer y

gweithwyr gwrywaidd yn y sector cyhoeddus 2.4%, ond roedd y cynnydd hwn yn cynrychioli cyfradd twf o lai na hanner y gyfradd twf cyflogaeth yn y sector preifat (5.6%). Roedd y sector cyhoeddus yn cyfrif am ddim llawer mwy na 10% – 1,000 allan o 11,000 – o'r cynnydd yn niferoedd y gweithwyr dros y cyfnod tair blynedd hwn. Roedd y twf blynyddol cyfartalog yn 0.8% yn y sector cyhoeddus, o'i gymharu ag 1.9% yn y sector preifat.

Ar y cyfan, roedd twf yng nghyflogaeth menywod yn y sector cyhoeddus dros wyth gwaith cymaint â chyfradd twf yng nghyflogaeth dynion yn y sector cyhoeddus.

5.6.2 Newid yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i'r gweithlu gwrywaidd a'r gweithlu benywaidd

Ni fu llawer o newid yn arwyddocâd cyffredinol cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd. Yn 2004, yn ôl ffigurau'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol (gweler tabl 5.16), roedd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn cyfrif am ychydig dros draean o un y cant yn fwy o gyflogaeth y gweithlu gwrywaidd nag oedd yn 2001. Yn yr un modd, cwympodd cyfran cyflogaeth yn y sector preifat un traean o un y cant yn unig. O ystyried mor arw yw data'r LLFC – wedi'i dalgrynnu i'r '000 agosaf – mae'n bosibl bod y gwir newidiadau hyd yn oed yn llai na'r hyn y mae'r ffigurau hyn yn ei awgrymu.

Tabl 5.16: Dosbarthiad y gweithlu llafur gwrywaidd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, 2001 a 2004

| Sector cyflogaeth | 2001 | 2004 | 2001-2004 |
|---|---|---|---|
| Cyflogaeth yn y Sector Cyhoeddus % | 18.6 | 18.3 | 0.3 |
| Cyflogaeth yn y Sector Preifat % | 81.4 | 81.7 | -0.3 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Fodd bynnag, yn y gweithlu llafur benywaidd, ymddengys y bu newid amlwg. Mae'r data a ddangosir yn nhabl 5.17 (isod) yn awgrymu bod cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn 2004 yn cyfrif am 4.2% yn fwy o'r holl gyflogaeth nag oedd yn 2001. Yn yr un modd, cwympodd cyfran cyflogaeth yn y sector preifat gan yr un 4.2%. Dros y cyfnod tair blynedd, mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus wedi ehangu o 35.4% i 39.6% o'r holl gyflogaeth ymysg y gweithlu llafur benywaidd.

Tabl 5.17: Dosbarthiad y gweithlu llafur benywaidd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, cefn gwlad Cymru, 2001 a 2004

| Sector cyflogaeth | 2001 | 2004 | 2001-2004 |
|---|---|---|---|
| Cyflogaeth yn y Sector Cyhoeddus % | 35.4 | 39.6 | 4.2 |
| Cyflogaeth yn y Sector Preifat % | 64.6 | 60.4 | -4.2 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Gyda'i gilydd, mae'r ataliad ymddangosol hwn yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu gwrywaidd a'r cynnydd ymddangosol yn arwyddocâd

cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu benywaidd yn golygu bod y gwahaniaethau yn nosbarthiad cyflogaeth dynion a menywod ar draws cefn gwlad Cymru yn mynd yn fwy. Mae'r newidiadau'n awgrymu bod y sector cyhoeddus yn fwyfwy deniadol i fenywod sy'n chwilio am waith cyflogedig, naill ai oherwydd argaeledd swyddi neu oherwydd bod y sector cyhoeddus yn cynnig mwy o hyblygrwydd a gwell telerau ac amodau na'r sector preifat, sy'n arbennig o ddeniadol i'r gweithlu benywaidd. Trafodir safbwyntiau a phrofiadau gweithwyr y sector cyhoeddus yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

5.6.3 Cymharu newidiadau yng nghefn gwlad Cymru ag ardaloedd eraill yng Nghymru

*Cyflogaeth dynion yn y sector cyhoeddus*
Mae'r twf diweddar yng nghyflogaeth dynion yn y sector cyhoeddus wedi bod gryn dipyn yn wannach ar draws yr ardaloedd awdurdodau unedol pennaf wledig nag y bu ar draws unrhyw glwstwr arall o ardaloedd awdurdodau unedol yng Nghymru. Hefyd, gwelodd cefn gwlad Cymru y cynnydd lleiaf ar y cyd yn niferoedd absoliwt gweithwyr gwrywaidd y sector cyhoeddus. Mewn cyferbyniad, mae niferoedd gweithwyr y sector preifat o fewn y gweithlu gwrywaidd wedi codi'n fwy sylweddol yng nghefn gwlad Cymru nag yn unrhyw le arall. Ar y cyfan, roedd y sector cyhoeddus yn cyfrif am ychydig dros un rhan o ddeg o'r cynnydd yng nghyfanswm niferoedd y gweithwyr gwrywaidd. Mae cefn gwlad Cymru'n sefyll allan fel yr unig glwstwr o awdurdodau unedol lle mae arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu gwrywaidd wedi lleihau.

Mae tabl 5.18 yn dangos newidiadau absoliwt a newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill rhwng 2001 a 2004.

Tabl 5.18: Newidiadau absoliwt a newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill, 2001-2004

| **Ardal ddaearyddol** | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus # 2001** | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus # 2004** | **# newid 2001-2004** | **% newid 2001-2004** | **% newid blynyddol cyfartalog** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefn Gwlad Cymru | 41,000 | 42,000 | 1,000 | 2.4 | 0.8 |
| Y Gymru Drefol | 31,000 | 33,000 | 2,000 | 6.5 | 2.2 |
| Y Cymoedd | 32,000 | 36,000 | 4,000 | 12.5 | 4.2 |
| Ardaloedd Eraill | 16,000 | 17,000 | 1,000 | 6.3 | 2.1 |
| *Cymru Gyfan* | *121,000* | *126,000* | *5,000* | *4.1* | *1.4* |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Rhwng 2001 a 2004, cynyddodd nifer y gweithwyr gwrywaidd yn y sector cyhoeddus gan 2.4 % ar draws cefn gwlad Cymru. Roedd y cynnydd canran hwn yn llai na chwarter cyfradd y cynnydd a welwyd yn y Cymoedd (12.5%) ac yn llai na hanner

cyfradd y cynnydd a welwyd yn y Gymru Drefol (6.5%) ac mewn Ardaloedd Eraill (6.3%). Roedd y cynnydd blynyddol cyfartalog yn 0.8%, o'i gymharu â 4.2% yn y Cymoedd, 2.2% yn y Gymru Drefol a 2.1% mewn Ardaloedd Eraill. Cododd niferoedd gweithwyr absoliwt gan gyfanswm o 1,000 ar draws y naw sir wledig. Yn ei gyd-destun, mae'r cynnydd hwn yr un faint â chyfanswm cynnydd y tair sir sy'n llunio'r rhannau o Gymru yn y grwp 'arall'; hynny yw, nad ydynt yn bennaf drefol, yn bennaf wledig neu'n bennaf yn y Cymoedd.

Mae tabl 5.19 yn dangos newidiadau absoliwt a newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector preifat o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill rhwng 2001 a 2004.

Tabl 5.19: Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector preifat o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill, 2001-2004

| **Ardal ddaearyddol** | **Cyflogaeth yn y sector preifat # 2001** | **Cyflogaeth yn y sector preifat # 2004** | **# newid 2001-2004** | **% newid 2001-2004** | **% newid blynyddol cyfartalog** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefn Gwlad Cymru | 178,000 | 188,000 | 10,000 | 5.6 | 1.9 |
| Y Gymru Drefol | 123,000 | 122,000 | -1,000 | -0.8 | -0.3 |
| Y Cymoedd | 155,000 | 157,000 | 2,000 | 1.3 | 0.4 |
| Ardaloedd Eraill | 82,000 | 85,000 | 3,000 | 3.7 | 1.2 |
| *Cymru Gyfan* | *537,000* | *553,000* | *16,000* | *3.0* | *1.0* |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Dros y tair blynedd diwethaf, cododd nifer y gweithwyr gwrywaidd sy'n gweithio yn y sector preifat gan 5.6% ar draws cefn gwlad Cymru. Roedd y cynnydd canran hwn bron i bum gwaith yn fwy na'r cynnydd canran ar draws y Cymoedd (0.4%) a bron i ddwywaith yn fwy na'r cynnydd canran ar draws Ardaloedd Eraill. Dros yr un cyfnod, gwelodd y Gymru Drefol gwymp 0.3% yn nifer y gweithwyr gwrywaidd sy'n gweithio yn y sector preifat. Ar draws cefn gwlad Cymru, cododd niferoedd y gweithwyr gan 10,000 – cynnydd absoliwt sy'n fwy na'r cynnydd yn niferoedd y gweithwyr ar draws pob ardal arall yng Nghymru gyda'i gilydd.

Mae tabl 5.20 yn dangos y newid yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth y gweithlu gwrywaidd rhwng 2001 a 2004.

Tabl 5.20: Newid yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth y gweithlu gwrywaidd, 2001 – 2004

| **Ardal ddaearyddol** | **% 2001** | **% 2004** | **% newid 2001-2004** |
|---|---|---|---|
| Cefn Gwlad Cymru | 18.6 | 18.3 | - 0.3 |
| Y Gymru Drefol | 20.1 | 21.3 | 1.2 |
| Y Cymoedd | 17.0 | 18.7 | 1.7 |
| Ardaloedd Eraill | 16.3 | 16.8 | 0.5 |
| *Cymru Gyfan* | 18.4 | 18.6 | 0.2 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Nid yw arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu gwrywaidd wedi newid llawer ar draws unrhyw glwstwr o awdurdodau unedol yng Nghymru. Mae'r newid amlycaf yn y Cymoedd, lle mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn cyfrif am 18.7% o'r gweithlu gwrywaidd, o'i gymharu â 17.0% yn 2001 – cynnydd o 1.7%. Fodd bynnag, mae cefn gwlad Cymru'n sefyll allan fel yr unig glwstwr o ardaloedd awdurdodau unedol lle mae arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu gwrywaidd wedi lleihau – neu, o ystyried bod y data mor arw, lle mae efallai wedi aros yr un peth – dros y tair blynedd diwethaf. Fel arall, ni fu unrhyw newid yn safle cymharol cefn gwlad Cymru o ran arwyddocâd cyflogaeth dynion yn y sector cyhoeddus.

Mae tabl 5.21 yn dangos newidiadau absoliwt a newidiadau canran ym mhob cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill rhwng 2001 a 2004. Oherwydd bod ffigurau a gyhoeddwyd o'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yn cynnwys gweithwyr 'di-ddosbarth' – sy'n cynrychioli ymatebwyr nad oeddent yn gallu cadarnhau a oeddent yn gweithio yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat – mewn rhai achosion, gall y ffigurau ar gyfer cyfanswm cyflogaeth yn y tabl hwn fod yn fwy na chyfanswm y ffigurau ar gyfer cyflogaeth yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus a roddir yn nhablau 3 a 4.

Tabl 5.21: Newidiadau absoliwt a newidiadau canran ym mhob cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill, 2001 – 2004

| **Ardal ddaearyddol** | **Pob cyflogaeth # 2001** | **Pob cyflogaeth # 2004** | **# newid 2001-2004** | **% newid 2001-2004** | **% newid blynyddol cyfartalog** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefn Gwlad Cymru | 220,000 | 229,000 | 9,000 | 4.1 | 1.4 |
| Y Gymru Drefol | 154,000 | 155,000 | 1,000 | 0.6 | 0.2 |
| Y Cymoedd | 188,000 | 193,000 | 5,000 | 2.7 | 0.9 |
| Ardaloedd Eraill | 98,000 | 101,000 | 3,000 | 3.1 | 1.0 |
| *Cymru Gyfan* | *662,000* | *680,000* | *18,000* | *2.7* | *0.9* |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

*Cyflogaeth menywod yn y sector cyhoeddus*

Mae patrymau yng nghyflogaeth menywod yn cyferbynnu'n llym â phatrymau yng nghyflogaeth dynion. Mae'r twf diweddar yng nghyflogaeth menywod yn y sector cyhoeddus wedi bod gryn dipyn yn gryfach ar draws yr ardaloedd awdurdodau unedol pennaf wledig nag y bu ar draws unrhyw glwstwr arall o ardaloedd awdurdodau unedol yng Nghymru. Hefyd, gwelodd cefn gwlad Cymru gynnydd llawer mwy yng nghyfanswm y swyddi yn y sector cyhoeddus gan fenywod nag unrhyw ardal arall yng Nghymru. Mae twf mewn cyflogaeth yn y sector preifat ymysg y gweithlu benywaidd wedi bod yn llawer cryfach yng nghefn gwlad Cymru nag yn unrhyw le arall – er ei fod, fel yng ngweddill Cymru, wedi bod yn llawer gwannach na thwf

mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Un o ganlyniadau trawiadol y newidiadau hyn yw, er bod cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu benywaidd wedi dod yn fwy arwyddocaol ar draws Cymru, mae ei arwyddocâd wedi cynyddu lawer mwy yng nghefn gwlad Cymru nag yn unrhyw le arall.

Mae tabl 5.22 yn dangos newidiadau absoliwt a newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu llafur benywaidd ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill rhwng 2001 a 2004.

Tabl 5.22: Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu llafur benywaidd ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill, 2001-2004

| **Ardal ddaearyddol** | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus # 2001** | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus # 2004** | **# newid 2001-2004** | **% newid 2001-2004** | **% newid blynyddol cyfartalog** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefn Gwlad Cymru | 67,000 | 80,000 | 13,000 | 19.4 | 6.5 |
| Y Gymru Drefol | 52,000 | 58,000 | 6,000 | 11.5 | 3.8 |
| Y Cymoedd | 61,000 | 68,000 | 7,000 | 11.5 | 3.8 |
| Ardaloedd Eraill | 27,000 | 31,000 | 4,000 | 14.8 | 4.9 |
| *Cymru Gyfan* | *207,000* | *237,000* | *30,0000* | *14.5* | *4.8* |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Rhwng 2001 a 2004, cynyddodd niferoedd gweithwyr y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu benywaidd gan yn agos at un rhan o bump ar draws cefn gwlad Cymru. Mae'r gyfradd cynnydd hon bron dwywaith yn fwy na'r gyfradd cynnydd yn y Gymru Drefol a'r Cymoedd (a welodd gynnydd o 11.5% ill dau) dros yr un cyfnod. Roedd y cynnydd blynyddol cyfartalog yn 6.5% ar draws cefn gwlad Cymru, o'i gymharu â 3.8% yn y Gymru Drefol ac yn y Cymoedd, a 4.9% mewn Ardaloedd Eraill. Roedd y cynnydd absoliwt yng nghyfanswm y gweithwyr ar draws cefn gwlad Cymru yn fwy na'r cynnydd absoliwt mewn unrhyw ardal arall, ac yn agos at hanner cyfanswm y cynnydd yng nghyflogaeth menywod yn y sector cyhoeddus ar draws Cymru gyfan.

Mae tabl 5.23 yn dangos newidiadau absoliwt a newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector preifat o fewn y gweithlu llafur benywaidd ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill rhwng 2001 a 2004.

Tabl 5.23: Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector preifat o fewn y gweithlu llafur benywaidd ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill, 2001-2004

| **Ardal ddaearyddol** | **Cyflogaeth yn y sector preifat # 2001** | **Cyflogaeth yn y sector preifat # 2004** | **# newid 2001-2004** | **% newid 2001-2004** | **% newid blynyddol cyfartalog** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefn Gwlad Cymru | 119,000 | 122,000 | 3,000 | 2.5 | 0.8 |
| Y Gymru Drefol | 86,000 | 85,000 | -1,000 | -1.2 | -0.4 |
| Y Cymoedd | 98,000 | 99,000 | 1,000 | 1.0 | 0.3 |
| Ardaloedd Eraill | 57,000 | 57,000 | 0 | 0.0 | 0.0 |
| *Cymru Gyfan* | *362,000* | *364,000* | *2,000* | *0.6* | *0.2* |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Rhwng 2001 a 2004, gwelodd y sector preifat niferoedd y gweithwyr benywaidd yn codi 2.5% yng nghefn gwlad Cymru. O'i gymharu, roedd y cynnydd mwyaf mewn mannau eraill – 1.0% yn y Cymoedd – yn llai na hanner y rhif hwn, tra bo cyflogaeth yn y sector preifat ymysg y gweithlu benywaidd ar draws y Gymru Drefol wedi gostwng 1.2%. Mae'r ffigurau yn nhabl 5.23 (uchod) yn awgrymu y byddai cyfanswm y gweithwyr benywaidd sy'n gweithio yn y sector preifat wedi aros yr un peth dros y cyfnod hwn o dair blynedd pe na fyddai twf mewn cyflogaeth yng nghefn gwlad Cymru. Ar yr un pryd, dylid cofio bod twf yng nghyflogaeth menywod yn y sector preifat ar draws cefn gwlad Cymru, fel mewn mannau eraill, yn llawer gwannach na'r twf yng nghyflogaeth menywod yn y sector cyhoeddus.

Mae tabl 5.24 yn dangos y newid mewn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth ymysg y gweithlu benywaidd rhwng 2001 a 2004.

Tabl 5.24: Newid yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth ymysg y gweithlu benywaidd, 2001 – 2004

| **Ardal ddaearyddol** | **% 2001** | **% 2004** | **% newid 2001-2004** |
|---|---|---|---|
| Cefn Gwlad Cymru | 35.4 | 39.6 | 4.2 |
| Y Gymru Drefol | 37.7 | 40.6 | 2.9 |
| Y Cymoedd | 37.9 | 40.5 | 2.6 |
| Ardaloedd Eraill | 32.1 | 34.8 | 2.7 |
| *Cymru Gyfan* | *36.4* | *39.5* | *3.1* |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Ar draws pob clwstwr o ardaloedd awdurdodau unedol yng Nghymru, mae arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu benywaidd wedi newid llawer mwy nag arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu gwrywaidd. Fodd bynnag, o fewn y duedd gyffredinol hon, mae cefn gwlad Cymru yn sefyll allan. Yn 2004, mae'r sector cyhoeddus yn cyfrif am yn agos at 40% o holl gyflogaeth menywod ar draws cefn gwlad Cymru, o'i gymharu ag ychydig dros 35% yn 2001. Mae'r cynnydd hwn o 4.2% yn cymharu â chynyddiadau o 2.9% yn y Gymru drefol, 2.6% yn y Cymoedd a 2.7% mewn Ardaloedd Eraill. Un o

ganlyniadau'r cyfraddau newid gwahanol hyn yw bod cefn gwlad Cymru wedi bod yn 'dal i fyny' gyda'r Gymru Drefol a'r Cymoedd dros y tair blynedd diwethaf o ran cyfran cyflogaeth menywod y mae'r sector cyhoeddus yn cyfrif amdani; bellach mae cefn gwlad Cymru lai nag 1% 'ar ei hôl hi'.

Mae tabl 5.25 yn dangos newidiadau absoliwt a newidiadau canran ym mhob cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur benywaidd ar draws cefn gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill rhwng 2001 a 2004. Oherwydd bod ffigurau a gyhoeddwyd o'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol yn cynnwys gweithwyr 'di-ddosbarth' – sy'n cynrychioli ymatebwyr nad oeddent yn gallu cadarnhau a oeddent yn gweithio yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat – mewn rhai achosion, gall y ffigurau ar gyfer cyfanswm cyflogaeth yn y tabl hwn fod yn fwy na chyfanswm y ffigurau ar gyfer cyflogaeth yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus a roddir yn nhablau 3 a 4.

Tabl 5.25: Newidiadau absoliwt a newidiadau canran ym mhob cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur benywaidd ar draws Cefn Gwlad Cymru, y Gymru Drefol, y Cymoedd ac Ardaloedd Eraill, 2001 – 2004

| **Ardal ddaearyddol** | **Pob cyflogaeth # 2001** | **Pob cyflogaeth # 2004** | **# newid 2001-2004** | **% newid 2001-2004** | **% newid blynyddol cyfartalog** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefn Gwlad Cymru | 189,000 | 202,000 | 13,000 | 6.9 | 2.3 |
| Y Gymru Drefol | 138,000 | 143,000 | 5,000 | 3.6 | 1.2 |
| Y Cymoedd | 161,000 | 168,000 | 7,000 | 4.3 | 1.4 |
| Ardaloedd Eraill | 84,000 | 89,000 | 5,000 | 6.0 | 2.0 |
| *Cymru Gyfan* | *572,000* | *601,000* | *29,000* | *5.1* | *1.7* |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Yn gynharach, nodwyd bod twf cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ar draws cefn gwlad Cymru wyth gwaith yn fwy o fewn y gweithlu benywaidd nag oedd o fewn y gweithlu gwrywaidd. Mae'r data yn nhabl 5.26 (isod) yn awgrymu bod y gwahaniaeth hwn llawer iawn yn fwy nag mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Yn y Gymru drefol ac mewn Ardaloedd Eraill, mae twf cyflogaeth menywod yn y sector cyhoeddus yn uwch o ffactor ychydig yn fwy na dau i un; yn y Cymoedd, mae'r gwahaniaeth hyd yn oed yn llai.

Tabl 5.26: Newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus 2001-2004 yn ôl rhyw

| | **% newid 2001-2004** | | **% newid blynyddol cyfartalog** | | **Cymhareb Twf Cyflogaeth Menywod: Dynion** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal ddaearyddol** | **Menywod** | **Dynion** | **Menywod** | **Dynion** | |
| Cefn Gwlad Cymru | 19.4 | 2.4 | 6.5 | 0.8 | 8:1 |
| Y Gymru Drefol | 11.5 | 6.5 | 3.8 | 2.2 | 2:1 |
| Y Cymoedd | 11.5 | 12.5 | 3.8 | 4.2 | 1:1 |
| Ardaloedd Eraill | 14.8 | 6.3 | 4.9 | 2.1 | 9:4 |
| *Cymru Gyfan* | *14.5* | *4.1* | *4.8* | *1.4* | *7:2* |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

5.6.4 Archwilio amrywiad daearyddol mewn newid

*Cyflogaeth dynion*

Mae data ynghylch newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu gwrywaidd ar raddfa awdurdodau lleol yn dangos cyfuniad o ataliad, cynnydd a gostyngiad. Ataliad yw'r prif batrwm: ni welwyd unrhyw gynnydd absoliwt neu gynnydd canran yn niferoedd gweithwyr rhwng 2001 a 2004 yn chwech allan o'r naw sir wledig. Mae Sir Ddinbych a Gwynedd yn sefyll allan yn y patrwm hwn, ar ôl gweld twf sylweddol yn ddiweddar yng nghyflogaeth dynion yn y sector cyhoeddus dros y cyfnod, tra bo Sir Gaerfyrddin wedi gweld gostyngiad sylweddol yn niferoedd y gweithwyr. Felly, mae dwy sir yn cyfrif am yr holl dwf yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu gwrywaidd dros y cyfnod hwn.

Mae tabl 5.27 yn dangos newidiadau absoliwt a newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd ar draws pob un o'r naw ardal awdurdod unedol 'gwledig' rhwng 2001 a 2004 yn ôl eu trefn.

Rhwng 2001 a 2004, mae'r data'n awgrymu na welodd chwech allan o'r naw sir pennaf wledig yng Nghymru unrhyw newid absoliwt neu newid canran mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu gwrywaidd; arhosodd niferoedd y gweithwyr gwrywaidd yr un peth yn Sir Fôn, Conwy, Powys, Ceredigion, Sir Benfro a Sir Fynwy. Mae tair sir yn sefyll allan yn y prif batrwm hwn: gwelodd Sir Ddinbych niferoedd y gweithwyr gwrywaidd yn y sector cyhoeddus yn cynyddu 1,000, sy'n cynrychioli cynnydd o 25% dros dair blynedd a chynnydd blynyddol cyfartalog o 8.3%. Hefyd, gwelodd Gwynedd niferoedd y gweithwyr gwrywaidd yn y sector cyhoeddus yn codi 1,000, sy'n cynrychioli cynnydd cyffredinol o 16.7% a chynnydd blynyddol cyfartalog o 5.6%. Gwelodd Sir Gaerfyrddin nifer gweithwyr y sector cyhoeddus yn y gweithlu gwrywaidd yn gostwng 1,000, sy'n cynrychioli gostyngiad o 12.5% yn gyffredinol a gostyngiad blynyddol cyfartalog o 4.2%.

Tabl 5.27: Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf)

| Ardal weinyddol | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus # 2001** | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus # 2004** | **# newid 2001-2004** | **% newid 2001-2004** | **% newid blynyddol cyfartalog** |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Ddinbych | 4000 | 5000 | **1000** | **25.0** | 8.3 |
| Gwynedd | 6000 | 7000 | **1000** | **16.7** | 5.6 |
| Sir Fôn | 3000 | 3000 | **0** | **0** | 0.0 |
| Conwy | 4000 | 4000 | **0** | **0.0** | 0.0 |
| Powys | 5000 | 5000 | **0** | **0.0** | 0.0 |
| Ceredigion | 4000 | 4000 | **0** | **0.0** | 0.0 |
| Sir Benfro | 4000 | 4000 | **0** | **0.0** | 0.0 |
| Sir Fynwy | 3000 | 3000 | **0** | **0.0** | 0.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 8000 | 7000 | **-1000** | **-12.5** | -4.2 |
| **Cefn Gwlad Cymru** | **41,000** | **42,000** | **1000** | **2.4** | 0.8 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

I beth graddau, ymddengys fod patrymau daearyddol mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu gwrywaidd yn cydberthyn yn negyddol â phatrymau daearyddol mewn cyflogaeth yn y sector preifat ymysg y gweithlu gwrywaidd. Mae tabl 5.28 yn dangos newidiadau absoliwt a newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector preifat o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd ar draws pob un o'r naw ardal awdurdod unedol 'gwledig' rhwng 2001 a 2004 yn ôl eu trefn. Mae tabl 5.29 yn dangos canran y newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ymysg y gweithlu gwrywaidd yn y naw ardal awdurdod unedol 'gwledig' rhwng 2001 a 2004.

Tabl 5.28: Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector preifat o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf)

| **Ardal weinyddol** | **Cyflogaeth yn y sector preifat # 2001** | **Cyflogaeth yn y sector preifat # 2004** | **# newid 2001-2004** | **% newid 2001-2004** | **% newid blynyddol cyfartalog** |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 29000 | 32000 | **3000** | **10.3** | 3.4 |
| Sir Benfro | 20000 | 22000 | **2000** | **10.0** | 3.3 |
| Sir Fôn | 12000 | 13000 | **1000** | **8.3** | 2.8 |
| Ceredigion | 13000 | 14000 | **1000** | **7.7** | 2.6 |
| Sir Fynwy | 17000 | 18000 | **1000** | **5.9** | 2.0 |
| Conwy | 20000 | 21000 | **1000** | **5.0** | 1.7 |
| Powys | 28000 | 29000 | **1000** | **3.6** | 1.2 |
| Gwynedd | 21000 | 21000 | **0** | **0.0** | 0.0 |
| Sir Ddinbych | 18000 | 18000 | **0** | **0.0** | 0.0 |
| **Cefn Gwlad Cymru** | **178,000** | **188,000** | **10000** | **5.6** | 1.9 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Tabl 5.29: % y newidiadau yn niferoedd y gweithwyr gwrywaidd, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004

| Ardal weinyddol | Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus % newid 2001-2004 | Cyflogaeth yn y sector preifat % newid 2001-2004 |
|---|---|---|
| Sir Ddinbych | 25.0 | 0.0 |
| Gwynedd | 16.7 | 0.0 |
| Sir Fôn | 0.0 | 8.3 |
| Conwy | 0.0 | 5.0 |
| Powys | 0.0 | 3.6 |
| Ceredigion | 0.0 | 7.7 |
| Sir Benfro | 0.0 | 10.0 |
| Sir Fynwy | 0.0 | 5.9 |
| Sir Gaerfyrddin | -12.5 | 10.3 |
| **Cefn Gwlad Cymru** | **2.4** | **5.6** |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Yr unig ddwy sir lle tyfodd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu gwrywaidd rhwng 2001 a 2004 (Sir Ddinbych a Gwynedd) yw'r unig siroedd na welodd unrhyw gynnydd yng nghyflogaeth dynion yn y sector preifat yn ystod yr un cyfnod. Mewn cyferbyniad â hynny, gwelodd pob un o'r chwe sir na welodd unrhyw newid yng nghyflogaeth dynion yn y sector cyhoeddus rhwng 2001 a 2004 (Sir Fôn, Conwy, Powys, Ceredigion, Sir Benfro a Sir Fynwy) gynnydd yng nghyflogaeth dynion yn y sector preifat dros y cyfnod. Fodd bynnag, roedd graddfa'r twf yn y siroedd hyn yn amrywio'n fawr. Roedd ar ei isaf ym Mhowys, lle tyfodd niferoedd y gweithwyr 3.6% dros y tair blynedd, ac roedd ar ei uchaf yn Sir Benfro, lle tyfodd niferoedd y gweithwyr 10.0%, dros y tair blynedd – bron i dair gwaith yn gyflymach. Yr unig sir a welodd ostyngiad yn nifer y gweithwyr gwrywaidd yn y sector cyhoeddus (Sir Gaerfyrddin) welodd y twf cryfaf mewn cyflogaeth yn y sector preifat, sef 10.3%

Mae tabl 5.30 yn dangos newidiadau ym mhob cyflogaeth ac mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu gwrywaidd a chanran y newid hwnnw yr oedd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn cyfrif amdani ym mhob un o'r naw ardal awdurdod unedol 'gwledig' rhwng 2001 a 2004 yn ôl eu trefn. Oherwydd y talgrynnu i'r '000 agosaf yn y data a ddefnyddiwyd i lunio tabl 5.30 ac oherwydd y niferoedd bychain dan sylw, byddai'n annoeth dod i unrhyw gasgliadau pendant am newid yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i dwf cyffredinol mewn cyflogaeth o fewn y naw sir wledig.

I'r graddau y gellir dod i gasgliadau bras, ymddengys bod twf cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng Ngwynedd a Sir Ddinbych wedi cyfrannu at dwf cyffredinol mewn cyflogaeth sy'n anghymesur â maint perthynol y sector cyhoeddus a'r sector preifat; mae'r data'n awgrymu bod y sector cyhoeddus yn cyfrif am 100% o'r cynnydd o 1,000 yn niferoedd y gweithwyr gwrywaidd yn Sir Ddinbych rhwng 2001 a 2004, tra yng Ngwynedd mae'r sector cyhoeddus yn cyfrif am hanner y cynnydd cyfan, er gwaethaf y ffaith bod y sector preifat yn cyflogi dros dri-chwarter y gweithlu gwrywaidd yn y sir honno. Yn y siroedd eraill lle mae cyfanswm cyflogaeth wedi

cynyddu dros y tair blynedd diwethaf, nid yw cyflogaeth yn y sector cyhoeddus wedi cyfrannu at y cynnydd o gwbl, ac mewn un sir, sef Sir Gaerfyrddin, yn sgil gostyngiad mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn ystod y cyfnod hwn, gostyngodd beth fyddai fel arall wedi bod yn gynnydd cyffredinol yn niferoedd y gweithwyr o 3,000 gan un rhan o dair. Mewn dwy sir, mae niferoedd cyffredinol y gweithwyr ymysg y gweithlu gwrywaidd wedi aros yr un peth.

Tabl 5.30: Newidiadau ym mhob cyflogaeth ac mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu gwrywaidd a % newid y mae'r sector cyhoeddus yn cyfrif amdani, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf)

| Ardal weinyddol | **# newid ym mhob cyflogaeth 2001-2004** | **# newid cyflogaeth yn y sector cyhoeddus 2001-2004** | **% cyfraniad y sector cyhoeddus i'r newid** |
|---|---|---|---|
| Sir Fôn | 1,000 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 2,000 | 1,000 | 50% |
| Conwy | 1,000 | 0 | 0% |
| Sir Ddinbych | 1,000 | 1,000 | 100% |
| Powys | 0 | 0 | dd/b |
| Ceredigion | 1,000 | 0 | 0% |
| Sir Benfro | 1,000 | 0 | 0% |
| Sir Gaerfyrddin | 2,000 | -1,000 | -33% |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | dd/b |
| **Cefn Gwlad Cymru** | **9,000** | **1,000** | **11.1%** |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Mewn rhai siroedd, mae'r patrymau hyn wedi arwain at newid arwyddocaol yn nosbarthiad y gweithlu gwrywaidd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat – er, fel y nodwyd uchod, y dylid ystyried y data'n bur ofalus oherwydd y talgrynnu a'r niferoedd bychain dan sylw. Mae tabl 5.31 yn dangos arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd mewn ardaloedd awdurdodau unedol 'gwledig' yn 2001 a 2004 a % y newid dros y cyfnod hwn o dair blynedd yn ôl eu trefn. Mae'n awgrymu, er bod y newid wedi bod rhywfaint o blaid cyflogaeth yn y sector cyhoeddus mewn rhai siroedd, bod y newidiadau amlycach o blaid cyflogaeth yn y sector preifat.

Tabl 5.31: Arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth o fewn y gweithlu llafur gwrywaidd yn ardaloedd awdurdodau unedol 'gwledig' yn 2001 a 2004 a % newid 2001-4, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf)

| **Ardal ddaearyddol** | **% 2001** | **% 2004** | **% newid 2001-2004** |
|---|---|---|---|
| Gwynedd | 21.2 | 24.4 | 3.2 |
| Sir Fôn | 17.1 | 17.4 | 0.3 |
| Conwy | 16.0 | 16.2 | 0.2 |
| Sir Ddinbych | 20.1 | 20.2 | 0.1 |
| **Cefn Gwlad Cymru** | **18.6** | **18.3** | -0.3 |
| Powys | 15.1 | 14.0 | -1.1 |
| Sir Benfro | 18.1 | 16.2 | -1.9 |
| Sir Gaerfyrddin | 22.0 | 19.0 | -3.0 |
| Sir Fynwy | 16.7 | 13.7 | -3.0 |
| Ceredigion | 24.9 | 20.7 | -4.2 |

Yn ôl y ffigurau yn nhabl 5.31, cynyddodd maint gweithlu llafur gwrywaidd y sector cyhoeddus rhwng 2001 a 2004 mewn perthynas â gweithlu llafur gwrywaidd y sector preifat mewn pedair sir. Fodd bynnag, dim ond yng Ngwynedd y mae'r data'n awgrymu bod y newid hwn yn ddigon mawr (3.2%) i ystyried ei fod yn sylweddol. Hyd yn oed yn yr achos hwn, mae'r newid yn llawer llai na'r newid cyffredinol yn nosbarthiad gweithwyr gwrywaidd a benywaidd a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Yn y tair sir arall – Sir Fôn, Conwy a Sir Ddinbych – roedd y newid ymddangosol y mae'r ffigurau yn nhabl 5.31 yn eu hawgrymu mor fach, roeddent yn anarwyddocaol.

Ym mhump o'r naw sir wledig dros yr un cyfnod, mae'r data'n awgrymu bod maint gweithlu llafur gwrywaidd y sector cyhoeddus wedi lleihau mewn perthynas â gweithlu llafur y sector preifat. Er bod amrywiad yng ngraddau'r lleihad, bu mwy o newid ar draws y pum sir hyn nag ar draws y pedair sir lle mae'r sector cyhoeddus wedi ehangu. Gwelwyd y gostyngiadau amlycaf yng nghyflogaeth dynion yn y sector cyhoeddus yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy. Yng Ngheredigion, gostyngodd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu gwrywaidd 4.2%, sef o bron i chwarter i ychydig dros un rhan o bump o holl gyflogaeth dynion; yn Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy, gostyngodd 3.0%.

Mae'r newidiadau hyn wedi lledaenu'r amrywiad daearyddol yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i'r gweithlu gwrywaidd rhyw ychydig. Rhwng 2001 a 2004, cynyddodd graddfa'r amrywiad – rhwng y siroedd sydd â chyfraddau uchaf ac isaf cyflogaeth dynion y mae'r sector cyhoeddus yn cyfrif amdanynt – o 9.8% i 10.7%.

*Cyflogaeth menywod*

Mae data ynghylch newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu benywaidd ar raddfa awdurdodau lleol yn dangos prif batrwm o dwf sylweddol ar draws pob un o'r siroedd gwledig ac eithrio un. Ym mhob un o'r wyth sir hyn, ac eithrio un, roedd y cyfraddau twf yn uwch nag yn unrhyw un o'r siroedd a oedd wedi gweld twf yng nghyflogaeth dynion yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, roedd amrywiad daearyddol sylweddol yn y cyfraddau twf. Roedd y gyfradd twf fwyaf dros chwe gwaith cymaint â'r gyfradd twf isaf. Mewn tair sir, roedd y twf yn arbennig o gryf; mewn pedair sir, roedd yn fwy cymedrol, ac mewn un sir, roedd yn sylweddol is nag yn unrhyw un o'r siroedd eraill lle bu twf. Yn yr achosion gorau, roedd cyfraddau twf uchel yn y sector cyhoeddus yn dod law yn llaw â chyfraddau twf cymharol isel yn y sector preifat.

Mae tabl 5.32 yn dangos newidiadau absoliwt a newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu llafur benywaidd ar draws pob un o'r naw ardal awdurdod unedol 'gwledig' rhwng 2001 a 2004 yn ôl eu trefn.

Mae'r data a gyflwynir yn nhabl 5.32 yn awgrymu bod wyth allan o'r naw sir wledig wedi gweld cynnydd yn nifer y gweithwyr benywaidd sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus rhwng 2001 a 2004. Fodd bynnag, roedd graddfa a chyfradd y cynnydd yn amrywio'n sylweddol. Mewn tair sir – Powys, Gwynedd a Sir Ddinbych – roedd y cyfraddau twf rhwng dwy a thair gwaith cymaint â'r cyfraddau twf mewn mannau eraill. Dros y cyfnod o dair blynedd, gwelodd Powys gynnydd o 42.9% yn niferoedd y

gweithwyr, gwelodd Gwynedd gynnydd o 37.5% a gwelodd Sir Ddinbych gynnydd o 33.3%; roedd y cyfraddau cynnydd blynyddol cyfartalog yn 14.3%, 12.5% ac 11.1% yn ôl eu trefn. Hefyd, y tair sir yma welodd y cynnydd mwyaf yn niferoedd cyflogaeth, gyda Phowys a Gwynedd yn ychwanegu 3,000 yr un i nifer y gweithwyr benywaidd sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus a Sir Ddinbych yn ychwanegu 1,000. Roedd cyfradd y cynnydd yn Sir Gaerfyrddin – 6.7% dros y tair blynedd, neu gyfartaledd o 2.2% bob blwyddyn – yn llai na hanner cyfradd unrhyw un arall o'r wyth sir a welodd gynnydd. Roedd un sir, sef Sir Fynwy, heb weld unrhyw gynnydd yng nghyflogaeth menywod yn y sector cyhoeddus rhwng 2001 a 2004.

Tabl 5.32: Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu llafur benywaidd, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf)

| Ardal weinyddol | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus # 2001** | **Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus # 2004** | **# newid 2001-2004** | **% newid 2001-2004** | **% newid blynyddol cyfartalog** |
|---|---|---|---|---|---|
| Powys | 7,000 | 10,000 | **3,000** | **42.9** | 14.3 |
| Gwynedd | 8,000 | 11,000 | **3,000** | **37.5** | 12.5 |
| Sir Ddinbych | 6,000 | 8,000 | **2,000** | **33.3** | 11.1 |
| Sir Fôn | 5,000 | 6,000 | **1,000** | **20.0** | 6.7 |
| Ceredigion | 6,000 | 7,000 | **1,000** | **16.7** | 5.6 |
| Conwy | 7,000 | 8,000 | **1,000** | **14.3** | 4.8 |
| Sir Benfro | 7,000 | 8,000 | **1,000** | **14.3** | 4.8 |
| Sir Gaerfyrddin | 15,000 | 16,000 | **1,000** | **6.7** | 2.2 |
| Sir Fynwy | 6,000 | 6,000 | **0** | **0.0** | 0.0 |
| **Cefn Gwlad Cymru** | **67,000** | **80,000** | **13,000** | **19.4** | 6.5 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Dros yr un cyfnod, cynyddodd cyflogaeth yn y sector preifat ymysg y gweithlu benywaidd mewn pedair sir (Conwy, Ceredigion, Sir Fynwy a Sir Benfro), arhosodd yr un peth mewn pedair sir (Sir Fôn, Gwynedd, Sir Ddinbych a Sir Gaerfyrddin) a gostyngodd mewn un sir (Powys). Mae tabl 5.33 yn dangos newidiadau absoliwt a newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector preifat o fewn y gweithlu llafur benywaidd ar draws pob un o'r naw ardal awdurdod unedol 'gwledig' rhwng 2001 a 2004 yn ôl eu trefn.

Tabl 5.33: Newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector preifat o fewn y gweithlu llafur benywaidd, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf)

| **Ardal weinyddol** | **Cyflogaeth yn y sector preifat # 2001** | **Cyflogaeth yn y sector preifat # 2004** | **# newid 2001-2004** | **% newid 2001-2004** | **% newid blynyddol cyfartalog** |
|---|---|---|---|---|---|
| Conwy | 14,000 | 16,000 | **2,000** | **14.3** | 4.8 |
| Ceredigion | 9,000 | 10,000 | **1,000** | **11.1** | 3.7 |
| Sir Fynwy | 12,000 | 13,000 | **1,000** | **8.3** | 2.8 |
| Sir Benfro | 14,000 | 15,000 | **1,000** | **7.1** | 2.4 |
| Sir Fôn | 8,000 | 8,000 | **0** | **0.0** | 0.0 |
| Gwynedd | 14,000 | 14,000 | **0** | **0.0** | 0.0 |
| Sir Ddinbych | 12,000 | 12,000 | **0** | **0.0** | 0.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 17,000 | 17,000 | **0** | **0.0** | 0.0 |
| Powys | 19,000 | 17,000 | **-2,000** | **-10.5** | -3.5 |
| **Cefn Gwlad Cymru** | **119,000** | **122,000** | **3,000** | **2.5** | 0.8 |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Yn y tair sir a brofodd y cyfraddau twf uchaf mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu benywaidd (Powys, Gwynedd a Sir Ddinbych), arhosodd cyflogaeth yn y sector preifat naill ai'r un peth neu – mewn un achos – gostyngodd. Allan o'r pum sir a welodd gyfraddau twf cymharol gymedrol neu isel mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu benywaidd, mewn tair cynyddodd niferoedd y gweithwyr benywaidd mewn cyflogaeth yn y sector preifat neu arhosodd yr un peth. O'i fynegi'n wahanol, allan o'r pedair sir lle cododd cyflogaeth yn y sector preifat rhwng 2001 a 2004, gwelodd tair sir gyfraddau twf cymharol isel mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ac mewn un arall arhosodd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu benywaidd yr un peth. Dros yr un cyfnod, yn yr unig sir lle bu gostyngiad mewn cyflogaeth yn y sector preifat y bu'r cynnydd cryfaf mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Felly, ymddengys bod perthynas wrthdro rhwng twf mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat mewn rhai siroedd.

Fodd bynnag, mae hefyd yn glir nad yw unrhyw berthynas ymddangosol rhwng twf mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat o fewn y gweithlu llafur benywaidd yn wir ym mhob achos o bell ffordd. Allan o'r pedair sir lle arhosodd nifer y gweithwyr benywaidd sy'n gweithio yn y sector preifat yr un peth, profodd dwy gyfraddau twf cymharol uchel mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a phrofodd dwy gyfraddau twf cymharol isel mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus.

*Cyfraniad cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i dwf cyffredinol mewn cyflogaeth*

Mae tabl 5.34 yn dangos newidiadau ym mhob cyflogaeth ac mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu benywaidd a chanran y newid hwnnw y mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn cyfrif amdani ym mhob un o'r naw ardal awdurdod unedol 'gwledig' rhwng 2001 a 2004 yn ôl eu trefn. Fel yn achos y data ar gyfer y gweithlu llafur gwrywaidd, oherwydd y talgrynnu i'r '000 agosaf yn y data y defnyddiwyd i lunio'r tabl a'r niferoedd cymharol isel dan sylw, byddai'n annoeth

dod i unrhyw gasgliadau pendant am newid yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i dwf cyffredinol mewn cyflogaeth o fewn y naw sir wledig.

Tabl 5.34: Newidiadau ym mhob cyflogaeth a chyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu benywaidd a % newid y mae'r sector cyhoeddus yn cyfrif amdani, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig, 2001-2004, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf)

| Ardal weinyddol | **# newid ym mhob cyflogaeth 2001-2004** | **# newid cyflogaeth yn y sector cyhoeddus 2001-2004** | **% cyfraniad y sector cyhoeddus i'r newid** |
|---|---|---|---|
| Sir Fôn | 1,000 | 1,000 | 100% |
| Gwynedd | 2,000 | 3,000 | 150% |
| Conwy | 2,000 | 1,000 | 50% |
| Sir Ddinbych | 1,000 | 2,000 | 200% |
| Powys | 1,000 | 3,000 | 300% |
| Ceredigion | 2,000 | 1,000 | 200% |
| Sir Benfro | 2,000 | 1,000 | 50% |
| Sir Gaerfyrddin | 1,000 | 1,000 | 100% |
| Sir Fynwy | 1,000 | 0 | 0% |
| **Cefn Gwlad Cymru** | 13,000 | 13,000 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Mae'r data yn nhabl 5.34 yn awgrymu bod Gwynedd, Sir Ddinbych a Cheredigion wedi gweld gostyngiad mewn cyflogaeth yn y sector preifat ymysg y gweithlu benywaidd rhwng 2001 a 2004, lle bo'r data yn nhabl 5.33 yn awgrymu bod cyflogaeth yn y sector preifat ymysg y gweithlu benywaidd yn y siroedd hyn wedi aros yr un peth dros y cyfnod hwn. Mae methodoleg yr Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol y mae'r ffigurau hyn yn deillio ohono yn golygu ei bod yn debygol bod y ffigurau yn nhabl 5.33 yn gywir (neu'n fwy cywir na'r ffigurau yn nhabl 5.34 o leiaf). Gan gofio'r rhybuddion hyn, ymddengys bod twf mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ym mwyafrif y siroedd gwledig wedi cyfrannu at dwf cyffredinol mewn cyflogaeth sy'n anghymesur â maint cymharol y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ond bod rhywfaint o amrywiad daearyddol.

Tra mai'r sector preifat yw'r prif gyflogwr ym mhob un o'r naw sir wledig, ym mhob un o'r siroedd hynny, ac eithrio un, mae wedi cyfrannu llai at dwf diweddar mewn cyflogaeth na'r sector cyhoeddus. Yn chwech o'r siroedd lle cynyddodd cyflogaeth gyffredinol ymysg y gweithlu benywaidd rhwng 2001 a 2004, (Sir Fôn, Gwynedd, Sir Ddinbych, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin), mae'r data'n awgrymu bod y sector cyhoeddus yn cyfrif am y twf hwn yn gyfan gwbl. Mewn dwy o'r siroedd hyn, golygai cwymp mewn cyflogaeth yn y sector preifat, heb y cynnydd mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, y byddai cyflogaeth gyffredinol ymysg y gweithlu benywaidd wedi cwympo. Mewn dwy sir (Conwy a Sir Benfro), mae'r data hwnnw'n awgrymu bod cyfraniad y sector cyhoeddus yn llai arwyddocaol, ond yn dal i fod yn hynod bwysig, gan gyfrif am hanner yr holl dwf mewn cyflogaeth ymysg y gweithlu benywaidd, er gwaethaf y ffaith ei fod yn gyflogwr llai. Mae Sir Fynwy yn sefyll allan fel yr unig sir lle ymddengys bod y sector preifat yn gwbl gyfrifol am dwf mewn cyflogaeth rhwng 2001 a 2004.

Golygai'r patrymau hyn bod dosbarthiad y gweithlu benywaidd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat mewn rhai siroedd wedi newid yn sylweddol – er, fel y nodwyd uchod, y dylid ystyried y data gyda chryn ofal. Mae tabl 5.35 yn dangos arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth o fewn y gweithlu benywaidd mewn ardaloedd awdurdodau unedol 'gwledig' yn 2001 a 2004 a chanran y newid dros y cyfnod hwn o dair blynedd, yn ôl eu trefn.

Tabl 5.35: Arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gyfanswm cyflogaeth o fewn y gweithlu benywaidd mewn ardaloedd awdurdodau unedol 'gwledig' yn 2001 a 2004 a % newid 2001-4, yn ôl eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf)

| **Ardal ddaearyddol** | **% 2001** | **% 2004** | **% newid 2001-2004** |
|---|---|---|---|
| Powys | 28.7 | 36.7 | 8.0 |
| Sir Ddinbych | 33.8 | 40.9 | 7.1 |
| Gwynedd | 36.2 | 43.1 | 6.9 |
| Sir Benfro | 32.9 | 35.3 | 2.4 |
| Sir Fôn | 38.7 | 40.8 | 2.1 |
| Ceredigion | 39.5 | 41.2 | 1.7 |
| Sir Gaerfyrddin | 47.0 | 48.1 | 1.1 |
| Conwy | 31.7 | 32.7 | 1.0 |
| Sir Fynwy | 33.6 | 32.8 | -0.8 |
| **Cefn Gwlad Cymru** | **35.4** | **39.6** | **4.2** |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Ym mhob un sir ac eithrio un, mae'r data'n awgrymu bod arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus wedi cynyddu ymysg y gweithlu benywaidd rhwng 2001 a 2004. Mae'r newidiadau mwyaf sylweddol o blaid cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i'w gweld ym Mhowys (8.0%), Sir Ddinbych (7.1%) a Gwynedd (6.9%). Ym mhob un achos, ac eithrio un, mae'r cynyddiadau'n fwy arwyddocaol nag unrhyw un o'r cynyddiadau ymddangosol mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu gwrywaidd. Dim ond yn Sir Fynwy y bu newid o blaid cyflogaeth yn y sector preifat ymysg y gweithlu benywaidd.

Digwyddodd y newidiadau amlycaf o blaid cyflogaeth yn y sector cyhoeddus mewn siroedd lle mae lefelau cymharol isel o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu benywaidd yn 2001. Yn y siroedd hynny lle roedd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ymysg y gweithlu gwrywaidd yn gymharol isel yn 2001, roedd y newidiadau'n llai sylweddol. Golyga'r patrymau hyn bod yr amrywiad daearyddol yn arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i'r gweithlu benywaidd wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf pan roedd data ar gael. Rhwng 2001 a 2004, cynyddodd cyfradd yr amrywiad – rhwng y siroedd sydd â'r cyfraddau uchaf ac isaf o gyflogaeth menywod y mae'r sector cyhoeddus yn cyfrif amdanynt – o 18.3% i 15.4%.

*Cymharu newidiadau yng nghyflogaeth dynion a menywod yn y sector cyhoeddus*
Mae amrywiad daearyddol arwyddocaol yn y cyfraddau newid cymharol rhwng y gweithlu gwrywaidd a'r gweithlu benywaidd. Fodd bynnag, y prif batrwm ar draws y siroedd gwledig yw ehangiad yng ngweithlu llafur benywaidd y sector cyhoeddus gydag ataliad – neu leihad hyd yn oed – yng ngweithlu llafur gwrywaidd y sector cyhoeddus. Mae tabl 5.36 yn dangos newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn ôl rhyw rhwng 2001 a 2004 yn y naw ardal awdurdod unedol gwledig.

Tabl 5.36: Newidiadau canran mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus 2001-2004 yn ôl rhyw, ardaloedd awdurdodau unedol gwledig

| | **% newid 2001-2004** | | **% newid blynyddol cyfartalog** | |
|---|---|---|---|---|
| **Ardal ddaearyddol** | **Menywod** | **Dynion** | **Menywod** | **Dynion** |
| Sir Fôn | 20 | 0 | 6.7 | 0 |
| Gwynedd | 37.5 | 16.7 | 12.5 | 5.6 |
| Conwy | 14.3 | 0.0 | 4.8 | 0.0 |
| Sir Ddinbych | 33.3 | 25.0 | 11.1 | 8.3 |
| Powys | 42.9 | 0.0 | 14.3 | 0.0 |
| Ceredigion | 16.7 | 0.0 | 5.6 | 0.0 |
| Sir Benfro | 14.3 | 0.0 | 4.8 | 0.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 6.7 | -12.5 | 2.2 | -4.2 |
| Sir Fynwy | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **Cefn Gwlad Cymru** | **19.4** | **2.4** | **6.5** | **0.8** |

Ffynhonnell: Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nid oedd unrhyw gynnydd yn nifer gweithwyr gwrywaidd y sector cyhoeddus mewn chwe sir (Sir Fôn, Conwy, Powys, Ceredigion, Sir Benfro a Sir Fynwy) rhwng 2001 a 2004. Dim ond yn un o'r tair sir yma (Sir Fynwy) na fu unrhyw gynnydd yn nifer gweithwyr benywaidd y sector cyhoeddus. Yn y pum sir arall, cododd cyflogaeth menywod yn y sector cyhoeddus 14% o leiaf; ym Mhowys, bu'r cynnydd gymaint â 42.9%.

O'r tair sir lle bu cynnydd yng nghyflogaeth dynion a menywod yn y sector cyhoeddus rhwng 2001 a 2004, roedd y twf yng nghyflogaeth menywod yn uwch na'r twf yng nghyflogaeth dynion ym mhob achos. Roedd y gwahaniaeth mwyaf yn Sir Fynwy, lle collwyd 2 weithiwr gwrywaidd ar gyfer pob gweithiwr benywaidd ychwanegol yn y sector cyhoeddus.

## ADRAN 6: ENILLION YN Y SECTOR CYHOEDDUS

Nid mewn niferoedd yn unig y gorwedd arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, nac yn nodweddion y rhai a gyflogir ychwaith; fe'i gwelir hefyd mewn lefelau cyflog a sicrwydd cyflogaeth. Mae trafodaeth eang am gyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng lefelau cyflog yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Yr ystrydeb draddodiadol yw bod cyflogau gweithwyr y sector cyhoeddus yn is, ond bod eu swyddi'n fwy sicr na swyddi gweithwyr yn y sector preifat. Mae'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ABOE) yn rhoi data am enillion gweithwyr amser llawn sy'n oedolion, nad oedd absenoldeb wedi effeithio ar eu tâl. Mae ffigurau ar gyfer y DU o ABOE 2004 yn dangos bod enillion wythnosol cymedr gweithwyr yn y sector preifat £16.20 yn uwch nag enillion gweithwyr y sector cyhoeddus (4% yn uwch). Fodd bynnag, fel y nodwyd yn adolygiad Philpott o'r sector cyhoeddus[12], mae'r patrwm i'r gwrthwyneb pan edrychir ar werth y canolrif. Mae'r canolrif yn awgrymu bod gweithwyr amser llawn yn y sector cyhoeddus yn ennill rhyw £19 yn fwy na'r rhai yn y sector preifat. Mae hyn yn awgrymu bod cyflogau yn y sector cyhoeddus yn llai pegynol na chyflogau yn y sector preifat.

Tabl 6.1: Cyflog gros wythnosol ar gyfer swyddi gweithwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn y DU

| | Canolrif | Cymedr |
|---|---|---|
| **Sector cyhoeddus** | £361.0 | £405.1 |
| **Sector preifat** | £341.9 | £421.3 |

Ffynhonnell: ABOE (2004)

Hyd yn ddiweddar, ymddangosai bod y bwlch rhwng enillion cyfartalog yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cynyddu – o blaid gweithwyr y sector preifat. Rhwng 1994 ac 1998, roedd codiadau cyflog blynyddol cyfartalog yn y sector cyhoeddus yn 2.5%, o'i gymharu â 7% yn y sector preifat (er y dylid trin ffigurau o'r fath yn ofalus, am eu bod yn anwybyddu amrywiad ar draws raddfeydd cyflog). Ymddengys y gallai'r patrwm hwn fod wedi arafu erbyn hyn, neu wedi cildroi i ryw raddau hyd yn oed. Er enghraifft, mae Gweithrediaeth yr Alban wedi cyfrifo bod cyflogau cyfartalog yn y sector cyhoeddus yn yr Alban wedi codi 20% rhwng 1999 a 2004, o'i gymharu â chyfartaledd o 18% yn y sector preifat.

### 6.1 Gwahaniaethau cyflog y sector cyhoeddus a phreifat yng nghefn gwlad Cymru

Mae'r data sy'n cefnogi'r ddamcaniaeth y caiff gweithwyr y sector cyhoeddus eu talu fwy na'u cymheiriaid yn y sector preifat yng Nghymru neu yng nghefn gwlad Cymru yn brin. Mae'r Trysorlys (2002, adolygiad trawstorri) yn awgrymu bod cyflogau'r sector cyhoeddus yng Nghymru ar y cyfan yn uwch na chyflogau cyfartalog y sector preifat, i ddynion a menywod ill dau.

[12] Philpott, J. (Mawrth 2004) CIPD Perspectives: public services

Mewn datganiad o safbwynt ar gyflogau llywodraeth leol, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n ystyried bod graddfeydd cyflog awdurdodau lleol, ar y cyfan, yn uwch na'r rhai a gynigir yn y sector preifat. Mae'n dyfynnu'r dystiolaeth gan un o'i haelodau:

> *"Rhoddodd un awdurdod rhanbarthol sy'n cwmpasu ardal fawr enghraifft o swyddi ysgrifenyddol, yr oeddent fel arfer yn eu talu ar raddfa 4, ac yr oedd y sector preifat yn eu hardal yn talu rhywbeth tebyg i raddfa 1."*

Yn ogystal, mae CLlLC yn nodi bod awdurdodau lleol yng nghefn gwlad Cymru "*nid yn unig yn gyflogwyr mawr, ond hefyd y prif gyflogwr*" ac felly cânt gryn effaith ar osod cyfradd y farchnad ar gyfer swyddi yn yr economi leol.

Mae'r data mwyaf cywir ar gyflogau yng nghefn gwlad Cymru, a gaiff ei wahaniaethu yn ôl sector cyflogaeth, ar gael o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Mae'r ystadegau hyn yn awgrymu y caiff gweithwyr y sector cyhoeddus sy'n gweithio yng nghefn gwlad Cymru, ar gyfartaledd:

- eu talu fwy na gweithwyr y sector cyhoeddus sy'n gweithio mewn ardaloedd anwledig yng Nghymru
- eu talu fwy na'r rhai sy'n gweithio yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol yng nghefn gwlad Cymru

Tabl 6.2: Enillion gros wythnosol cyfartalog yng Nghymru, yn ôl man gwaith

| | Ar sail man gwaith | | |
|---|---|---|---|
| | Gweithwyr y sector cyhoeddus | Gweithwyr nad ydynt yn y sector cyhoeddus | Pob gweithiwr |
| Cefn Gwlad Cymru | 513.0 | 396.8 | 440.0 |
| Cymru Anwledig | 500.1 | 439.6 | 460.2 |
| Cymru | 503.9 | 428.0 | 454.4 |

Ffynhonnell: ABOE (2005)

Mae'r gwahaniaeth mewn enillion gros wythnosol cyfartalog i weithwyr y sector cyhoeddus £12.90 yn uwch i'r rhai sy'n gweithio yng nghefn gwlad Cymru, o'i gymharu â'r rhai yn y Gymru anwledig. Mae'r amrywiad hwn mewn enillion o fewn Cymru i'r gwrthwyneb i'r hyn ydyw ymysg gweithwyr nad ydynt yn y sector cyhoeddus. Ar gyfartaledd, caiff gweithwyr y sector preifat a'r sector gwirfoddol sy'n gweithio yn 'y Gymru anwledig' eu talu £42.80 yn fwy bob wythnos na'u cymheiriaid sy'n gweithio yng nghefn gwlad Cymru. Mae enillion ar draws pob sector £20.20 yn uwch mewn ardaloedd trefol ac yn y Cymoedd, nag y maent yng nghefn gwlad Cymru.

Ymddengys bod enillion yn uwch i weithwyr y sector cyhoeddus na'r rhai mewn sectorau eraill, ledled Cymru. Mae'r bwlch cyflog ar ei fwyaf yng nghefn gwlad Cymru, a gellir cyfrif am hyn i raddau helaeth gan enillion wedi'u llethu yn y sector preifat. Mae enillion gros wythnosol cyfartalog £116.20 yn uwch yn y sector cyhoeddus na'r tu allan i'r sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru; maent £60.50

yn uwch mewn ardaloedd anwledig; a £75.90 yn uwch ar draws Cymru. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn adran 4 yn yr adroddiad hwn, mae cyfansoddiad galwedigaethol y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn amrywio'n fawr, sy'n effeithio'n fawr ar lefelau enillion. Mewn gwir dermau, yng nghefn gwlad Cymru mae enillion cyfartalog uchel yn y sector cyhoeddus ac enillion isel i weithwyr yn y sector preifat yn arwain at weithlu'r sector cyhoeddus yn cael cyflogau sylweddol uwch nag eraill sy'n byw ac yn gweithio yn yr un ardal.

Mae ychydig o wahaniaeth pan gaiff enillion eu cyfrif yn ôl man gwaith y gweithiwr, yn hytrach na'u man preswyl. Dim ond ychydig y mae enillion yn y sector cyhoeddus yn amrywio, yn ôl y ddau gyfrifiad yma, ond mae enillion gros wythnosol cyfartalog y sector preifat a'r sector gwirfoddol yng nghefn gwlad Cymru £32.50 yn uwch yn ôl man preswyl, o'i gymharu â man gweithio. Mae'n debygol bod hyn o ganlyniad i weithwyr y sector preifat yn cymudo y tu allan i gefn gwlad Cymru.

Tabl 6.3: Enillion gros wythnosol cyfartalog yng Nghymru, yn ôl man preswyl

| | Ar sail man preswyl | | |
|---|---|---|---|
| | Gweithwyr y sector cyhoeddus | Gweithwyr y tu allan i'r sector cyhoeddus | Pob gweithiwr |
| Cefn Gwlad Cymru | 513.9 | 429.2 | 460.2 |
| Cymru Anwledig | 501.4 | 441.3 | 461.1 |
| Cymru | 505.4 | 437.9 | 460.8 |

Ffynhonnell: ABOE (2005)

Gall cymariaethau mor gyffredinol fod yn gamarweiniol a chynnig ychydig iawn o wybodaeth. Yn aml, nid yw cymariaethau rhwng lefelau cyflog y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ystyried newidynnau digonol ac ni ellir eu defnyddio ym mhob achos oherwydd bod anghysonderau mewn cyflogau ar draws ac o fewn rhanbarthau. Mae'r gwahaniaethau rhwng swyddi, gwaith a nodweddion gweithwyr yn y ddau sector yn tanbrisio data cymharol. Nid oes swyddi cymharol yn y sector preifat gan lawer o swyddi yn y sector cyhoeddus, tra bo nodweddion unigolion sy'n gwneud swyddi tebyg yn debygol o amrywio rhwng sectorau. Yn ogystal, mae preifateiddio rhai gweithgareddau yn y sector cyhoeddus, megis glanhau ac arlwyo, sydd â lefelau cyflog isel ar y cyfan, wedi arwain at enillion cyfartalog uwch i weddill swyddi'r sector cyhoeddus.

Byddai'n fwy addas cymharu cyflogau rhwng unigolion sy'n ymgymryd â swyddi tebyg yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Canfu astudiaeth gan Disney a Gosling (2003) bod gan weithwyr gwrywaidd y sector cyhoeddus bremiwm cyflog cyfartalog o 5%, o'i gymharu â dynion tebyg yn y sector preifat. Nodwyd bod gwahaniaeth cyflog mwy rhwng menywod: cyfartaledd o 17%. Mae Lucifora a Meurs (2004) yn ategu'r canfyddiadau hyn: mae eu hymchwil nhw hefyd yn nodi bod gwahaniaeth cyflog cadarnhaol i'r sector cyhoeddus, sy'n fwy amlwg ymysg menywod na dynion. Yn ogystal, dônt i'r casgliad bod y premiwm yn uwch i weithwyr ar gyflog is. Ar y cyfan, mae cyflogau gweithwyr yn y sector cyhoeddus sydd ar gyflog isel yn uwch na'r lleiafswm cyflog. Mae'r cyfraddau lleiaf ar draws y sector cyhoeddus yn dueddol o fod rhyw 20% yn uwch na'r lleiafswm cyflog cenedlaethol – roedd gan lywodraeth

leol a'r GIG gyfradd leiaf o £5.33 yn 2004, o'i gymharu â'r gyfradd statudol, sef £4.85 yn ystod yr un adeg (Brooks, 2004).

## 6.2 Cyflog rhanbarthol

Penderfyniadau gwleidyddol ar y lefel genedlaethol sy'n pennu graddfeydd cyflog y sector cyhoeddus, yn hytrach nag elw neu farchnadoedd llafur lleol, sy'n golygu bod goblygiadau penodol i'r farchnad lafur a'r economi ehangach (Brooks, 2004). Fodd bynnag, mae'r llywodraeth wedi gwneud cynigion am dâl rhanbarthol yn y pum mlynedd diwethaf (Winckler, 2004). Mewn datganiad diweddar (2003), honnodd Gordon Brown ei fod am greu dimensiynau lleol a rhanbarthol cryfach yng nghyflogau'r sector cyhoeddus o fewn 'fframweithiau a bennir yn genedlaethol'. Yn yr un modd, yn ei adolygiad o ail-leoli yn y sector cyhoeddus yn 2004, mae Michael Lyons yn dadlau y dylai ail-leoli'r sector cyhoeddus fynd law yn llaw â hyblygrwydd cyflogau er mwyn cynnig y manteision gorau i'r llywodraeth ac i'r lleoliadau y mae'r swyddi'n mynd iddynt.

O safbwynt y Trysorlys, un o'r prif resymau dros weithredu cyflogau rhanbarthol yw achosi lleihad yn y bil cyflogau cyffredinol ar gyfer y sector cyhoeddus. Yn ogystal, caiff strwythurau cyflog amrywiol eu cysylltu â diwygiadau ehangach yn y sector cyhoeddus, sy'n gysylltiedig â darpariaeth fwy hyblyg sy'n ymateb i alw.

> "*Nid yw cyflogau sylfaenol cyffredinol i bawb yn deg nac yn debygol o gyflawni'r canlyniadau gorau i'r cyhoedd….Yn y gorffennol, pennwyd graddfeydd cyflog yn genedlaethol ac roedd y tâl yn seiliedig ar yr hyd y gwasanaethwyd. Roedd y systemau cyflog yn llym a heb hyblygrwydd.*" (Trysorlys EM, 2002, adroddiad cyn y gyllideb, pennod 6)

O ran cyflenwad llafur, rhagwelir y byddai cyflogau gwahaniaethol yn achosi gwelliannau yng ngweithlu'r sector cyhoeddus. Cydnabyddir hyn yn yr adroddiad cyn y gyllideb yn 2002:

> *"Mae angen i systemau talu roi rhyddid i bobl recriwtio, cadw a chymell y nifer cywir o bobl sydd â'r sgiliau iawn mewn lleoliadau penodol...Mae'n rhaid gallu amrywio cyflogau ar y lefel leol, yn ôl pwysau lleol."*

Hyd yma, nid oes un o gyrff adolygu cyflogau'r sector cyhoeddus wedi derbyn egwyddor hyblygrwydd cyflogau, nac wedi mabwysiadu ymarfer amrywio cyflogau yn ôl ardal. Mae'r undebau llafur yn gwrthwynebu hyblygrwydd cyflogau rhanbarthol / lleol hefyd.

Yn ei bapur ar wendidau cyflogau rhanbarthol, mae UNISON yn nodi bod anghysonderau o fewn marchnadoedd llafur yn seiliedig ar ardaloedd lleol yn amlach nag ar raddfa ranbarthol. Yn aml, mae ardaloedd sydd â lefelau cyflogau cyfartalog uchel yn gymdogion i'r rhai sydd â lefelau cyfartalog isel, tra bo pocedi o ardaloedd â chyflogau cymedrig isel yn bodoli yn yr ardaloedd mwyaf llewyrchus. Yn ogystal, mae ardaloedd teithio-i'r-gwaith yn aml yn croesi ffiniau rhanbarthol, sy'n cymhlethu ymhellach unrhyw ddiffiniad syml o gyfradd cyflog cyfartalog ardal. Nododd adolygiad o wariant y Trysorlys yn 2000 hefyd bod 'amrywiadau ym marchnad lafur y sector cyhoeddus yn rhai lleol ar y cyfan, yn hytrach na rhanbarthol, a gallant wahaniaethu'n sylweddol yn ôl galwedigaeth.' Cynigir bod hyblygrwydd ar y lefel leol yn hanfodol felly wrth ystyried recriwtio a chadw staff.

Un her ymarferol sy'n gysylltiedig â gweithredu strwythurau cyflog rhanbarthol neu leol yw'r sail y pennir gwahaniaethau o'r fath arnynt. Y dull a ddefnyddir fwyaf aml i ddyrannu cyflog amrywiol yn y sector cyhoeddus yw alinio lefelau'r sector cyhoeddus i rai'r sector preifat. Fodd bynnag, beirniedir y dull hwn am ei fod yn defnyddio'r sector preifat yn sail. Ofnir y byddai'n dwysau anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes yn y farchnad lafur, yn enwedig yn y rhanbarthau lle mae'r economi ar ei gwaethaf, sy'n aml yn dibynnu'n fwy ar gyflogaeth yn y sector cyhoeddus.

Ffordd arall o wahaniaethu cyfraddau cyflogau yn ôl daearyddiaeth yw amrywio cyflogau yn unol â chost byw. Mae llawer o anawsterau'n drysu'r dull hwn hefyd. Yn aml, nid yw'n hawdd adnabod ardaloedd lle mae cost byw yn uchel, gan fod is-ardaloedd lle mae costau'n uchel ac yn isel yn aml wedi'u lleoli'n agos at ei gilydd. Yn hytrach, mae UNISON yn cynnig system o lwfansau rhanbarthol i sicrhau y gall ei aelodau sy'n byw mewn ardaloedd lle mae'r costau'n uchel gynnal eu safonau byw. Byddai hyn yn golygu darparu ychwanegiadau cyflog drwy bwysoli mewn ardaloedd lle mae'r gost yn uchel, heb ostwng cyflogau mewn rhanbarthau lle mae costau byw yn is. Byddai lwfansau o'r fath wedi'u seilio mewn cytundeb cenedlaethol ac felly byddant yn caniatáu parhau i fargeinio'n genedlaethol.

Mae adroddiad y trysorlys yn 2002[13] yn dadlau bod bargeinio ar gyflogau cenedlaethol wedi bod o fudd i weithwyr y sector cyhoeddus y tu allan i'r de-ddwyrain. Ar hyn o bryd, nid oes unman yng Nghymru'n denu premiwm cyflog, felly caiff gweithwyr y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru eu talu'r un faint â gweithwyr ledled y DU, y tu allan i Lundain. Er nad oes arwydd y byddai cyflogau'n cael eu torri neu eu ffrwyno mewn ardaloedd lle mae'r lefelau cyflogau cyfartalog yn is, neu lle mae costau byw yn is, mae'n debygol y byddai gweithwyr y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru ar eu colled mewn system sy'n pennu lefelau cyflog yn ôl nodweddion rhanbarthol neu leol.

Mae cyfrifoldeb ar y sector cyhoeddus i fod yn gyflogwr enghreifftiol ar lefel genedlaethol a lleol. Mae hyn yn ymwneud nid yn unig â chyflogau, ond hefyd â phensiynau, recriwtio, gwyliau, ffyrdd hyblyg o weithio ac arferion asesu a hyrwyddo. Yn draddodiadol, ystyriwyd y gwnaed iawn am gyflogau is yn y sector cyhoeddus yn rhannol drwy well pensiynau a gwell sicrwydd yn eu swyddi i weithwyr y sector cyhoeddus.

Ar y cyfan, ystyrir bod dyfarniadau cyflog a darpariaeth pensiynau'n fwy hael yn y sector cyhoeddus. Yn ôl data'r ONS, mae gweithwyr y sector cyhoeddus wedi gweld codiadau cyflog mwy na'u cymheiriaid yn y sector preifat ers pedair blynedd (4.6% o'i gymharu â 4.2%). Yn ogystal, ystyrir bod pensiynau cyflog terfynol yn y sector cyhoeddus yn fudd ariannol i'r rhai sydd mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus.

[13] Adroddiad trawstorri o farchnad lafur y SC

## ADRAN 7: YMCHWIL EMPIRIG

### 7.1 Cynllunio'r ymchwil empirig

I gael trosolwg manylach o nodweddion gweithwyr y sector cyhoeddus sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru, cynhaliwyd holiadur gyda chant o weithwyr y sector cyhoeddus. Nodau'r ymchwil empirig hon oedd:

- Galluogi cymariaethau rhwng gweithwyr mewn pedair ardal sy'n amrywio o ran eu dibyniaeth ar gyflogaeth yn y sector cyhoeddus
- Hwyluso cymariaethau rhwng gwahanol sectorau a gwahanol gyflogwyr yn y sector cyhoeddus
- Ennill gwell dealltwriaeth o farn gweithwyr y sector cyhoeddus am fanteision ac anfanteision gweithio yn y sector cyhoeddus
- Cael syniad o symudedd daearyddol a galwedigaethol yn y sector cyhoeddus

Dewiswyd pedair astudiaeth achos er mwyn dysgu mwy am nodweddion gweithlu'r sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru (gweler ffigur 7.2). Dewiswyd dwy ardal sydd â chyfran uchel o weithwyr yn y sector cyhoeddus o fewn y gweithlu cyfan, a dewiswyd dwy ar sail cyfran gymharol isel o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Dewiswyd y rhain yn ôl data o Arolwg 2004 o'r Gweithlu Llafur Lleol.


Tabl 7.1: Cyfran yr holl weithwyr sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus mewn awdurdodau lleol gwledig

| | **% sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus** |
|---|---|
| Gwynedd | 33.3 |
| Sir Gaerfyrddin | 32.3 |
| Ceredigion | 30.5 |
| Sir Ddinbych | 29.9 |
| Sir Fôn | 28.4 |
| Sir Benfro | 25.1 |
| Conwy | 24.2 |
| Powys | 24.2 |
| Sir Fynwy | 22.8 |
| *Cefn Gwlad Cymru* | *28.1* |

Ffynhonnell y data: AGLL (2004)

Dewiswyd **Gwynedd** a **Sir Gaerfyrddin** ar gyfer y ddwy ardal sydd â chyfran uchel o weithwyr yn y sector cyhoeddus. Ar ben arall y sbectrwm, dewiswyd **Conwy** a **Phowys**. Ni ddewiswyd Sir Fynwy oherwydd nad oedd gennym lawer o gysylltiadau yn yr ardal hon.

Ffigur 7.2: Map o ardaloedd yr astudiaethau achos (mae'r ymatebwyr yn byw yn yr ardaloedd a liwiwyd)




Rhoddwyd yr holiadur i gant o weithwyr sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Dewiswyd unigolion o'r gronfa ddata bresennol o ymatebwyr a lenwodd Arolwg AWC o gartrefi yng ngwanwyn 2004 ac a nododd, bryd hynny, eu bod yn gweithio i sefydliad yn y sector cyhoeddus. Yn yr arolwg hwn, nododd cyfanswm o 684 o ymatebwyr eu bod yn gweithio yn y sector cyhoeddus, ac o'r rheiny, cytunodd 551 y gellid cysylltu â nhw eto.

**Bocs 7.1 Crynodeb o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus ym mhedair ardal yr astudiaethau achos**

Gwynedd

Yn ôl data Arolwg 2004 o'r Gweithlu Llafur Lleol, Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o weithwyr y sector cyhoeddus yn ei gweithlu llafur (33%). Hi sydd hefyd wedi gweld y twf mwyaf yng nghyfran cyflogaeth y sector cyhoeddus rhwng 2001 a 2004: cynnydd o 5.2 pwynt canran, o'i gymharu â chynnydd 1.6 pwynt canran i Gymru gyfan. Mae ffigurau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer 2005/6 yn nodi bod 6,976 o bobl yn gweithio i'r sector cyhoeddus yng Ngwynedd, sy'n cyfrif am dros un rhan o dair (39%) o gyfanswm cyflogaeth y sector cyhoeddus. Mae dynion yn fwy tebygol o weithio yn y sector cyhoeddus yng Ngwynedd nag yn unrhyw ardal arall yng nghefn gwlad Cymru: mae 24% o ddynion sy'n gweithio yn gweithio yn y sector cyhoeddus, o'i gymharu â 18% ar draws cefn gwlad Cymru.

Sir Gaerfyrddin

Sir Gaerfyrddin sydd â'r nifer fwyaf o weithwyr o fewn gweithlu'r sector cyhoeddus (23,000 – sy'n 5,000 yn fwy nag unrhyw awdurdod arall[14]). Fodd bynnag, hi sydd â'r gweithlu llafur mwyaf, gyda 72,000 o unigolion mewn cyflogaeth. Mae cyfanswm o 32% o'r rhai sydd mewn cyflogaeth yn gweithio yn y sector cyhoeddus ar hyn o bryd. O ganlyniad i faint ardal yr awdurdod hwn, mae'r awdurdod lleol yn gyflogwr pwysig: yn cyflogi 9,416 o bobl. Fodd bynnag, dim ond am 39% o weithlu'r sector cyhoeddus y mae'r awdurdod lleol yn cyfrif, sy'n adlewyrchu bod sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yn bresennol yn yr ardal (e.e. Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, Swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r DVLA yn Abertawe). Yng nghefn gwlad Cymru, Sir Gaerfyrddin sydd â'r gyfran fwyaf o fenywod yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Mae bron i hanner yr holl fenywod sy'n gweithio yn Sir Gaerfyrddin yn gweithio yn y sector cyhoeddus (48%), tra mai dim ond 19% o'r dynion sy'n gweithio sy'n gwneud hynny yn y sector hwn.

Conwy

Mae llai na chwarter (24.2%) y rhai sy'n gweithio yng Nghonwy yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Arhosodd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, fel cyfran o gyfanswm cyflogaeth, yn gymharol statig yn yr awdurdod hwn rhwng 2001 a 2004, gan godi llai nag 1 pwynt canran. O fewn y gweithlu benywaidd, Conwy sydd â'r gyfran leiaf yn gweithio yn y sector cyhoeddus: dim ond 33%, o'i gymharu â chyfartaledd o 40% yng nghefn gwlad Cymru.

Powys

Fel yn achos Conwy, dim ond 24% o'r gweithwyr sy'n byw ym Mhowys sydd wedi'u cyflogi gan sefydliad yn y sector cyhoeddus. Rhwng 2001 a 2004, 3.1 pwynt canran oedd cyfradd twf cyfran gweithlu'r sector cyhoeddus, sydd dair gwaith yn fwy na chyfartaledd cefn gwlad Cymru. Powys sydd â'r nifer fwyaf ond un o weithwyr yn yr awdurdod lleol, sy'n cyfrif am 50% o weithlu'r sector cyhoeddus. Hefyd, mae gan Bowys gyfran gymharol isel o weithwyr sydd wedi'u cyflogi ym mhrif ddiwydiannau'r sector cyhoeddus: addysg, iechyd a gweinyddiaeth gyhoeddus (32% o'i gymharu â chymedr cefn gwlad Cymru, sef 37%).

[14] Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol (2004)

Gofynnwyd y cwestiynau cychwynnol i wirio a yw'r unigolion ar hyn o bryd yn gweithio yn y sector cyhoeddus ac a yw eu disgrifiad hunan-ddiffinedig o'r sector cyhoeddus yr un peth â'r disgrifiadau a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon. At ddibenion yr ymchwil hon, diffiniad y sector cyhoeddus yw'r rhai sy'n gweithio yn y llywodraeth ganolog, mewn llywodraeth leol a chorfforaethau cyhoeddus, fel y defnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Hicks *et al., 2005*). Mae'r llywodraeth ganolog yn cynnwys adrannau o Lywodraeth yr UE, y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal â chyrff cyhoeddus a noddir gan y cynulliad. Mae llywodraeth leol yn cynnwys sefydliadau gweinyddol sy'n cwmpasu tiriogaethau llai a sawl corff a reolir ac a reolir yn ariannol ganddynt. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol, heddluoedd, byrddau iechyd lleol a'r gwasanaeth prawf. Mae corfforaethau cyhoeddus yn gyrff a reolir gan y llywodraeth. Yn eu mysg mae'r Post Brenhinol, y BBC, S4C, a Tanwydd Niwclear Prydain ccc.

Dewiswyd yr un faint o ymatebwyr o bob un o bedair ardal yr astudiaethau. Mae rhyw yr ymatebwyr ar draws y sampl cyfan yn adlewyrchu dominyddiaeth menywod yng ngweithlu'r sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru. Mae data o Arolwg 2004 o'r Gweithlu Llafur Lleol yn awgrymu bod 35% o weithlu'r sector cyhoeddus yn ddynion a 66% yn fenywod. Mae'r sampl a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon yn adlewyrchu'r ymraniad hwn rhwng y rhywiau, ac mae 36% o'r ymatebwyr yn ddynion a 64% yn fenywod. Ac eithrio'r un newidyn hwn, ffoniwyd ymatebwyr potensial ar hap.

Rhoddwyd holiadur peilot i sampl o weithwyr y sector cyhoeddus, sy'n gweithio i amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys gweithwyr o awdurdod lleol, corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, a chorfforaeth gyhoeddus. Gwnaed newidiadau yn sgil hynny.

Ffoniwyd yr ymatebwyr rhwng 17.00 a 19.00. Roedd yr holiadur yn para rhyw 10 munud. Cysylltwyd â 161 o unigolion i gyd. Roedd chwe deg un o'r rhain yn anfodlon, neu'n methu, cael eu cyfweld, felly roedd cyfradd llwyddiant bron i ddau berson ym mhob tri a ffoniwyd.

O'r rhai na chwblhaodd y cyfweldiad, gwrthodwyd wyth ar hugain am nad oeddent yn gweithio yn y sector cyhoeddus ar y pryd: roedd eu swyddi wedi newid ers y cyfweliad blaenorol yn 2001, nid oeddent yn gweithio mwyach, neu nid oedd eu diffiniad o'r sector cyhoeddus yn cyd-fynd â'r diffiniad a ddefnyddir yn yr arolwg hwn. Roedd dau ar bymtheg naill ai ddim yn byw yn y cyfeiriad roedd gennym ar eu cyfer neu nid oedd eu ffôn yn derbyn galwadau i mewn o rifau a gelwyd, a gwrthododd pymtheg o unigolion gymryd rhan yn yr arolwg.

## 7.2 Canlyniadau'r ymchwil empirig

Mae'r adran hon yn rhoi canlyniadau'r arolwg o weithwyr y sector cyhoeddus. Mae'n cyflwyno trosolwg o nodweddion gweithlu'r sector cyhoeddus ac yn dadelfennu patrymau cyflogaeth i amrywiaeth o newidynnau. Defnyddiwyd trawsdablu i ganiatáu dadansoddiad manylach o'r canlyniadau yn ôl gwahanol alwedigaethau a math o gyflogwr o fewn y sector cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad o nodweddion yn ôl rhyw, oedran, incwm, y Gymraeg, cymwysterau a man preswyl.

7.2.1 Dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg, yn ôl math o gyflogwr

Mae data'r arolwg yn dangos bod 49% o'r ymatebwyr yn gweithio i awdurdod lleol, a 7% arall wedi'u cyflogi gan awdurdod addysg lleol. Gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Byrddau Iechyd Lleol sy'n cyfrif am yr ail gyfran fwyaf o ymatebwyr (18%). Mae ychydig dros un o bob deg o'r ymatebwyr yn gweithio i adrannau llywodraeth y DU, fel y DVLA, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Comisiwn Coedwigaeth.

Tabl 7.3: Canran yr ymatebwyr sy'n gweithio i'r prif gyflogwyr yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru

| | **% yr ymatebwyr** |
|---|---|
| Awdurdod lleol | 49 |
| Awdurdod addysg lleol | 7 |
| GIG neu fwrdd iechyd lleol | 18 |
| Adrannau Llywodraeth y DU | 11 |
| Yr heddlu neu'r gwasanaeth tân | 9 |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru neu CCNC | 3 |

*Oedran*
Mae dros un rhan o dair o weithlu'r sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru rhwng 45 a 54 oed. Mae'r dosbarthiad oedran yn amrywio ymysg y prif gyflogwyr yn y sector cyhoeddus. Ymddengys bod mwy o gyflogwyr hŷn yn gweithio i adrannau Llywodraeth y DU ac i awdurdodau lleol; mae lefelau uwch na'r cyfartaledd o weithwyr iau yn gweithio i'r heddlu.

Tabl 7.4: Canran gweithlu'r sector cyhoeddus yn ôl categori oedran

| **Oedran** | GIG A BYRDDAU IECHYD LLEOL | ALL AC AALL | HEDDLU | LLYW DU | **POB UN** |
|---|---|---|---|---|---|
| **16 – 24** | 0 | 4 | 0 | 0 | **2** |
| **25 – 34** | 17 | 9 | 38 | 17 | **14** |
| **35 – 44** | 33 | 32 | 25 | 17 | **29** |
| **45 – 54** | 28 | 36 | 25 | 42 | **35** |
| **55 – 64** | 17 | 20 | 13 | 25 | **19** |
| **65+** | 6 | 0 | 0 | 0 | **1** |

*Rhyw*
Defnyddiwyd samplu pwrpasol i sicrhau bod ymraniad dynion: menywod yn yr arolwg hwn yn adlewyrchu'r cyfartaledd ar gyfer cefn gwlad Cymru yn yr Arolwg o'r Gweithlu Llafur Lleol. Yn unol â hynny, mae 36% o'r ymatebwyr yn ddynion a 64% yn fenywod. Mae rhywfaint o anghysondeb yng nghydbwysedd y gweithwyr o ran rhyw, yn ôl y math o gyflogwr, er bod y canlyniadau hyn yn seiliedig ar samplau cymharol fach. Mae rhagniferedd o fenywod yn y sector iechyd ac yn adrannau Llywodraeth y DU, tra bo'r ymraniad yn fwy cyfartal mewn awdurdodau lleol.

Tabl 7.5: Cydbwysedd rhyw gweithwyr y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru (canrannau)

| | **Dynion** | **Menywod** |
|---|---|---|
| GIG a Byrddau iechyd lleol | 17 | 83 |
| Awdurdodau lleol ac AALl | 38 | 63 |
| Adrannau llywodraeth y DU | 17 | 83 |
| | | |
| **Cyfanswm** | 36 | 64 |

*Incwm*

Categori model o ran incwm gweithwyr y sector cyhoeddus yn yr arolwg hwn yw'r categori £10,000 i £15,500, sy'n cynnwys 23% o'r holl ymatebwyr. Mae incwm cyfartalog yn amrywio rhywfaint, yn ôl y math o gyflogwr. Mae 44% o'r rhai a gyflogir gan y GIG neu fyrddau iechyd lleol yn ennill rhwng £15,500 a £21,000. Mae chwarter o'r rhai a gyflogir gan awdurdod lleol yn rhoi eu hincwm yn y band £21,000 i £31,000, tra bo gan 41% o weithwyr llywodraeth leol yn yr arolwg incwm blynyddol o dros £31,000.

Tabl 7.6: Dosbarthiad incwm ymysg gweithwyr y sector cyhoeddus (canran yr ymatebwyr)

| | **Canran yr holl ymatebwyr** | Gweithwyr awdurdodau lleol | Gweithwyr y GIG a byrddau iechyd lleol |
|---|---|---|---|
| Llai na £5000 y flwyddyn | **2** | 2 | 6 |
| £5,000 – £10,000 | **16** | 18 | 11 |
| Rhwng £10,000 a £15,500 | **23** | 27 | 17 |
| Rhwng £15,500 a £21,000 | **21** | 10 | 44 |
| Rhwng £21,000 a £31,000 | **21** | 24 | 11 |
| Rhwng £31,000 a £52,000 | **15** | 16 | 0 |
| £52,000 + | **3** | 0 | 6 |

7.2.2 Dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg, yn ôl math o alwedigaeth

Yn ôl yr arolwg, mae mwyafrif gweithwyr y sector cyhoeddus yn gweithio mewn galwedigaethau rheoli, proffesiynol neu weinyddol. Mae pymtheg y cant o'r gweithwyr yn weithwyr llaw, ac mae'r rhan fwyaf o'r rheiny'n diffinio'u swyddi fel 'gweithiwr llaw medrus'.

*Oedran*

Mae 45% o'r rhai sy'n gweithio mewn swyddi 'uwch' neu 'ganolradd' rhwng 45 a 54 oed. Mae mwy o weithwyr iau mewn galwedigaethau gwaith llaw: gweithwyr rhwng 25 a 34 oed sy'n gwneud 21% o'r swyddi hyn yn y sector cyhoeddus.

*Rhyw*

Mae pedwar ar ddeg y cant o'r ymatebwyr gwrywaidd yn diffinio eu swyddi fel rhai rheoli, gweinyddol neu broffesiynol uwch ac mae 50% yn ystyried bod eu swyddi'n rhai rheoli, gweinyddol neu broffesiynol canolradd. Mae menywod gryn dipyn yn llai tebygol o fod mewn swyddi mor uchel: mae 6% o weithwyr benywaidd yn ystyried bod eu gwaith ar lefel 'uwch' a 31% yn ei ystyried ei fod ar lefel 'ganolradd'. Hefyd, mae dynion yn fwy tebygol o fod yn weithwyr llaw – medrus ac anfedrus. Mae mwy o fenywod mewn galwedigaethau dosbarth canol is, sydd yn y dosbarth 'rheoli, gweinyddol neu broffesiynol is goruchwylio neu glerigol' (46%, o'i gymharu â dim ond 19% o ddynion).

Tabl 7.7: Galwedigaethau dynion a menywod sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus (canrannau)

| | **Dynion** | **Menywod** |
|---|---|---|
| Rheoli, proffesiynol neu weinyddol uwch | 14% | 6% |
| Rheoli, proffesiynol neu weinyddol canolradd | 50% | 31% |
| Rheoli, proffesiynol neu weinyddol goruchwylio neu is | 19% | 47% |
| Gweithwyr llaw medrus | 11% | 10% |
| Gweithwyr llaw medrus neu led fedrus | 6% | 3% |
| Gweithwyr achlysurol | 0% | 2% |

*Incwm*

Mewn swyddi rheoli, gweinyddol neu broffesiynol uwch a chanolradd, mae 6% o'r sampl yn ennill dros £52,000 a 30% yn ennill rhwng £31,000 a £52,000. Yn naturiol, nid yw incwm cyfartalog mewn categorïau galwedigaethol eraill mor uchel. Yr amrediad cyflog model i weithwyr llaw yw rhwng £10,000 a £15,500, sy'n cyfrif am 45% o'r ymatebwyr yn y galwedigaethau hyn. Mae mynychder galwedigaethau ar lefelau uwch yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru yn esbonio'n rhannol lefelau cyflog uchel i weithwyr y sector cyhoeddus, o'i gymharu â'u cymheiriaid yn y sector preifat.

*Cymwysterau*

Ymddengys nad yw gradd neu gymhwyster ôl-radd yn hanfodol i fod mewn swyddi ar radd uwch, yn ôl y data a gyflwynir yn nhabl 7.8. Mewn galwedigaethau rheoli, proffesiynol a gweinyddol uwch, mae gan 49% o'r ymatebwyr radd neu gymhwyster ôl-radd. Cymhwyster uchaf 23% o'r gweithwyr yn y galwedigaethau hyn yw Safon Uwch neu gymhwyster cyfwerth. Mae gweithwyr llaw yn fwy tebygol o fod heb alwedigaethau neu alwedigaethau isel, ond mae gan 47% o'r gweithwyr hyn Safon Uwch, HNC neu OND.

Tabl 7.8: Lefel cymhwyster uchaf: cyfanswm ac yn ôl grwp galwedigaeth (canrannau)

| | Rheoli, proffesiynol a gweinyddol uwch a chanolradd | Rheoli, proffesiynol a gweinyddol is | Gweithwyr llaw | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Dim cymwysterau | 0 | 3 | 27 | **5** |
| Tystysgrif gadael ysgol | 0 | 0 | 7 | **1** |
| Lefel O, TAG neu TGAU | 11 | 22 | 27 | **17** |
| Safon Uwch, HNC neu OND | 23 | 16 | 27 | **21** |
| HND neu ddiploma tebyg | 17 | 27 | 13 | **20** |
| Gradd prifysgol | 38 | 27 | 7 | **29** |
| Cymhwyster ôl-radd | 5 | 5 | 0 | **7** |

*Cyflogwr*

Drwy drawsdablu galwedigaethau'r ymatebwyr â'r math o gyflogwr, ymddengys bod galwedigaethau'n amrywio ymysg gwahanol sefydliadau yn y sector cyhoeddus (tabl 7.9). O fewn y GIG, mae mwy o staff rheoli, proffesiynol a gweinyddol uwch a chanolradd: 67%, o'i gymharu â 47% o'r holl ymatebwyr. Mae gan awdurdodau lleol a'r GIG fwy o weithwyr llaw na'r sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru yn gyffredinol, sy'n adlewyrchu eu swyddogaeth o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus.

Tabl 7.9: Pa un o'r categorïau canlynol, yn eich barn chi, sy'n disgrifio'ch galwedigaeth orau? (canrannau)

| | GIG a Byrddau Iechyd Lleol | ALl ac AALl | Llywodraeth y DU | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli, proffesiynol neu weinyddol uwch | 17 | 5 | 8 | **9** |
| Rheoli, proffesiynol neu weinyddol canolradd | 50 | 34 | 25 | **38** |
| Rheoli, proffesiynol neu weinyddol goruchwylio neu is | 17 | 38 | 67 | **37** |
| Gweithwyr llaw medrus | 11 | 16 | 0 | **11** |
| Gweithwyr llaw medrus neu led fedrus | 6 | 5 | 0 | **4** |
| Gweithwyr achlysurol | 0 | 2 | 0 | **1** |

7.2.3 Pellter teithio i'r gwaith

Mae mwyafrif yr ymatebwyr yn gweithio llai na 10 milltir oddi wrth eu cartrefi, a dros chwarter yn gweithio llai na 5 milltir i ffwrdd. Mae tri ar ddeg y cant yn byw 20 milltir neu fwy o'u man cyflogaeth. Nid yw'n syndod bod y rhai sy'n nodi bod eu man preswyl yn dref neu'n bentref yn fwy tebygol o fyw yn agos at eu gweithle: mae un rhan o dair o'r rhai sy'n gweithio mewn pentref a chwarter o'r rhai sy'n gweithio mewn tref lai na 5 milltir i ffwrdd o'u gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr sy'n byw yn y wlad agored yn cymudo rhwng 5 a 10 milltir.

Tabl 7.10: Pellter o'r man preswyl i'r man gwaith (canrannau)

| | % |
|---|---|
| Llai na 5 milltir | 26 |
| Rhwng 5 a 10 milltir | 33 |
| 11 – 20 milltir | 24 |
| 21 – 49 milltir | 12 |
| 50 milltir neu fwy | 1 |
| Ddim yn berthnasol / ddim yn gwybod | 4 |

Trigolion Powys sy'n debygol o deithio bellaf i'r man gwaith: mae chwarter ymatebwyr Powys yn cymudo rhwng 21 a 49 milltir. Mae 32% o weithwyr y sector cyhoeddus ym Mhowys yn gweithio y tu allan i ardal yr awdurdod lleol. Yng Ngwynedd, mae 80% yn gweithio llai na 10 milltir o'u cartrefi, ac mae mwyafrif y gweddill yn gweithio rhwng 11 a 20 milltir i ffwrdd.

7.2.4 Y Gymraeg


Mae dros hanner yr ymatebwyr yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl (37%) neu'n eithaf da (17%). Mae 32% yn methu â siarad Cymraeg o gwbl.

Tabl 7.11: Gallu yn y Gymraeg

| | % |
|---|---|
| Rhugl | 37 |
| Eithaf da | 17 |
| Ychydig eiriau neu frawddegau | 14 |
| Ddim o gwbl | 32 |

Mae'r duedd i siarad Cymraeg yn amrywio ar draws y pedair ardal. Yn ôl yr arolwg, mae dros 70% o weithwyr y sector cyhoeddus sy'n byw yng Ngwynedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, o'i gymharu â dim ond 8% o'r rhai ym Mhowys. Fodd bynnag, ym Mhowys mae'r gyfran uchaf o weithwyr (32%) sy'n ystyried y gallant siarad Cymraeg yn 'eithaf da'.

Ffigur 7.12: Cyfran gweithwyr y sector cyhoeddus yng Ngwynedd, Sir Gaerfyrddin, Conwy a Phowys sy'n siarad Cymraeg




O'r rhai sy'n siarad Cymraeg, mae llai na hanner yn defnyddio'r iaith 'gan mwyaf' neu 'weithiau' yn y gwaith. Mae amrywiad daearyddol arwyddocaol ym mynychder gweithwyr y sector cyhoeddus sy'n defnyddio Cymraeg yn y gwaith. Yng Ngwynedd mae dros hanner gweithwyr y sector cyhoeddus yn defnyddio'r Gymraeg fel arfer, ac mae gan Sir Gaerfyrddin niferoedd cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio'r Gymraeg 'gan mwyaf' neu 'weithiau' yn y gwaith: 52%. Ym Mhowys, dim ond 4% o weithwyr y sector cyhoeddus sydd fel arfer yn defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith, tra bo 40% yng Nghonwy 'byth' yn defnyddio'r iaith wrth eu gwaith.

Tabl 7.13: Canran yr ymatebwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith

| | Gan mwyaf | Weithiau | Anaml | Byth |
|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 56 | 16 | 12 | 16 |
| Sir Gaerfyrddin | 28 | 24 | 12 | 36 |
| Powys | 4 | 20 | 12 | 64 |
| Conwy | 12 | 24 | 24 | 40 |
| **Cyfanswm** | **25** | **21** | **15** | **39** |

Mae barn gweithwyr am bwysigrwydd gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn y gwaith yn amrywio'n arwyddocaol. Ar y cyfan, mae 21% yn ystyried bod y gallu i siarad Cymraeg yn 'hanfodol' ar gyfer eu gwaith, mae 36% o'r farn ei fod yn 'eithaf pwysig neu'n ddefnyddiol' a 43% o'r farn 'nad yw'n bwysig o gwbl'. Mae'r canlyniadau'n amrywio ar draws y pedair ardal, gan gydberthyn â phatrymau ar gyfer y defnydd ar y Gymraeg. Yng Ngwynedd, mae 44% o'r farn bod gallu siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer eu swyddi, o'i gymharu â 24% yn Sir Gaerfyrddin ac 8% o'r ymatebwyr ym

Mhowys a Chonwy. Ym Mhowys, mae 68% o weithwyr y sector cyhoeddus o'r farn bod siarad Cymraeg 'ddim yn bwysig o gwbl' ar gyfer eu gwaith.

Ffigur 7.14: Pwysigrwydd siarad Cymraeg yn y gwaith (canrannau)

| | Hanfodol | Eithaf pwysig neu ddefnyddiol | Ddim yn bwysig o gwbl |
|---|---|---|---|
| Gwynedd | 44 | 32 | 24 |
| Sir Gaerfyrddin | 24 | 40 | 36 |
| Powys | 8 | 24 | 68 |
| Conwy | 8 | 48 | 44 |
| **Cyfanswm** | **21** | **36** | **43** |

I'r rhai sy'n ystyried bod y Gymraeg yn 'hanfodol', yn 'eithaf pwysig' neu'n 'ddefnyddiol' yn eu gwaith, mae 89% o'r farn ei fod yn bwysig er mwyn cyfathrebu â chwsmeriaid neu gleientiaid, mae 62% o'r farn ei fod yn bwysig er mwyn cyfathrebu'n fewnol â chydweithwyr a 62% o'r farn ei fod yn bwysig er mwyn cyfathrebu ag eraill y tu allan i'w sefydliadau.

Y ffactor mwyaf arwyddocaol sy'n dylanwadu ar allu yn y Gymraeg a'r defnydd arni yw daearyddiaeth; fodd bynnag, mae'n nodedig hefyd bod gallu yn y Gymraeg yn amrywio ymysg y prif gyflogwyr yn y sector cyhoeddus (gweler tabl 7.15). Gall 57% o'r rhai sy'n gweithio i awdurdod addysg lleol siarad Cymraeg yn rhugl, o'i gymharu â 22% sy'n gweithio i'r GIG neu Fwrdd Iechyd Lleol. Dim ond chwarter y gweithwyr a gyflogir gan un o adrannau Llywodraeth y DU, fel y Weinyddiaeth Amddiffyn, y DVLA neu Gyllid y Wlad, sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl, ac ni all hanner gweithwyr o'r fath siarad yr iaith o gwbl.

Tabl 7.15: Gallu yn y Gymraeg, yn ôl math o gyflogwr (canrannau)

| | **Rhugl** | **Eithaf da** | **Ychydig eiriau / brawddegau** | **Dim o gwbl** |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdod addysg lleol | 57 | 29 | 0 | 14 |
| Awdurdod lleol | 45 | 16 | 12 | 27 |
| Heddlu | 25 | 25 | 25 | 25 |
| Llywodraeth y DU | 25 | 8 | 17 | 50 |
| Y GIG neu fwrdd iechyd lleol | 22 | 17 | 17 | 44 |

Mae patrymau defnydd ar y Gymraeg yn debyg i batrymau gallu. Mae deugain a thri y cant o'r gweithwyr sy'n gweithio i awdurdod addysg lleol 'gan mwyaf' yn defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith, o'i gymharu â 13% o'r rhai sy'n gweithio yn yr heddlu a 17% o'r rhai sy'n gweithio i Lywodraeth y DU a'r GIG neu fwrdd iechyd lleol.

Mae'n drawiadol bod o leiaf un rhan o dair o weithwyr sy'n gweithio i awdurdodau lleol, yr heddlu, llywodraeth y DU neu'r GIG yn ystyried bod y Gymraeg 'ddim yn bwysig o gwbl' yn eu gwaith (tabl 7.16). Mae dros ddwy ran o dair o'r rhai sy'n gweithio i Lywodraeth y DU yn ystyried bod y gallu i siarad Cymraeg 'ddim yn

bwysig o gwbl' yn eu gwaith, tra bo cyfraddau tebyg (61%) o'r rhai sy'n gweithio i'r GIG neu fwrdd iechyd lleol yn teimlo'r un peth. Mae'r sefyllfa hon bron i'r gwrthwyneb yn achos y rhai sy'n gweithio i awdurdodau addysg lleol, athrawon yn bennaf: y mae 57% ohonynt yn ystyried bod gallu siarad Cymraeg yn 'hanfodol' yn eu gwaith.

Tabl 7.16: Canran yr ymatebwyr sy'n gweithio i bum cyflogwr mawr sy'n ystyried bod y gallu i siarad Cymraeg yn 'hanfodol' a 'ddim yn bwysig o gwbl'

| | **Hanfodol** | **Ddim yn bwysig o gwbl** |
|---|---|---|
| Awdurdod addysg lleol | 57 | 29 |
| Awdurdod lleol | 24 | 35 |
| Heddlu | 13 | 38 |
| Llywodraeth y DU | 8 | 67 |
| Y GIG neu fwrdd iechyd lleol | 6 | 61 |

### 7.2.5 Sefydlogrwydd a newid o fewn gweithlu'r sector cyhoeddus

Mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu bod cryn sefydlogrwydd o fewn gweithlu'r sector cyhoeddus. Mae dros un rhan o dair o'r ymatebwyr wedi bod yn gweithio i'w sefydliad presennol yn y sector cyhoeddus ers dros ddeng mlynedd (gweler tabl 7.17). Nid yw un rhan o dair o weithwyr y sector cyhoeddus erioed wedi gweithio i neb ond eu cyflogwr presennol. Mae gan wyth deg wyth y cant o'r rhai a holwyd gontract parhaol ac mae traean y gweithwyr wedi bod â mwy nag un contract â'u cyflogwr presennol.

O'r rhai sydd wedi gweithio mewn mannau eraill, roedd 72% wedi gweithio i sefydliad yn y sector cyhoeddus yn y gorffennol. Mae hyn yn awgrymu bod y rhan fwyaf o symud sy'n digwydd o fewn y sector cyhoeddus. Yn rhannol, mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod llawer o alwedigaethau yn y sector cyhoeddus ddim ar gael yn y sector preifat, fel bydwragedd a swyddogion yr heddlu. Yn ogystal, mae absenoldeb cyflogwyr mawr yn y sector preifat yng nghefn gwlad Cymru yn arwain at lai o gyfleoedd cyflogaeth y tu allan i'r sector cyhoeddus.

Mae mwyafrif helaeth (bron i dri chwarter) y gweithwyr yn bwriadu parhau i weithio yn eu sefydliad presennol am y pum mlynedd nesaf.

Tabl 7.17: Yr amser y mae'r ymatebwyr wedi bod yn gweithio i'w cyflogwyr presennol

| | % |
|---|---|
| Llai na blwyddyn | 3 |
| 1 – 3 blynedd | 24 |
| Rhwng 3 a 5 mlynedd | 16 |
| Rhwng 5 a 10 mlynedd | 22 |
| Rhwng 10 ac 20 mlynedd | 22 |
| Rhwng 20 a 30 mlynedd | 9 |
| Dros 30 mlynedd | 4 |

7.2.6 Barn am yr amodau

Pan ofynnwyd y cwestiwn agored: ‘Enwch dair nodwedd am eich swydd bresennol a oedd yn ei gwneud yn ddeniadol i chi’, roedd yr ymateb mwyaf cyffredin yn ymwneud ag enillion (21% o’r ymatebwyr). Ymysg yr ymatebion mynych eraill roedd hyblygrwydd / oriau (19%) a gwyliau – a nodwyd gan un ym mhob deg o’r ymatebwyr (a hanner o’r rheiny’n athrawon). Nodwyd lleoliad neu ardal gan 16% o’r gweithwyr, sy’n awgrymu bod cyfran arwyddocaol o weithlu’r sector cyhoeddus heb fod yn hyblyg yn eu man gwaith.

Ar y cyfan, mae’r ymatebwyr yn gadarnhaol am weithio yn y sector cyhoeddus, o’i gymharu â’u barn am gyflogaeth yn y sector preifat (cyflwynir y canlyniadau yn nhabl 7.18). Ystyrir bod y gwyliau’n well yn y sector cyhoeddus, yn ôl o leiaf bum gwaith yn fwy o ymatebwyr na’r hyn sydd o’r farn eu bod yn waeth yn y sector cyhoeddus; mae dros 63% o’r rhai a gyfwelwyd yn ystyried bod pensiynau’n well ac mae dros ddwy ran o dair yn ystyried bod sicrwydd swydd yn well yn y sector cyhoeddus. Mae dros ddwywaith yn fwy o weithwyr y sector cyhoeddus o’r farn bod gweithio hyblyg yn well yn y sector cyhoeddus na’r rhai sydd o’r farn ei fod yn waeth.

Nid oes consensws o ran gwahaniaeth cyflog rhwng y sectorau: mae’r gyfran sydd o’r farn bod cyflogau’n well yn y sector cyhoeddus yn hafal i’r gyfran sy’n ystyried bod cyflogau’n waeth (35%). Ar y cyfan, ystyrir bod dilyniant gyrfa’n waeth yn y sector cyhoeddus na’r sector preifat.

Tabl 7.18: Ymatebion i’r cwestiwn a ofynnodd: ‘O’i gymharu â’r rhai sy’n gwneud gwaith tebyg i chi yn y sector preifat, a ydych chi o’r farn bod y materion hyn yn well, tua’r un peth, neu’n waeth fel gweithiwr yn y sector cyhoeddus’ (canrannau)

| | **Gwell** | **Tua’r un peth** | **Gwaeth** | **Ddim yn gwybod / ddim yn berthnasol** |
|---|---|---|---|---|
| Cyflog | 35 | 22 | 35 | 8 |
| Gwyliau | 53 | 27 | 10 | 10 |
| Pensiwn | 63 | 16 | 5 | 16 |
| Sicrwydd swydd | 67 | 15 | 7 | 11 |
| Dilyniant gyrfa | 27 | 25 | 34 | 14 |
| Gweithio hyblyg | 48 | 18 | 19 | 15 |

## CYFEIRIADAU

Brooks (2004) *Pay and the public sector workforce.* IPPR

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001) *Gwell Gwerth Cymru: Adolygiad o Gaffael yn Sector Cyhoeddus Cymru*

Disney, R. a Gosling, A. (2003) 'A new method for estimating public pay premia: evidence from Britain in the 1990s' *CEPR.* DP. 3787

Henley, A. a Thomas, D. (2001) 'Public service employment and the public-private wage differential in British regions'. *Regional Studies.* 25, t. 229-240

Hicks, S., Lindsay, C., Livesey, D., Barford, N. a Williams, R. (2005) *Public sector employment.* Swyddfa Ystadegau Gwladol

Jefferson, C. a Trainor, M. (1996) 'Public sector relocation and regional development'. *Urban Studies.* 33 (1), t. 37-48

Lovering, J. (1999) 'Theory led by policy: the inadequacies of the 'new regionalism' (Illustrated from the case of Wales)'. *International Journal of urban and regional research*. 23 t. 379-395

Lucifora, C. a Meurs, D. (2004) *The public sector pay gap in France, Great Britain and Italy.* EU Pay, Inequality and Economic Performance

Lyons, M. (2004) *Well-placed to deliver? Shaping the pattern of government service.* Adolygiad annibynnol o ail-leoli yn y sector cyhoeddus

Marshall *et al*., (2004) *Public relocation from London and the South East*. Adroddiad a luniwyd ar ran Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol Lloegr

Philpott, J. (2004) *Perspectives: public services*.

Trysorlys EM (2002) *Adolygiad trawstorri o farchnad lafur y sector cyhoeddus*

Trysorlys EM (2002) *Adroddiad cyn y gyllideb*

Winckler, V. (2004) *Regional pay, regional poverty? The implications of pay flexibility for Wales.* Papur Polisi 3 Sefydliad Bevan

**ATODIAD 1 – AROLWG O WEITHWYR Y SECTOR CYHOEDDUS**

Ardal…………………………………………………………………………….

Rhif ffôn…………………………………………………………………..

Enw……………………………………………………………………………

Noswaith dda.

*Sicrhewch eich bod yn siarad â'r person a enwyd.*

Rwy'n eich ffonio oherwydd i chi lenwi arolwg y llynedd am fyw a gweithio yng nghefn gwlad Cymru i Arsyllfa Wledig Cymru.

Fe sonioch chi y byddech chi'n fodlon i ni gysylltu â chi eto gydag arolwg byr arall.

Fe hoffwn i ofyn rhai cwestiynau i chi am y math o waith rydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd a'ch cynlluniau o ran gwaith yn y dyfodol.

Bydd yr holl ganlyniadau hyn yn aros yn ddienw.

A fyddech chi'n fodlon cymryd rhan yn yr arolwg byr hwn?

1. A ydych chi mewn gwaith ar hyn o bryd?

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | Dod â'r cyfweliad i ben |

Os atebwyd 'nac ydw', tynnwch y cyfweliad i'w derfyn…Diolch yn fawr i chi am eich amser – dim ond pobl sydd mewn gwaith ar hyn o bryd rydyn ni'n eu cyfweld ar gyfer y prosiect hwn.

2. Ydych chi wedi'ch cyflogi gan sefydliad yn y sector cyhoeddus ar hyn o bryd?

(*mae ein diddordeb mewn pobl y mae eu contract cyflogaeth gyda sefydliad yn y sector cyhoeddus – gweler y nodiadau am ddiffiniad o'r sector cyhoeddus*)

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | Dod â'r cyfweliad i ben |

Os atebwyd ‘nac ydw’, tynnwch y cyfweliad i’w derfyn. Diolch yn fawr i chi am eich amser – dim ond pobl sy’n gweithio yn y sector cyhoeddus rydyn ni’n eu cyfweld ar gyfer y prosiect hwn.

3. Beth yw enw’ch cyflogwr presennol (sefydliad y mae gennych chi gontract ag e)?

…………………………………………………………………………………………

4. Ble mae eich gweithle?

…………………………………………………………………………………………

5. Pa mor bell yw hyn o’ch cartref?

| | |
|---|---|
| Llai na 5 milltir | |
| Rhwng 5 a 10 milltir | |
| 11 – 20 milltir | |
| 21 – 49 milltir | |
| 50 milltir neu fwy | |
| Ddim yn berthnasol / ddim yn gwybod | |

6. Ers faint ydych chi wedi bod yn gweithio i (rhowch enw’r sefydliad)?

| | |
|---|---|
| Llai na blwyddyn | |
| 1 – 3 blynedd | |
| Rhwng 3 a 5 mlynedd | |
| Rhwng 5 a 10 mlynedd | |
| Rhwng 10 ac 20 mlynedd | |
| Rhwng 20 a 30 mlynedd | |
| Dros 30 mlynedd | |

7. Beth yw teitl eich swydd?

…………………………………………………………………………………………

8. Pa un o’r categorïau canlynol, yn eich barn chi, sy’n disgrifio’ch galwedigaeth orau?

| | |
|---|---|
| Rheoli, proffesiynol neu weinyddol uwch | |
| Rheoli, proffesiynol neu weinyddol canolradd | |
| Rheoli, proffesiynol neu weinyddol goruchwylio neu is | |
| Gweithwyr llaw medrus | |
| Gweithwyr llaw medrus neu led fedrus | |
| Gweithwyr achlysurol | |

9. Enwch dair nodwedd am eich swydd bresennol a oedd yn ei gwneud yn ddeniadol i chi.

………………………………………………………………………………………..

………………………………………………………………………………………..

………………………………………………………………………………………..
(peidiwch â phoeni os oes llai na thair nodwedd)

10. A ydych chi’n gweithio’n rhan-amser neu’n amser llawn ar hyn o bryd?

| | |
|---|---|
| Amser llawn | Os atebwyd ‘amser llawn’ ewch i gwestiwn 12 |
| Rhan-amser | |

11. Os atebwyd ‘rhan-amser’ ewch i gwestiwn 10:

Ar gyfartaledd, sawl awr fyddwch chi’n gweithio bob wythnos?

……………………………………………………………………………………

12. A oes gennych chi gontract parhaol ar hyn o bryd?

| | |
|---|---|
| Oes | Ewch i gwestiwn 14 |
| Nac oes | |

13. Os atebwyd ‘nac oes’ ewch i gwestiwn 12:

Pryd gychwynnodd eich contract.................................................

Pryd fydd yn dod i ben.........................................…...............

14. Ai dyma’ch contract cyntaf gyda (enw’r sefydliad yn y sector cyhoeddus)?

| | |
|---|---|
| Ie | Ewch i gwestiwn 16 |
| Nage | |

15. Os atebwyd ‘nage’ i gwestiwn 14:
Beth oedd teitl eich swydd flaenorol?

.................................................................................................

16. A oedd gennych chi swydd cyn dod i weithio i (enw’r sefydliad yn y sector cyhoeddus)?

| | |
|---|---|
| Oedd | |
| Nac oedd | Ewch i gwestiwn 18 |

17. Beth oedd enw’r sefydliad roeddech chi’n gweithio iddo cyn hyn?

Enw’r sefydliad..............................................................

18. Pa mor hir oeddech chi’n gweithio yna?

| | |
|---|---|
| Llai na blwyddyn | |
| 1 – 3 blynedd | |
| Rhwng 3 a 5 mlynedd | |
| Rhwng 5 a 10 mlynedd | |
| Rhwng 10 ac 20 mlynedd | |
| Rhwng 20 a 30 mlynedd | |
| Dros 30 mlynedd | |

19. A fyddech chi'n dweud ei fod yn sefydliad yn y sector preifat, y sector cyhoeddus neu yn y sector gwirfoddol?

| | |
|---|---|
| Cyhoeddus | |
| Preifat | Ewch i gwestiwn 21 |
| Gwirfoddol | Ewch i gwestiwn 21 |

20. Os atebwyd 'cyhoeddus' i gwestiwn 19:

A ydych chi erioed wedi gweithio y tu allan i'r sector cyhoeddus?

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Ddim yn gwybod | |

21. A ydych chi'n rhagweld y byddwch chi'n gweithio i (rhowch enw'r sefydliad) am y pum mlynedd nesaf – tan 2010?

| | Ydw | Ddim yn gwybod | Nac ydw | Dd/b |
|---|---|---|---|---|
| Gyda'ch cyflogwr presennol | *Ewch i gwestiwn 24* | *Ewch i gwestiwn 24* | | *Ewch i gwestiwn 24* |

22. Os atebwyd 'nac ydw' (i gwestiwn 20), a ydych chi'n bwriadu parhau i weithio yn y sector cyhoeddus am y pum mlynedd nesaf – tan 2010?

| | Ydw | Ddim yn gwybod | Nac ydw | Dd/b |
|---|---|---|---|---|
| Yn y sector cyhoeddus | *Ewch i gwestiwn 24* | *Ewch i gwestiwn 24* | | *Ewch i gwestiwn 24* |

23. Os atebwyd 'nac ydw' (i'r cwestiwn uchod) pam ddim?

………………………………………………………………………………………..

24. O'i gymharu â'r rhai sy'n gwneud gwaith tebyg i chi yn y sector preifat, a ydych chi o'r farn bod y materion hyn yn well, tua'r un peth, neu'n waeth fel gweithiwr yn y sector cyhoeddus:

| | Gwell | Tua'r un peth | Gwaeth | Ddim yn gwybod / ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|
| Cyflog | | | | |
| Gwyliau | | | | |
| Pensiwn | | | | |
| Sicrwydd swydd | | | | |
| Dilyniant gyrfa | | | | |
| Gweithio hyblyg | | | | |

"Nawr, fe fydda i'n gofyn rhai cwestiynau i chi am eich defnydd ar y Gymraeg":

25. Ydych chi'n siarad Cymraeg:

| | |
|---|---|
| Yn rhugl | |
| Yn eithaf da | |
| Rhai geiriau neu frawddegau | |
| Dim o gwbl | |

26. Yn y gwaith, ydych chi'n siarad Cymraeg

| | |
|---|---|
| Gan mwyaf | |
| Weithiau | |
| Anabl | |
| Byth | |

27. A yw'r gallu i siarad Cymraeg yn bwysig ar gyfer eich swydd?

| | |
|---|---|
| Hanfodol | |
| Eithaf pwysig | |
| Defnyddiol | |
| Ddim y bwysig o gwbl | Ewch i C.29 |

28. A yw’n bwysig er mwyn cyfathrebu â (ticiwch bob un sy’n berthnasol):

| | |
|---|---|
| Cydweithwyr | |
| Cwsmeriaid (gan gynnwys myfyrwyr, cleifion) | |
| Pobl eraill y mae gennych chi gysylltiad â nhw y tu allan i’ch sefydliad | |

“I orffen, hoffwn i gadarnhau rhai manylion amdanoch chi a lle rydych chi’n byw”

29. A fyddech chi’n disgrifio’r lle rydych chi’n byw fel:

| | |
|---|---|
| Tref | |
| Pentref | |
| Gwlad agored | |

30. Allwch chi roi digidau cyntaf eich cod post i mi?

………………………………………………………………………………………

31. Beth yw eich cymhwyster academaidd uchaf?

| | |
|---|---|
| Tystysgrif gadael ysgol | |
| Lefel O, TAG neu TGAU | |
| Safon Uwch, HNC neu OND | |
| HND neu ddiploma tebyg | |
| Gradd prifysgol | |
| Cymhwyster ôl-radd | |
| Dim cymwysterau | |

32. Ym mha grwp oedran ydych chi:

| | |
|---|---|
| 16 – 24 | |
| 25 – 34 | |
| 35 – 44 | |
| 45 – 54 | |
| 55 – 64 | |
| 65+ | |

33. Rwy am ddarllen rhai bandiau cyflog i chi. Allwch chi ddweud wrtha i ym mha gategori ydych chi (cyn treth neu cyn tynnu unrhyw symiau eraill)?

| | |
|---|---|
| Llai na £5000 y flwyddyn | |
| £5,000 – £10,000 | |
| Rhwng £10,000 a £15,500 | |
| Rhwng £15,500 ac £21,000 | |
| Rhwng £21,000 ac £31,000 | |
| Rhwng £31,000 a £52,000 | |
| £52000 + | |

33. Rhyw (ni ddylech orfod gofyn y cwestiwn hwn!)

| | |
|---|---|
| Gwryw | |
| Benyw | |

"Ar ran Arsyllfa Wledig Cymru, diolch yn fawr iawn i chi am roi amser i gymryd rhan yn yr arolwg hwn."